Y Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
FIN(5)-16-20 P4

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 wedi'i baratoi ar y cyd, a'i osod gerbron y Senedd, gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol ag Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ac mae'n cynnwys materion a gyfarwyddwyd gan y Trysorlys.

Yn ôl yr Adroddiad Blynyddol, yn ystod 2019-20:

- mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael eu harfer yn gyson â'r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer y flwyddyn o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, heb unrhyw newidiadau sylweddol i'r gwaith a gynlluniwyd; ac
- mae'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun ar gyfer 2019-20 wedi'u cyflawni i raddau helaeth.

Mae'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 wedi'u paratoi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol ag Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac ar ffurf a gyfarwyddwyd gan y Trysorlys.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn yr Adroddiad hwn rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau lle mae angen cywirdeb cyfreithiol.

Os oes angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall arnoch, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn 029 2032 0500

E-bost post@archwilio.cymru

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cipolwg ar y flwyddyn

## Ebril 2019

Drwy ein Cynllun Blynyddol, nodwyd ein huchelgeisiau ar gyfer cyrraedd ein potensial llawn fel sbardun i wella gwasanaethau cyhoeddus

Dyfarnwyd i ni lefel 5 (y lefel uchaf) o Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd





## Mai

Cynhaliwyd seminar i hwyluso'r broses o rannu technegau ymchwilio a thrafod y defnydd o ddata wrth atal a chanfod twyll

Gwahoddwyd datganiadau o ddiddordeb gan staff o dan lefel cyfarwyddwr i gael eu penodi fel aelodau sy'n weithwyr cyflogedig o'r Tîm Arwain Gweithredol

## Mehefin

Daethpwyd i'r casgliad bod gan awdurdodau cynllunio lleol yn ddigon gwydn i sicrhau gwelliannau tymor hir oherwydd eu gallu cyfyngedig

Lansiwyd offeryn data cyllid y GIG sy'n diweddaru'r wybodaeth ddiweddaraf yn awtomatig ac yn galluogi defnyddwyr i archwilio tueddiadau a chymariaethau lleol

## Gorffennaf

Cyhoeddwyd adroddiadau ar gyfrifon y rhan fwyaf o gyrff llywodraeth ganolog yng Nghymru



Nodwyd bod y Gronfa Gofal Integredig wedi cael effaith gadarnhaol o ran cefnogi gwaith partneriaeth rhwng y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

## Awst

Nodwyd ein bod wedi cymryd camau effeithiol tuag at gyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion o ran cydraddoldeb

Gwahoddwyd barn a sylwadau ar ein cynllun ffioedd arfaethedig ar gyfer gwaith archwilio yn 2020-21



## Medi

Gwnaed cyfres o argymhellion i gynghorau ar gyfer gwella mynediad at 'ddrws ffrynt' gofal cymdeithasol a buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol yn y gymuned

Cyhoeddwyd pum adroddiad thematig rhyngweithiol ac offeryn data cysylltiedig sy'n edrych ar waith Llywodraeth Cymru ar gefnogi llesiant pobl ifanc



## Hydref

Cyhoeddwyd dadansoddiad rhyngweithiol o wariant cyhoeddus yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf, gyda chymariaethau â gweddill y DU



Dangoswyd bod buddsoddiad ac ymdrechion Llywodraeth Cymru wedi helpu i ostwng lefelau tlodi tanwydd yn ôl pob golwg ond nad yw wedi cyflawni unrhyw un o'i thargedau

## Tachwedd

Nodwyd bod dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol yn aml yn cael eu gadael i lawr gan system anghyson, gymhleth a thameidiog

Amlinellwyd amryw o wendidau sylfaenol yn nhrefniadau llywodraethu Bwrdd Iechyd Cwm Taf o ran ansawdd gofal a diogelwch cleifion



## Rhagfyr

Adroddwyd ar ein cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau a nodwyd ein hamcanion allweddol ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd yn y dyfodol



Cynhaliwyd cynhadledd ar gyfer unigolion sy'n gweithio mewn sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus ledled Cymru ac sy'n astudio tuag at gymhwyster cysylltiedig â chyllid

## Ionawr 2019


Cyhoeddwyd memorandwm yn nodi'r rhesymau dros roi barn 'amodol' ar reoleidd-dra ar gyfrifon 2018-19 Cyfoeth Naturiol Cymru

Cynhaliwyd gweminar gyda phanel o siaradwyr gwadd ar gyfer sefydliadau sydd eisiau trawsnewid y ffordd y maent yn casglu, dadansoddi a defnyddio data



## Chwefror

Adroddwyd nad oedd traean y cynghorau tref a chymuned yng Nghymru wedi bodloni'r terfyn amser statudol ar gyfer cyhoeddi eu cyfrifon archwiliedig




Nodwyd canfyddiadau interim ein hadolygiad o'r ffordd mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â chynllun gwella ffordd yr A465

## Mawrth

Disgrifiwyd y camau yr oeddem yn bwriadu eu cymryd yn ystod y flwyddyn i ddod tuag at -gyflawni ein huchelgeisiau sefydliadol a'n hamcanion strategol

Cyfathrebwyd ein bod wedi lleihau ein gwaith ac yn mabwysiadu dulliau cyflenwi amgen mewn ymateb i bandemig Covid-19



# Cynnwys a chanllaw i ddarllenwyr

## Adroddiad ar Berfformiad

Adolygiad o'n gwaith yn 2019-20, gan gynnwys dadansoddiad o'n cyflawniadau a'n perfformiad, a'n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

### Trosolwg

Crynodeb o bwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud, y prif risgiau rydym yn eu hwynebu a sut rydym wedi perfformio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Datganiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd 9
Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud 13
Y prif broblemau a risgiau rydym yn eu hwynebu 16
Dangosyddion perfformiad 17

### Dadansoddi perfformiad

Asesiad o'r graddau y mae'r uchelgeisiau a'r rhaglenni gwaith a nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol 2019-20 wedi'u cyflawni.

Adborth gan randdeiliaid 23
Enghreifftiau astudiaethau achos o'n gwaith 26
Ein defnydd o adnoddau 36

## Adroddiad ar Atebolrwydd

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy'n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfiaeth â llywodraethu corfforaethol da.

### Adroddiad ar lywodraethu corfforaethol

Esboniad o gyfansoddiad a threfniadaeth ein strwythurau llywodraethu a sut maent yn helpu i gyflawni ein huchelgeisiau.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr 51
Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 53
Datganiad llywodraethu 55

**Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a staff**

Ein polisi cydnabyddiaeth ariannol, manylion tâl a buddion pensiwn aelodau'r Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Tîm Arwain Gweithredol, ein datgeliad cyflog teg ac adroddiad ar ein staffio.

Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol 75

Adroddiad staff 86

**Alldro adnoddau ac adroddiad yr archwilydd**

Ein crynodeb o alldro adnoddau, trosolwg o dueddiadau yn ein gwariant tymor hir ac adroddiad yr archwilydd annibynnol, gan gynnwys ei farn ar y datganiadau ariannol, rheoleidd-dra ac ar faterion eraill.

Crynodeb o alldro adnoddau a nodiadau cysylltiedig 94

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i'r Senedd 99

## Datganiadau Ariannol

Datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd â nodiadau ategol ac esboniadol.

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr 105

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol 106

Datganiad o Lifoedd Arian Parod 109

Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 110

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol 111

Geirfa 130

## Atodiadau

Mwy o fanylion am y rhaglenni gwaith a gyflawnwyd gennym yn 2019-20 a'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein hymrwymiadau newid.

1 Rhaglenni gwaith a gyflawnwyd yn 2019-20 133

2 Cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein hymrwymiadau o ran newid 139

# Adroddiad ar Berfformiad

Adolygiad o'n gwaith yn 2019-20, gan gynnwys dadansoddiad o'n cyflawniadau a'n perfformiad, a'n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu

17 Mehefin 2020

01

# Trosolwg

## Datganiad gan yr Archwilydd Cyffredinol

I gychwyn, hoffwn dalu teyrnged i'r holl weision cyhoeddus sy'n gweithio mor galed i dywys ein gwlad drwy'r argyfwng presennol. Fel y sefydliad sy'n gyfrifol am graffu ar y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, mae gennym ddarlun breintiedig o ba mor hanfodol ydynt i fywydau pawb, yn enwedig ar adegau fel hyn. Ar ran pawb yn Archwilio Cymru – diolch.

Er na ellid disgrifio wythnosau diwethaf 2019-20 fel rhai 'busnes fel arfer', roedd yr 11 mis blaenorol yn gyfnod cynhyrchiol iawn i ni o ran cyflawni archwiliadau. Llwyddwyd fwy neu lai i gyflawni'r rhaglen gyfan o archwiliadau a nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol, mewn modd amserol ac i safon uchel. Rhaid i'r rhan fwyaf o'r clod am y llwyddiant hwn fynd i'n staff a'n contractwyr proffesiynol, ymroddgar a gweithgar, ac rwy'n hynod ddiolchgar iddynt am hynny.

Mae detholiad o astudiaethau achos wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad hwn er mwyn rhoi mwy o ddealltwriaeth o rai o'r prosiectau rydym wedi ymwneud â nhw a'r cyfraniad mae'r gwaith hwnnw wedi'i wneud o ran dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif a helpu i wella'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu. Ffocws allweddol ar gyfer y flwyddyn oedd cynyddu ein defnydd o ddadansoddeg data i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y ffordd rydym yn casglu, caffael a dadansoddi gwybodaeth, ac i wella'r ffordd rydym yn cyfathrebu ein canfyddiadau a'n hargymhellion. Byddwch yn gweld cyfeiriad at sawl offeryn data rhyngweithiol a adeiladwyd gennym i ddwyn ynghyd ystadegau a gwybodaeth arall o adroddiadau archwilio i adnoddau unigol, hygyrch.

Yng nghanol pandemig COVID-19, rydym yn cydweithio'n agos â'r cyrff a archwilir gennym er mwyn sicrhau bod ein dyletswyddau statudol a'n gwaith archwilio ehangach yn cael eu cyflawni heb amharu ar ymdrechion cyrff cyhoeddus i ddelio â'r argyfwng cenedlaethol. Ond er ein bod yn gweithio ac ymgysylltu yn gyfan gwbl o bell, nid ydym yn llaesu'n dwylo o gwbl. Mae gan waith archwilio cyhoeddus sy'n targedu ac yn cael ei gyflawni'n dda gyfraniad hanfodol i'w wneud ar hyn o bryd o ran sicrhau gwerth am arian, llywodraethu da ac atebolrwydd. Mae Archwilio Cymru yn cynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus Cymru i ymateb i COVID-19 drwy:

- ddarparu archwiliad o gyfrifon o ansawdd uchel er mwyn rhoi barn y gellir ymddiried ynddi am sefyllfa ariannol y sector cyhoeddus;
- archwilio'r materion allweddol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yn ystod y pandemig;
- hwyluso'r broses o gasglu, dadansoddi a rhannu dysgu ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru mewn amser mor real â phosibl; a
- manteisio ar ein safbwynt unigryw i ddylanwadu ar gydnerthedd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a'r ffordd y cânt eu llywio i'r dyfodol.

Mae pobl a sefydliadau ar draws sector cyhoeddus Cymru yn datblygu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio mewn ymateb i COVID-19 ac er mwyn mynd i'r afael â materion hirdymor. Rydym wedi cychwyn ar waith i gipio a dadansoddi arfer o'r fath wrth iddo ddod i'r amlwg, i amlygu'r pwyntiau dysgu perthnasol ac i rannu'r mewnwelediad o ganlyniad i hynny yn gyflym gyda'n cysylltiadau allweddol ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru. Yn ein Hadroddiad Interim nesaf, a gaiff ei gyhoeddi ym mis Hydref, byddwn yn rhoi diweddariad manylach ar y newidiadau a wnaed i'n prosesau archwilio, ac ar y deilliannau sy'n codi o'r gwaith hwnnw.

I gloi, hoffwn dalu teyrnged unwaith eto i'm cydweithwyr ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru a'r gwaith anhygoel y maent yn ei wneud dros bobl Cymru.



**Adrian Crompton**
Archwilydd
Cyffredinol Cymru

# Datganiad gan y Cadeirydd

Mae hwn yn gyfnod cwbl ddigynsail gyda'r cyfyngiadau symud a gyflwynwyd mewn ymateb i bandemig COVID-19. Mae bywyd wedi newid cymaint ac mor gyflym. Mae cadw mewn cysylltiad ag anwyliaid, ffrindiau a chydweithwyr yn teimlo'n bwysicach nag erioed.

Fel cyflogwr, rydym yn parhau i fonitro'n agos y sefyllfa sy'n symud yn gyflym ac yn gweithredu yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Mae pob un o'n swyddfeydd ar gau ar hyn o bryd ac mae ein holl staff yn gweithio o bell o'u cartrefi.

Mae ein blaenoriaethau uniongyrchol o ran rhedeg y busnes wedi cael eu newid yn sylfaenol wrth i ni ganolbwyntio ar addasu ac amharu cyn lleied â phosibl ar ein gwaith archwilio tra'n sicrhau ein bod yn gwneud y peth iawn i'n pobl, gan eu cadw'n ddiogel. Yn ganolog i hyn mae'r defnydd o dechnolegau sy'n caniatáu i ni gysylltu, gweithio a chydweithredu'n hyblyg ymhlith ein timau a chyda'r cyrff cyhoeddus a archwiliwn.

Mae pa mor dda mae pawb yn Archwilio Cymru wedi addasu eu rolau wrth ymdopi â bywyd gartref o dan gyfyngiadau symud wedi creu cryn argraff arnaf, ac rwy'n gwybod bod hyn yn cyflwyno sawl her.

Wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn ariannol flaenorol, sy'n teimlo mor bell yn ôl erbyn hyn, fe wnaethom berfformio'n dda iawn ar y cyfan, ac rwy'n fodlon ar ein cyflawniadau ac yn ymfalchïo ynddynt. Cafodd risgiau strategol eu rheoli'n dda, gwnaed cynnydd sylweddol tuag at gyflawni ein hymrwymiadau newid ac fe wnaethom fodloni llawer o'r targedau heriol a osodwyd ar gyfer ein dangosyddion perfformiad allweddol. Hoffwn dalu teyrnged i'n staff am eu holl waith caled a'u hymrwymiad gydol y flwyddyn. Fel Bwrdd, cawsom chwe chyfarfod ffurfiol yn ystod y flwyddyn, ac rwy'n ddiolchgar iawn am gefnogaeth yr aelodau eraill o'r bwrdd.

Ym mis Hydref, cynhaliwyd ein harolwg staff blynyddol unwaith eto, gan ddefnyddio'r un holiadur craidd a ddefnyddiwyd gan y Gwasanaeth Sifil, er mwyn cadw ein bys ar y pwls o ran ymgysylltu â staff a phrofiad gweithwyr cyflogedig. Hon oedd y drydedd flwyddyn i ni gynnal yr arolwg yn y fformat hwn, ac roedd y canlyniadau'n galonogol unwaith eto. Ar gyfer llawer o gwestiynau a themâu'r arolwg, roedd yr ymatebion gan ein staff yn fwy nodweddiadol o sefydliad 'perfformiad uchel' yn y Gwasanaeth Sifil. Fodd bynnag, rydym hefyd yn parhau i nodi rhai meysydd pwysig y mae angen i ni wneud gwelliannau pellach yn eu cylch, megis ein darpariaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu a'n dulliau rheoli newid. Er mwyn bod yn fwy tryloyw, o eleni ymlaen byddwn yn cyhoeddi canlyniadau ein harolygon staff ar ein gwefan.

Efallai eich bod wedi sylwi hefyd ar y newid enw i 'Archwilio Cymru' yn yr Adroddiad hwn. Mae'n fater eilaidd iawn yn yr hinsawdd sydd ohoni, ond mewn ymateb i adborth ar sut rydym yn cyfathrebu ac ymgysylltu, gwnaethom y penderfyniad y llynedd i ddwyn ynghyd amryw linynnau ein gwaith o dan hunaniaeth ymbarél newydd a chliriach. Er nad yw'n effeithio ar ein statws cyfreithiol ffurfiol, byddwn yn gweithredu fel Archwilio Cymru o hyn allan yn y rhan fwyaf o'n gwaith sy'n wynebu'r cyhoedd. Dim ond un rhan ydyw o raglen newid ehangach ar gyfer ein hadroddiadau archwilio; ein gwefan; ein harddull gyfathrebu a'r ffordd rydym yn ymgysylltu'n fwy cyffredinol, y gobeithiaf y byddwch yn ei gydnabod ac yn ei werthfawrogi.

Cymerwch ofal a chadwch yn ddiogel.



**Isobel Everett**
Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

# Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

1 Mae archwiliad annibynnol o weithgareddau'r llywodraeth a'r defnydd o arian cyhoeddus yn elfen hanfodol o atebolrwydd democrataidd. Mae angen i'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr gael gwybodaeth sy'n ddiduedd, yn amserol, yn gywir, yn gynhwysfawr ac yn glir.

2 Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

3 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys yr arian y mae'r Senedd yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo elfennau sylweddol o'r arian hwn i'r GIG a llywodraeth leol yng Nghymru.

4 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi tua 270 o staff proffesiynol ac yn defnyddio adnoddau eraill, gan gynnwys arbenigedd ychwanegol gan gwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat, er mwyn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau.

## Pam ein bod yma

**Sicrhau**



pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda

**Egluro**



sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion pobl

**Ysbrydoli**



a grymuso'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella

5 Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio cyfrifon a gwneud gwaith archwilio perfformiad lleol mewn ystod o gyrff cyhoeddus, ynghyd â chynnal rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol. Gall y swyddogaethau hyn gael eu harfer, ac y cyd â'i gilydd os oes angen, ar draws gwahanol fathau o gyrff i archwilio gwariant cyhoeddus ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau.

6 Gyda'n gilydd, fel Archwilio Cymru, rydym yn archwilio tua £20 biliwn o incwm a gwariant, sef dros chwarter GDP Cymru.

## Ein gwaith craidd



Cynnal gwaith archwilio mewn dros **800**




Cyflawni rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau **gwerth am arian**




Ardystio cynlluniau grant sy'n werth bron i **£2.5 biliwn**



Cymeradwyo tua **£1 biliwn** o daliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis



**Cefnogi gwaith craffu effeithiol** gan gynnwys gwaith Pwyllgorau'r Cynulliad



Cynnal digwyddiadau **dysgu ar y cyd** i fwy na **1,100 o bobl**



Hwyluso'r gwaith o **ganfod twyll** a gwall drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol



Cyflawni rôl **sylwedydd** ar amrywiaeth o weithgorau polisi allweddol

7 Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol sy'n darparu mwy o wybodaeth am:

a sut rydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru

b ein huchelgeisiau tymor hwy;

c ein hamgylchedd gweithredu;

ch ein rhaglenni gwaith arfaethedig a'n meysydd ffocws cysylltiedig am y 12 mis nesaf; a

d sut rydym yn mesur ein perfformiad ac yn adrodd arno

8 Ym mis Mehefin 2019, aethom ati i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol a oedd ar y gweill ar y pryd ac y disgwyliwyd iddynt gychwyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae'r rhaglen yn cadw rhywfaint o hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau a blaenoriaethau sy'n newid a materion sy'n peri pryder i'r cyhoedd neu i'r Senedd, ac i ymgorffori dysgu sy'n berthnasol yn ehangach o waith archwilio lleol.

9 Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu ein rhaglen waith archwilio yng ngoleuni sefyllfa COVID-19 ehangach. Rydym yn parhau â'r gwaith sydd ar y gweill hyd y gellir gwneud hynny, gan weithio o bell ac ystyried effaith ein gwaith ar gyrff cyhoeddus ar yr adeg anodd hon.

# Y prif broblemau a risgiau rydym yn eu hwynebu

10 Dros y blynyddoedd nesaf, rydym eisiau cyrraedd ein potensial llawn fel ysgogydd newid a gwelliant wrth galon gwasanaethau cyhoeddus ac atebolrwydd democrataidd. Mae gennym bedwar uchelgais cyffredinol ac, ar gyfer pob uchelgais, tri amcan strategol, sy'n disgrifio ar y cyd y llwybr rydym yn ei ddilyn tuag at gyflawni'r potensial hwnnw.

### Manteisio i'r eithaf ar ein harbenigedd, dealltwriaeth graff a safbwynt unigryw

- Cryfhau natur rymus ein dealltwriaeth unigryw drwy weithio mewn tîm a rhannu gwybodaeth mewn ffordd fwy integredig.
- Chwilio'n rhagweithiol am synergeddau a thueddiadau yn y wybodaeth sydd gennym.
- Canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf ac a wnaiff y gwahaniaeth mwyaf i gyrff cyhoeddus a'r cyhoedd.

### Cryfhau ein statws fel llais awdurdodol ac annibynnol yr ymddiriedir ynddo

- Dod â thystiolaeth a sylwebaeth ddibynadwy i'r amlwg ar y materion cywir ar yr adeg gywir.
- Sicrhau ein bod yn cyflwyno'r ffeithiau'n glir ac yn egluro'n gryno pam ein bod wedi dod i gasgliad neu ddehongliad penodol.
- Bod yn effro ac yn ymatebol i gyfleoedd newydd i rannu gwybodaeth a dealltwriaeth archwilio lle gall ychwanegu gwerth.

### Dod yn fwy amlwg, dylanwadol a pherthnasol

- Canolbwyntio tuag allan mewn ffordd amlwg ac ymgysylltu mewn ffordd sy'n berthnasol i ystod eang o gynulleidfaoedd.
- Dylanwadu ar ffordd o feddwl ac ymddygiad eraill a llywio'r ddadl gyhoeddus ehangach.
- Ceisio a gwrando ar syniadau a meddyliau y tu hwnt i Gymru a'r sector cyhoeddus.

### Dangos esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

- Gan ein bod yn arddel barn archwilio ar eraill, sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn rydym yn cynghori eraill i wneud.
- Darparu arweinyddiaeth glir, gyson a dilys a gwneud penderfyniadau'n gyflymach.
- Grymuso pobl drwy'r sefydliad i feddwl am syniadau newydd a gwneud newid cadarnhaol.

11 Fel y nodir mewn mwy o fanylder yn ein Cynllun Blynyddol, yn ein barn ni, y ffactorau canlynol yw'r rhai a fydd yn cael y dylanwad mwyaf ar y ffordd y byddwn yn gwneud ein gwaith ac yn cyflawni ein huchelgeisiau dros y blynyddoedd nesaf:

a Goblygiadau pandemig COVID-19

b Goblygiadau Brexit

c Gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru

ch Yr argyfwng hinsawdd

d Heriau economaidd-gymdeithasol

dd Cymdeithas sydd wedi'i rhwydweithio fwyfwy

Darperir cofnod o'n trefniadau rheoli risg yn 2019-20, ochr yn ochr â disgrifiad o'r ansicrwydd a'r prif risgiau rydym yn eu hwynebu, yn yr adran Datganiad Llywodraethu yn yr Adroddiad hwn.

## Dangosyddion perfformiad

12 Roedd fframwaith o ddangosyddion perfformiad allweddol wedi'i gynnwys yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2019-20. Fe wnaethom hefyd ddatblygu cyfres o dargedau, gan gyfeirio at lefelau perfformiad ar ddiwedd 2018-19 a meincnodau priodol.

13 Yn ystod 2019-20, fe wnaethom ddefnyddio cymysgedd o ddulliau meintiol ac ansoddol i fesur ein perfformiad a'n risgiau, ac i adrodd a myfyrio arnynt. Roedd hyn yn cynnwys adroddiadau chwarterol i'n Tîm Arwain Gweithredol a'r Bwrdd ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein targedau perfformiad.

14 Ar y cyfan, yn 2019-20 fe wnaethom gyflawni ein targedau ar gyfer 15 o'r 20 dangosydd, neu roeddem yn agos at wneud hynny. Bydd ein gwaith gwella yn ystod 2020-21 yn canolbwyntio ar wella ein perfformiad yn erbyn y pum dangosydd sy'n weddill.


## Sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn o ran cyrraedd ein targedau perfformiad allweddol



Manteisio'n llawn ar ein safbwynt, arbenigedd a gwybodaeth unigryw



Cryfhau ein safle fel llais awdurdodol ac annibynnol y mae pobl yn ymddiried ynddo



Cynyddu ein gweledeedd, ein dylanwad a'n perthnasedd



Bod yn sefydliad enghreifftiol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

**Tabl yn rhestru'r dangosyddion perfformiad allweddol sy'n berthnasol i'n tri uchelgais cyntaf.**

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| **1** | Ar amser | Cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol a gyflawnwyd ar amser. | 95% | 93% |
| **2** | Adroddiadau cenedlaethol | Nifer yr adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd. | 18 | 18 |
| **3** | Argymhellion a dderbyniwyd | Cyfran yr argymhellion neu'r cynigion ar gyfer gwella a dderbynnir yn llawn gan gyrff a archwilir. | 90% | 98% |
| **4** | Arbedion a nodwyd | Gwerth arbedion posibl a nodwyd drwy ein gwaith. | O leiaf £30 miliwn yn ystod 2018-2021 | £17.7 miliwn yn ystod 2018-20 |

- Cyflawni ein targed, neu'n agos at wneud hynny
- Angen gwelliant
- Angen gwelliant sylweddol

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| **5** | Gwneud gwahaniaeth | Canran y sgôr cadarnhaol o'r arolwg rhanddeiliaid am ba mor dda rydym yn cyflawni ein huchelgeisiau. | 85% | 61%[1] |
| **6** | Y nifer sy'n bresennol mewn digwyddiadau arfer da | Y nifer sy'n bresennol yn ein seminarau a gweminarau dysgu ar y cyd. | 1,100 y flwyddyn | 925 |
| **7** | Boddhad â digwyddiadau arfer da | Cyfran y rhai a oedd yn bresennol yn ein digwyddiadau cyfnewid arfer da a nododd fod y digwyddiadau yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn ar y cyfan. | O leiaf 90% | 93% |
| **8** | Ymweliadau â'r wefan – cyfran | Cyfran yr ymweliadau â'r wefan lle mae o leiaf un weithred yn cael ei chyflawni e.e. lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo. | O leiaf 90% | 25% |
| **9** | Ymweliadau â'r wefan – nifer | Nifer yr ymweliadau â’r wefan lle mae o leiaf un weithred yn cael ei chyflawni. | 30,000 | 32,955 |
| **10** | Ymdrin â gohebiaeth | Nifer yr achosion lle na chyflwynir ymateb llawn neu interim i ohebiaeth o fewn 30 diwrnod gwaith. | Dim | Dim |

● Cyflawni ein targed, neu’n agos at wneud hynny

● Angen gwelliant

● Angen gwelliant sylweddol

1 Atebodd 29% o’r rhanddeiliaid eraill ‘Ddim yn gwybod’, gyda rhai yn nodi nad oeddent yn ymwybodol o’n huchelgeisiau newydd, ac eraill yn teimlo bod y cwestiwn yn rhy amhenodol ac ar lefel rhy uchel. O ganlyniad, rydym wedi cyflwyno tri dangosydd newydd yn lle’r mesur hwn yn ein Hadroddiad Blynyddol 2020-21, ac rydym yn defnyddio’r adborth i lywio ein gwaith parhaus ar gynyddu ein gwelededd, ein dylanwad a’n perthnasedd, ac ar ddatblygu ystod fwy amrywiol o fecanweithiau i gipio barn ein rhanddeiliaid.



Manteisio'n llawn ar ein safbwynt, arbenigedd a gwybodaeth unigryw



Cryfhau ein safle fel llais awdurdodol ac annibynnol y mae pobl yn ymddiried ynddo



Cynyddu ein gwelededd, ein dylanwad a'n perthnasedd



Bod yn sefydliad enghreifftiol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

**Tabl yn rhestru'r dangosyddion perfformiad allweddol sy'n ymwneud â'n pedwerydd uchelgais.**

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| **11** | Ymgysylltu â gweithwyr cyflogedig | Canran y sgôr cadarnhaol o'r arolwg ymgysylltu â staff blynyddol - wedi'i halinio ag Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil (CSPS). | Y sgôr degradd uchaf ar gyfer CSPS | 69% |
| **12** | Profiad y gweithwyr cyflogedig | Canran y sgoriau[2] thematig cadarnhaol o'r arolwg staff blynyddol | Y sgoriau degradd uchaf ar gyfer CSPS | Cyfres o sgoriau a gyhoeddir ar ein gwefan |
| **13** | Absenoldeb salwch | Diwrnodau gwaith a gollwyd fesul aelod o staff y flwyddyn ar gyfartaledd. | Llai na chwe niwrnod | 5.8 diwrnod |
| **14** | Balans ariannol | Lefel yr amrywiant mewn gwariant gros o'r hyn a nodwyd yn ein Hamcangyfrif 2019-20. | O fewn 2% i'r gyllideb | O fewn 0.5% i'r gyllideb |

Cyflawni ein targed, neu'n agos at wneud hynny

Angen gwelliant

Angen gwelliant sylweddol

2 Dyma'r themâu allweddol mewn perthynas â phrofiad gweithwyr cymdeithasol CSPS: amcanion a phwrpas y sefydliad; arweinyddiaeth a rheoli newid; diwylliant sefydliadol; fy rheolwr; fy ngwaith; fy nhîm; cynhwysiant a thriniaeth deg; dysgu a datblygu; adnoddau a llwyth gwaith; cyflog a buddion; a chymryd camau gweithredu.

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| **15** | Taliadau i gyflenwyr | Cyfran y cyflenwyr a dalwyd o fewn deg diwrnod gwaith i dderbyn anfoneb. | O leiaf 90% | 82% |
| **16** | Arbedion cost ac arbedion effeithlonrwydd | Gwerth yr arbedion cost a'r effeithlonrwydd a nodwyd ym mhob rhan o'r busnes. | £574,000 | £681,000 |
| **17** | Effeithlonrwydd yr ystâd | Costau, gan gynnwys rhent ac ardrethi fesul aelod staff cyfwerth ag amser cyflawn. | Llai na £3,300 | £3,368 |
| **18** | Darpariaeth Gymraeg | Nifer y cwynion a dderbyniwyd ac a gadarnhawyd ynghylch ein darpariaeth Gymraeg. | 0 | 0 |
| **19** | Rheoli amgylcheddol | Lefel achrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Groundwork Cymru. | 5 | 5 |
| **20** | Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Cyfanswm yr allyriadau cyfwerth â $CO_2$[3] | Llai na 450 tunnell | 345 tunnell |

- Cyflawni ein targed, neu'n agos at wneud hynny
- Angen gwelliant
- Angen gwelliant sylweddol

3 O ffynonellau rydym yn berchen arnynt neu'n eu rheoli, o'r defnydd o drydan a brynwyd, neu a gynhyrchir yn anuniongyrchol o ganlyniad i'n gweithgareddau.

# Dadansoddi perfformiad

15 Yn ystod 2019-20, roedd ein swyddogaethau yn cael eu harfer yn gyson â’r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer y flwyddyn, heb unrhyw newidiadau sylweddol i waith a gynlluniwyd. Mae **Atodiad 1** yr Adroddiad hwn yn rhoi mwy o fanylion am y rhaglen o waith archwilio a gyflawnwyd yn 2019-20 ac yn cynnwys adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ddatgelu gwybodaeth.

16 Mae **Atodiad 2** yr Adroddiad hwn yn rhoi sylwadau pellach ar y cynnydd a wnaed gennym tuag at gyflawni’r ymrwymiadau newid a nodwyd yn y Cynllun ar gyfer 2019-20.

17 Yng ngweddill yr adran hon, rydym yn darparu enghreifftiau astudiaeth achos o’r gwaith a gyflawnwyd gennym yn ystod 2019-20 ac effaith y gwaith hwnnw. Mae ein henghreifftiau astudiaeth achos wedi’u grwpio gyda’i gilydd yn ôl eu haliniad â’n huchelgeisiau cyffredinol.

18 Rydym hefyd yn darparu rhai sylwadau lefel uchel ar sut fe wnaethom reoli ein defnydd o adnoddau yn 2019-20, sy’n gwasanaethu fel ein Hadroddiad Cynaliadwyedd.

19 Mae ansawdd ein gwaith o’r pwys mwyaf i ni a’n rhanddeiliaid. Mae’r Cod Ymarfer Archwilio, a adolygir yn flynyddol, yn rhagnodi’r ffordd y dylid cyflawni swyddogaethau archwilio a rhai o swyddogaethau penodol eraill yr Archwilydd Cyffredinol, ac fe’i dyluniwyd i ategu’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio ac ymgorffori arfer proffesiynol gorau.

20 Mae ein Datganiad Tryloywder yn darparu mwy o fanylder ynghylch sut mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni safonau uchel o ran y ffordd y mae’n gweithio ac yn ansawdd ei gwaith. Fel y nodir yn y Datganiad, rydym yn cyflawni rhaglenni blynyddol o adolygiadau ansawdd ar sampl o archwiliadau o gyfrifon a phrosiectau archwilio perfformiad a gwblhawyd i sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau ansawdd gofynnol. Eleni, dangosodd ein gwaith monitro ansawdd fod 100% o’r archwiliadau o gyfrifon yn 2018-19 a samplwyd a 100% o’r prosiectau archwilio perfformiad a adolygwyd yn 2019 wedi cyflawni’r safonau ansawdd gofynnol.

21 Ar gyfer 2020-21, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn y broses o sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio ffurfiol. Bydd y Pwyllgor yn benodol gyfrifol am roi sicrwydd i'r Archwilydd Cyffredinol bod adnoddau priodol ar waith i gefnogi rheolaeth, monitro a gwella ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru. Bydd aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys Aelod Proffesiynol Annibynnol; yr aelod cyntaf o'r fath fydd Prif Swyddog Gweithredol Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon.

## Adborth gan randdeiliaid

22 Ar hyn o bryd, rydym yn casglu adborth allanol bob dwy flynedd drwy gyfweliadau strwythuredig rhwng Cyfarwyddwyr Ymgysylltu ym maes archwilio a Phrif Swyddogion cyrff a archwilir. Cynhaliwyd yr arolwg diweddaraf ar ddiwedd 2019.

23 The survey comprises statements which invite a 'strongly agree' to 'strongly disagree' response alongside any supporting commentary the stakeholder wishes to provide. The survey is designed to gather insight on how our work and its impact is perceived and helps us identify where improvements can be made to better deliver our ambitions.

24 We received a total of 33 responses to the survey in 2019. Overall, the results suggest that the majority of audited bodies hold a positive picture of our work and its impact.

25 Roedd llawer o'r sylwadau ategol a gafwyd:

a yn amlygu parch gan y naill at y llall a chysylltiadau gwaith proffesiynol cadarnhaol rhwng archwilwyr a chyrff a archwilir;


b yn cymeradwyo cynnwys seiliedig ar dystiolaeth a chydbwysedd ein hadroddiadau, ein hadnoddau data a'n cynhyrchion arfer da; ac

c yn croesawu ein safbwynt annibynnol o ran craffu a herio.

26 Fodd bynnag, gwnaed amrywiaeth o argymhellion ar gyfer gwella drwy'r cyfweliadau hefyd, gyda llawer ohonynt yn cyd-fynd â'n huchelgeisiau a'n hamcanion strategol cyffredinol, ac yn cydymffurfio â nhw, ac mae'r dadansoddiad o'n hamgylchedd gweithredu wedi'i grynhoi yn ein Cynllun Blynyddol diweddaraf. Bydd yr adborth a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio i lywio ein gwaith gwella a'n prosiectau rhaglen newid gydol 2020-21.

27 Yn ogystal, fel yr amlinellir yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2020-21, yn ystod y flwyddyn nesaf rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ystod fwy amrywiol o fecanweithiau ar gyfer casglu barn rhanddeiliaid ar werth ac effaith ein gwaith, gan ganolbwyntio i gychwyn ar gael barn Aelodau'r Senedd.

## Canlyniadau'r arolwg rhanddeiliaid



# Enghreifftiau astudiaeth achos o'n gwaith

## Manteisio i'r eithaf ar ein harbenigedd, dealltwriaeth graff a safbwynt unigryw

### Astudiaeth achos 1: Cefnogi llesiant pobl ifanc

28 Roedd yr astudiaeth hon yn cynnwys edrych drwy lens un adran benodol o'r boblogaeth - pobl ifanc 16 i 24 oed - ar ba mor dda mae Llywodraeth Cymru yn alinio gwahanol feysydd polisi i gefnogi llesiant[4]. Gan fod llesiant yn gysyniad eang, fe wnaethom ganolbwyntio ein gwaith mewn pum maes: digartrefedd ymhlith pobl ifanc; oedolion ifanc sy'n ofalwyr; rhieni ifanc; iechyd meddwl; a sgiliau a chyflogadwyedd.

29 Yn ein hadroddiad cryno, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2019, fe wnaethom gyfeirio at dri maes eang lle teimlwn fod cyfleoedd i wella:

**Bod yn chwilfrydig**

Dysgu mwy am yr hyn sy'n bwysig i bobl ifanc ac am eu profiadau, pa gymorth sydd ar gael a faint o wahaniaeth y mae'n ei wneud.

**Bod yn bwrpasol**

Cyfleu pwrpas clir ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus sy'n ysbrydoli ac yn grymuso pobl i gydweithio i wella llesiant pobl ifanc.

**Bod yn ddewr**

Annog agwedd arbrofol, cymryd risgiau wedi'u rheoli'n dda a dathlu llwyddiant.

4 Cyflawnwyd ein gwaith fel un llinyn o fenter adolygu allanol 'ieuenctid' ehangach gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Iechyd Cymru ac Estyn.

30 Fe wnaethom hefyd gyhoeddi adroddiadau manylach ar gyfer pob un o'r pum maes ffocws, ochr yn ochr ag offeryn data rhyngweithiol sy'n dangos pa mor dda mae pobl ifanc yn gwneud mewn gwahanol rannau o'u bywydau. Mae'r offeryn yn cynnwys cymariaethau ledled Cymru, yn ôl rhyw ac yn ôl grŵp oedran lle bo hynny'n bosibl.

31 Aethpwyd ati i rannu gwybodaeth gyda swyddogion allweddol, ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill yn rheolaidd gydol yr astudiaeth, gan arwain at ddatblygu rhwydweithiau proffesiynol cryf ar gyfer rhannu syniadau a chydweithredu yn y dyfodol.

## Astudiaeth achos 2: Adolygu'r defnydd o ganolfannau ailgylchu gwastraff cartref

32 ychwanegol i'r cyhoedd ailgylchu gwastraff, a gallant gynyddu cyfraddau ailgylchu yn sylweddol am fuddsoddiad cymharol isel. Gall mynediad rhwydd i safleoedd a staff effeithlon a chroesawgar helpu i gynyddu prosesau gwahanu gwastraff priodol a pharodrwydd y gymuned i ddefnyddio'r cyfleusterau.

33 Yng Nghyngor Sir y Fflint, fe wnaethom ni gynnal arolwg ar-lein i gael mwy o wybodaeth am farn y cyhoedd ar ddefnyddio'r HRCs. Dros gyfnod o bum niwrnod (gan gynnwys penwythnos gŵyl banc), fe wnaethom hefyd ymweld â phob un o'r safleoedd a siarad yn uniongyrchol â detholiad o ddefnyddwyr gwasanaethau. Casglwyd barn bron i 900 o unigolion.

34 Yn ôl y bobl y fe wnaethom eu harolygu, yr eitem fwyaf poblogaidd a ddygwyd i HRCs yn y ddwy flynedd ddiwethaf oedd gwastraff cyffredinol. Roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr i'r arolwg o'r farn nad oedd y casgliadau gwastraff cartref gan y Cyngor yn diwallu eu holl anghenion ailgylchu a gwastraff gweddilliol, ac roeddent yn teimlo bod rhaid iddynt ddefnyddio'r HRCs i waredu'r deunydd ychwanegol hwn.

35 Polisi'r Cyngor yw y bydd yr holl fagiau o wastraff cyffredinol na ellir ei ailgylchu a ddaw i'r HRCs yn cael eu hagor i'w harchwilio er mwyn cael gwared ar eitemau ailgylchadwy. Fodd bynnag, yn ystod ein hymweliadau safle, er i ni weld pobl yn cael eu holi gan staff am gynnwys eu bagiau o wastraff, ychydig iawn o archwiliadau ffisegol a welsom. Dywedodd sawl un o'r ymatebwyr i'r arolwg wrthym nad oeddent yn dymuno ailgylchu a'u bod yn gwybod nad oedd eu bagiau o wastraff yn debygol o gael eu harchwilio'n ffisegol.

36 Nid oes modd dweud faint o ddeunydd ailgylchadwy sydd wedi'i gynnwys yn y gwastraff cyffredinol hwn, ond byddai nifer y sgipiau a welsom yn cael eu llenwi â bagiau du dros bum niwrnod ym mhob un o'r safleoedd HRC yn awgrymu y gallai fod yn sylweddol. O ganlyniad, yn ein hadroddiad dilynol i'r Cyngor, yr argymhelliad allweddol a wnaethom oedd y byddai'n debyg o fod yn fuddiol cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o sut i ailgylchu'n fwy effeithiol.

## Astudiaeth achos 3: Eirioli llywodraethu a rheolaeth ariannol da mewn cynghorau tref a chymuned

37 Mae cynghorau tref a chymuned yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd eu cymunedau. Mae cynghorau bellach yn rheoli mwy o arian cyhoeddus ac yn darparu ystod ehangach o wasanaethau nag erioed o'r blaen. Er mwyn gwneud hynny'n effeithiol, rhaid iddynt fod â threfniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol da ar waith.

38 Ym mis Chwefror 2020, cyhoeddwyd ein hwythfed adroddiad blynyddol, gan grynhoi materion a nodwyd yn ystod ein harchwiliadau blynyddol statudol o gynghorau cymuned. Yn yr adroddiad, rydym yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed gan y rhan fwyaf o gynghorau o ran gwella eu trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol.

39 Fodd bynnag, rydym yn pwysleisio hefyd fod cryn bellter i fynd cyn y bydd pob cyngor yn bodloni'r safonau gofynnol ac yn cynnwys enghreifftiau o fethiannau sylweddol mewn rhai cynghorau.

40 Mae'n bwysig bod pob cyngor yn dysgu o'r camgymeriadau hyn, sy'n cynnwys:

- a gwneud penderfyniadau gwael, gan arwain at golledion sylweddol;
- b methiannau gan gynghorau o ran rheoli eu clercod yn briodol;
- c diffyg cofnodion cyflogres a methiannau i weinyddu trefniadau trethu'r cynllun TWE yn briodol;
- ch trefniadau archwilio mewnol aneffeithiol, neu ddim trefniadau o'r fath yn bodoli; a
- d methiannau gan glercod o ran cynnal cofnodion cyfrifyddu cyflawn, paratoi cyfrifon blynyddol a thrafodion gyda'r archwilydd allanol.

41 Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, byddwn yn newid ein trefniadau ar gyfer archwiliadau cynghorau tref a chymuned o gyfrifon 2020-21 ymlaen. Dyluniwyd y trefniadau newydd i helpu i nodi problemau posibl mewn cynghorau unigol yn gynharach ac i atal problemau rhag gwaethygu. Fel rhan o'r trefniadau hyn, rydym yn gobeithio gallu rhannu'r data a gesglir drwy offeryn rhyngweithiol er mwyn helpu i ganolbwyntio gwaith craffu ac unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol.

42 Fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i'r sector, rydym yn ystyried hefyd y ffordd orau o gefnogi gwelliannau drwy ein gwaith arfer da, trwy ymgysylltu â'r sector mewn cynadleddau a chyfarfodydd rhanbarthol a thrwy ddatblygu rhaglen o farn ar faterion perthnasol.

## Cryfhau ein statws fel llais awdurdodol ac annibynnol yr ymddiriedir ynddo

### Astudiaeth achos 4: Llywio myfyrdodau ehangach ar effaith datganoli

43 Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar dueddiadau gwario yng Nghymru i gyd-fynd ag 20 mlynedd ers datganoli ym mis Hydref 2019. Fe wnaethom gyflawni'r gwaith hwn er mwyn llywio'r gwaith o graffu ar gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru a hwyluso mwy o fyfyrio ar effaith llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru.

44 Gan ddefnyddio ystadegau cenedlaethol presennol ar wariant cyhoeddus ar gyfer y cyfnod rhwng 1999-00 a 2017-18, cynhyrchwyd offeryn data mynediad agored ac adroddiad sylwebaeth yn edrych ar sut mae tueddiadau mewn gwariant ar feysydd megis iechyd, addysg a'r amgylchedd wedi amrywio dros amser. Buom yn archwilio hefyd sut roedd y tueddiadau yng Nghymru yn dilyn patrymau mewn rhannau eraill o'r DU, neu'n gwyro oddi wrthynt.

45 Drwy ein dadansoddiad, nodwyd rhai patrymau diddorol mewn gwariant, gyda rhai ohonynt yn peri syndod. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, cawsom adborth cadarnhaol ar bwysigrwydd ein dadansoddiad, gan gynnwys sylwadau gan Aelodau o'r Senedd a ddywedodd wrthym y byddai'n eu helpu i graffu ar Lywodraeth Cymru a'i dwyn i gyfrif.



## Astudiaeth achos 5: Mapio trefniadau gwrth-dwyll ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru

46 Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddwyd papur yn disgrifio'r dirwedd gwrth-dwyll ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi, y GIG yng Nghymru a'r 22 awdurdod lleol unedol.

47 Roedd yr adroddiad yn sail i gonfensiwn ar atal twyll a drefnwyd gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd. Yn dilyn hynny, gwnaeth y Pwyllgor argymhellion i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chapasiti ac arweinyddiaeth ar gyfer atal twyll y mae Llywodraeth Cymru wedi'u derbyn ac wrthi'n ystyried y ffordd orau o'u rhoi ar waith.

48 Rydym bellach wedi mynd ati i baratoi adroddiad gwrth-dwyll dilynol ar ôl cwblhau gwaith maes yn ddiweddar ar oddeutu 40 o gyrff sector cyhoeddus ledled Cymru. Mae themâu clir yn codi o'n gwaith, a byddwn yn cyfleu negeseuon pwysig i arweinwyr y sector cyhoeddus er mwyn helpu i ddatblygu trefniadau atal a chanfod twyll sy'n addas i'r dyfodol.



## Dod yn fwy amlwg, dylanwadol a pherthnasol

### Astudiaeth achos 6: Archwilio effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol

49 Ym mis Mehefin 2019, cyflwynwyd canfyddiadau ein hadolygiad o effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng nghynhadledd flynyddol Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Cymru.

50 Mae'r system gynllunio yn rheoli'r defnydd o dir a'r hyn sydd wedi'i adeiladu arno, ac fe'i gorfodir gan awdurdodau cynllunio sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid caniatáu i ddatblygiad arfaethedig fynd yn ei flaen drwy roi neu wrthod caniatâd cynllunio.

51 Yn ein hadroddiad, a ategir gan offeryn data cysylltiedig, rydym yn dod i'r casgliad er bod gwasanaethau cynllunio yn allweddol i helpu i gyflawni dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, o ganlyniad i gymhlethdod y system gynllunio, lleihau capasiti a gwneud penderfyniadau amrywiol, mae gan awdurdodau gryn dipyn o ffordd i fynd i wneud y newid sylweddol sydd ei angen.

52 Mewn ymateb i'n hargymhellion ar gyfer gwella, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r ffioedd ar gyfer ceisiadau cynllunio ac mae'n adolygu'r gwasanaethau presennol er mwyn sicrhau eu bod yn ariannu eu hunain. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus hefyd wedi cwblhau ymchwiliad ar gynllunio, a bydd yn cyhoeddi ei adroddiad gydag argymhellion pellach ar gyfer gwella yn ystod haf 2020.



## Astudiaeth achos 7: Defnyddio dadansoddeg data i roi sylwebaeth amser real ar gyfrifon y GIG

53 Ym mis Mehefin 2019, adroddwyd gennym fod pedwar o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru wedi methu â chyflawni eu dyletswydd ariannol i fantoli eu cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd, yn ôl eu cyfrifon 2018-19. Roeddent hefyd wedi methu â chyflawni eu dyletswydd gyfreithiol i fod â chynllun ariannol tair blynedd cymeradwy ac, o ganlyniad, roedd rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol amodi ei farn archwilio ar gyfrifon pob un o'r pedwar corff.

54 Fel rhan o'r gwaith archwilio ar gyllid y GIG, datblygwyd offeryn i dynnu data yn awtomatig o'r ffurflenni monitro y mae cyrff iechyd yn eu cwblhau bob mis, gan roi'r ffigurau diweddaraf i archwilwyr yn effeithlon fel sail i'w sylwebaeth.

55 Er mwyn helpu aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r cyhoedd i barhau i graffu ar gyllid y GIG, rydym wedi sicrhau hefyd bod yr offeryn data rhyngweithiol ar gael ar ein gwefan i helpu defnyddwyr i archwilio tueddiadau a phatrymau lleol a datblygu syniadau newydd. Bydd y fersiwn o'r offeryn ar ein gwefan yn parhau i gael ei ddiweddaru a'i ailgyhoeddi ddwywaith y flwyddyn.

## Dangos esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

## Astudiaeth achos 8: Buddsoddi yn ein hyfforddeion graddedig a'n prentisiaid

56 Mae ein cynllun hyfforddeion graddedig yn mynd o nerth i nerth. Mae'r cynllun pedair blynedd yn rhoi cyfle i raddedigion ennill cymhwyster cyfrifyddu proffesiynol wrth weithio i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau eraill sy'n gysylltiedig â chyllid. Yn 2019, fe wnaethom recriwtio ein carfan fwyaf erioed o hyfforddeion – 18 i gyd, gan ddod â chyfanswm nifer yr hyfforddeion a gyflogir i 49. Mae 13 o hyfforddeion pellach ar fin ymuno â ni yn ystod hydref 2020.

57 Fe wnaethom hefyd barhau i ehangu ein rhaglen brentisiaeth, gan recriwtio tri phrentis archwilio ariannol a dau brentis gweinyddu busnes ychwanegol yn 2019-20, sy'n gwneud cyfanswm o 11 prentis bellach. Rydym yn bwriadu lansio prentisiaeth cyllid sector cyhoeddus ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru yn 2021, a fydd yn ein galluogi i gynnig cyfleoedd i ystod ehangach a mwy amrywiol o unigolion.

58 Rydym yn sefydliad hyfforddi achrededig ar gyfer tri o'r pedwar corff cyfrifyddu proffesiynol. Mae'r rhan fwyaf o'm hyfforddeion yn astudio tuag at gymhwyster cyfrifyddu gyda Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) ac, yn ystod y flwyddyn, aeth 41 o hyfforddeion ymlaen i'r cam nesaf yn eu hastudiaethau. Mae'r rhai sy'n astudio ar gyfer eu harholiadau lefel Proffesiynol ac Uwch yn pasio arholiad y tro cyntaf 87% o'r amser.

59 Mae hyfforddeion yn cael cyfle hefyd i ymgymryd â secondiad chwe mis mewn rhan arall o'r sector cyhoeddus yng Nghymru fel rhan o'r Fenter Sgiliau a Datblygu Cyllid[5]. Yn 2019-20, cwblhaodd naw o'n hyfforddeion leoliadau mewn cyrff yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Felindre, Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Heddlu Gwent a sawl awdurdod lleol.

60 Wrth recriwtio graddedigion a phrentisiaid, rydym yn awr, yn fwy nag erioed, yn chwilio am y sgiliau sy'n sicrhau ein bod yn dal ar flaen y gad o ran archwilio cyhoeddus arloesol lle rydym yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg wrth ymgymryd â'n gwaith. Eleni, cafodd tri hyfforddai eu secondio i'n Tîm Digidol – y tîm a oedd yn gyfrifol am wella ein defnydd o ddata a thechnoleg.

61 Bu'r hyfforddeion, a ddewiswyd am eu sgiliau digidol a'u hymwybyddiaeth o dechnolegau newydd, yn gweithio ar ddatblygu amrywiaeth o brosiectau. Roedd y rhain yn cynnwys offer a systemau newydd sy'n helpu staff i weithio o gartref, yn galluogi trawsgrifio cyfarfodydd a nodiadau cyfweliadau yn awtomatig ac yn gwella mynediad o bell at systemau ariannol ein cyrff archwiliedig. Roedd mewnbwn yr hyfforddeion mor drawiadol fel ein bod bellach yn edrych ar ffyrdd o gynyddu cyfranogiad hyfforddeion a phrentisiaid ymhellach yn ein gwaith digidol.

5 O dan y fenter, sy'n ceisio hyrwyddo gwerth a phwysigrwydd gyrfa ym maes cyllid cyhoeddus, mae sefydliadau partner yn cynnig cyfleoedd secondiad i hyfforddeion cyllid i dreulio cyfnodau o amser mewn cyrff eraill a ariennir yn gyhoeddus.

## Astudiaeth achos 9: Ailffocysu ein darpariaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu

62 Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn dysgu a datblygu i gynorthwyo ein staff i gyflawni eu gwaith. Yn 2019-20, treuliodd pob cyflogai oddeutu 12 diwrnod ar gyfartaledd ar amrywiaeth o weithgareddau dysgu a datblygu. Cafodd rhywfaint o'r hyfforddiant ei ddylunio a'i ddarparu'n fewnol ond, lle y bo'n briodol ac yn gost-effeithiol, fe wnaethom gomisiynu cymorth allanol hefyd i ddarparu hyfforddiant yn unol â'n gofynion penodol.

63 Fodd bynnag, mae canlyniadau ein harolwg staff yn dangos bod angen i ni wneud mwy i sicrhau bod ein darpariaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu yn diwallu anghenion unigolion, timau a busnesau.

64 Yn 2019-20, fel rhan o'n Strategaeth Pobl gyffredinol, aethom ati i gynnal arolwg mwy penodol o ddysgwyr er mwyn archwilio'n fanylach yr hyn a deimlai'r staff fyddai'n rhaglen well ar gyfer dysgu a datblygu. Yr ymateb ysgubol oedd bod staff am gael ystod ehangach o gyfleoedd a mecanweithiau dysgu y gellid eu haddasu'n well i anghenion yr unigolyn.

65 Mewn ymateb, mae mentrau eraill yn cynnwys:

- a sefydlu rhaglen sgiliau craidd sy'n cwmpasu ystod eang o feysydd pwnc megis 'cyflwyno gydag effaith', 'gwydnwch personol' a 'chelfyddyd sgwrs', ac atgyfnerthu'r neges o gyfrifoldeb personol a hunan-welliant;
- b dechrau hyfforddiant sgiliau hyfforddi ar gyfer yr holl staff fel rhan o ymgyrch i adeiladu diwylliant hyfforddi – mae adborth cynnar yn awgrymu bod yr hyfforddiant hwn yn grymuso staff i gael sgyrsiau mwy effeithiol â chydweithwyr ar bob lefel;
- c ymestyn ein cynllun adborth 360 gradd i gynnwys pob rheolwr er mwyn sicrhau mwy o hunanymwybyddiaeth ac anghenion datblygu mwy penodol; a
- ch lansio rhaglen fentora i roi cyfle i staff gael eu mentora gan gydweithwyr mwy profiadol, ochr yn ochr â chyfleoedd mentora o chwith lle gall staff mewn rolau uwch barhau i fod â chysylltiad gwell â gofynion rolau iau o ddydd i ddydd.

66 Bydd parhau i ddatblygu'r mentrau hyn ac ailffocysu ein darpariaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu yn elfen bwysig o waith ein Strategaeth Pobl yn 2020-21.

# Ein defnydd o adnoddau

67 Rydym wedi bod yn gweithio’n galed ers sawl blwyddyn i ymgorffori’r egwyddor datblygu cynaliadwy[6] yn y ffordd rydym yn rhedeg ein busnes, ac yn y ffordd rydym yn neilltuo adnoddau ar gyfer ein gwaith archwilio. Yn yr adran hon, rydym yn darparu sylwebaeth lefel uchel ar sut rydym wedi rheoli ein defnydd o adnoddau yn 2019-20.

68 Er nad yw’r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru wedi’u rhestru fel cyrff cyhoeddus at ddibenion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym, serch hynny, yn ceisio cyfrannu cymaint â phosibl at gyrraedd y saith nod llesiant yng Nghymru:

- a Cymru lewyrchus
- b Cymru gydnerth
- c Cymru iachach
- ch Cymru sy’n fwy cyfartal
- d Cymru o gymunedau cydlynus
- dd Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu
- f Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

69 Yn ogystal, rydym wedi dangos yn yr adran hon (trwy ddefnyddio eiconau perthnasol) yr achosion hynny lle cyfrannodd ein perfformiad yn 2019-20 at un neu fwy o 17 Nod Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig[7].

Archwilio Cymru
Audit Wales

SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS


6 Fe’i diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 fel gweithredu mewn modd ‘sy’n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau’.

7 Ochr yn ochr ag adroddiadau Trysorlys EM, Public sector annual reports: sustainability reporting guidance 2019-20.

## Gwaith rheoli ariannol ac arbedion effeithlonrwydd

70 Ers 2013-14, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi lleihau ei gwariant 11% mewn termau real[8], fel y dangosir isod. Mae arbedion cronnus a gynhyrchwyd dros y blynyddoedd hynny yn dod i gyfanswm o £13.2 miliwn, gan leihau'r gofynion ar Gronfa Gyfunol Cymru, ac eithrio ar gyfer cyfrifoldebau newydd, a'r swm y mae'n ofynnol ei godi o ffioedd a godir ar gyrff archwiliedig.

**Tuedd gwariant**




71 Yn 2019-20, roedd ein cyfanswm gwariant gros £107,000 (0.5%) yn is na'r Amcangyfrif cymeradwy ar gyfer y flwyddyn.

72 Roedd modd i ni ddefnyddio arbedion ar gostau staffio a chostau eraill yn ystod y flwyddyn i ariannu cynllun ymadael gwirfoddol fel rhan o'n gwaith parhaus i gynllunio'r gweithlu. Bydd hyn yn sicrhau arbedion blynyddol o £322,000 yn y dyfodol, gan effeithio'n gadarnhaol ar ein cynllun ariannol tymor canolig.

8 Yn seiliedig ar ddatchwyddyddion Cynnyrch Domestig Gros a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Mawrth 2020.

73 Mae'r arbedion cyffredinol a nodwyd ar gyfer 2019-20 yn dod i gyfanswm o oddeutu £681,000, sy'n cynnwys arbedion o gynlluniau ymadael gwirfoddol blaenorol ac arbedion a nodwyd drwy brosiectau trawsnewid ac adolygu ein dulliau archwilio.

74 Rydym wedi datblygu fframwaith gwerth am arian a nodwyd yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2020-21, gan nodi'r meysydd lle rydym yn disgwyl sicrhau arbedion yn y dyfodol ar gyfer ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

75 Yn 2019-20, fe wnaethom fuddsoddi £188,000 o gyllid cyfalaf mewn pum maes, gyda rhywfaint ohono yn ein helpu i gyflawni arbedion effeithlonrwydd pellach yn y blynyddoedd sydd i ddod:

- £69,000 ar offer fideo-gynadledda ychwanegol gyda'r nod o leihau faint o deithio y mae angen i'n staff ei wneud, gan arbed amser ac arian;
- £63,000 ar liniaduron hybrid newydd sy'n galluogi ein staff i weithio'n fwy effeithlon a galluogi ein staff i gyd i weithio gartref yn effeithiol, sydd wedi bod yn hanfodol i fusnesau yn ystod y cyfyngiadau symud COVID-19;
- £15,000 ar ddatblygu ymhellach y defnydd o SharePoint ar gyfer ein gwaith archwilio perfformiad;
- £14,000 ar welliannau hanfodol i'n rhwydwaith TG, gan gynnwys gwell diogelwch rhwydwaith; a
- £27,000 ar gyfer gwaith atgyweirio hanfodol a gwelliannau eraill i'n swyddfeydd, gan gynnwys newidiadau i hwyluso ffyrdd newydd o weithio.

## Ymgysylltu â staff a phrofiad gweithwyr cyflogedig

76 Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau a mecanweithiau i roi gwybodaeth gorfforaethol i'n gweithwyr cyflogedig er mwyn eu hannog i ymwneud â pherfformiad y sefydliad ac i ymgynghori â gweithwyr cyflogedig fel bod modd ystyried eu safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau sy'n debygol o effeithio ar eu buddion.

77 Roedd y rhain yn cynnwys:

a postio blogiau rheolaidd gan aelodau o'r Bwrdd a'r Tîm Arwain Gweithredol, a sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a'r Tîm Arwain ar gael i'w gweld yn rhwydd ar ein mewnrwyd;

b annog staff i rannu gwybodaeth ac arfer da drwy rwydwaith cyfryngau cymdeithasol mewnol;

c penodi pedwar gweithiwr cyflogedig yn aelodau o'r Tîm Arwain Gweithredol, i fynychu cyfarfodydd mewn cylchdro;

ch trefnu cyfarfodydd 'fforwm partneriaeth' gyda chynrychiolwyr undebau llafur a chynnwys cynrychiolwyr o'r fath yn y broses o baratoi neu ddiwygio polisïau penodol a mentrau datblygu sefydliadol, lle bo hynny'n berthnasol; a

d chynnal 'anghynhadledd' ar gyfer yr holl staff a gafodd dderbyniad gwresog ym mis Tachwedd 2019.

78 Ym mis Hydref 2019, fe wnaethom gynnal arolwg arall o'r holl staff er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o brofiad gweithwyr cyflogedig a nodi'r meysydd y mae angen i ni eu gwella. Am y drydedd flwyddyn yn olynol, fe wnaethom ni ddefnyddio'r un holiadur arolwg craidd ag a ddefnyddir yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil (CSPS).

79 Ar y cyfan, roedd canlyniadau ein harolwg yn 2019 yn well na chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol. Roedd ymatebion yn fwy cadarnhaol ar gyfer sawl datganiad pwysig o brofiadau gweithwyr cyflogedig, gan gynnwys mewn perthynas â sicrhau bod uwch reolwyr yn ddigon gweladwy a bod gan y Bwrdd ac uwch reolwyr weledigaeth glir ar gyfer dyfodol y sefydliad.

80 Ar y cyfan, roedd ein canlyniadau yn 2019 yn dal i fod yn gryf o gymharu â chyfartaledd CSPS ac, mewn amryw o achosion, meincnod perfformiad uchel (chwartel uwch) CSPS. O gymharu â'r meincnodau hyn, mae ein staff yn fodlon ar y cyfan ar eu pecyn cyflog a buddion, yn teimlo ymlyniad cryf wrth y sefydliad ac yn teimlo bod ganddynt yr adnoddau i wneud eu swydd yn effeithiol. Cafodd yr agwedd gadarnhaol hon ei hadlewyrchu yn ein sgôr mynegai ymgysylltu gyffredinol gref, sef 69%.

81 Fodd bynnag, nid yw canlyniadau ein harolwg yn meincnodi mor gryf yn y meysydd canlynol, sy'n parhau i lywio ein blaenoriaethau cynllunio ar gyfer y dyfodol:

a arweinyddiaeth a rheoli newid;

b dysgu a datblygu; ac

c effeithiolrwydd adborth ar berfformiad.

82 Mae canlyniadau llawn yr arolwg ar gael ar ein gwefan. Byddwn yn ailadrodd yr arolwg ym mis Hydref 2020.

## Iechyd a llesiant

83 Rydym yn ymrwymedig i annog ein staff i fabwysiadu ffordd iach o fyw a tharo cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Rydym hefyd am i'n staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n llawn pan fyddant yn wynebu anawsterau, waeth pa un a oes effaith ar eu gallu i gyflawni eu rôl ai peidio.

84 Caiff ein polisi lles ei ategu gan ganllawiau er mwyn cefnogi ein hymrwymiadau a sicrhau bod unrhyw faterion o ran iechyd a lles staff yn cael eu nodi a'u rheoli mewn ffordd ragweithiol a sensitif. Rydym hefyd yn hybu ac yn cefnogi iechyd emosiynol a chorfforol staff, a'u lles, gan gynnwys trwy raglen flynyddol o ddigwyddiadau a thrwy gynnig gwasanaeth sgrinio iechyd.

85 Yn ogystal, mae rhaglen cymorth i weithwyr ar gael naill ai drwy wasanaeth ffôn 24 awr neu drwy gyfleuster ar-lein, sy'n rhoi cyngor proffesiynol a chymorth emosiynol i staff ar amrywiaeth o faterion.

86 Ar lefel sefydliadol, yn ein harolwg staff fe wnaethom gynnwys pedwar cwestiwn a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel rhan o'i rhaglen Mesur Lles y Genedl[9]. Rydym hefyd yn cyfrifo'r Mynegai Straen Dirprwyol[10] a'r Mynegai PERMA[11] gan ddefnyddio cwestiynau yn holiadur CSPS a ddangoswyd fel elfennau pwysig o lesiant. Ym mis Hydref 2019, roedd ymatebion gan ein staff yn nodweddiadol yn fwy cadarnhaol na rhai gweithwyr cyflogedig sefydliad 'perfformiad uchel' yn CSPS.

87 Un eithriad nodedig oedd cyfran y staff a oedd yn nodi lefelau uchel o bryder, sydd wedi cynyddu'n raddol dros y tair blynedd rydym wedi cynnal yr arolwg. Byddwn yn gwneud mwy o waith i archwilio'r rhesymau dros y cynnydd hwn yn ystod 2020-21.

9 Ar y cyfan: (i) Pa mor fodlon ydych chi ar eich bywyd y dyddiau hyn? (ii) I ba raddau ydych chi'n meddwl bod y pethau rydych yn eu gwneud yn eich bywyd yn werth chweil? (iii) Pa mor hapus oeddech chi'n teimlo ddoe? (iv) Pa mor bryderus oeddech chi'n teimlo ddoe?

10 Sy'n gyson ag offeryn rheoli straen yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

11 Sy'n mesur i ba raddau mae gweithwyr cyflogedig yn 'ffynnu' yn y gweithle; Mae'n seiliedig ar y pum dimensiwn: Emosiwn cadarnhaol, Ymgysylltu, Cydberthnasau, Ystyr a Llwyddiant. Mae mwy o wybodaeth yn Civil Service People Survey 2019 Technical Guide

88 Rydym hefyd yn monitro cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn fanwl ac mae gennym nifer o systemau ar waith i helpu staff i ddychwelyd i'r gwaith yn llwyddiannus. Ar gyfartaledd, collodd pob gweithiwr cyflogedig 5.8 diwrnod i absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn adrodd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 (o gymharu â 6.7 diwrnod yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac 8.0 diwrnod yn y sector cyhoeddus[12]).

3 GOOD HEALTH AND WELL-BEING

## Cydraddoldeb a hawliau dynol

89 Rydym yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb, gan gynnwys ein staff ein hunain a'r rhai rydym yn dod i gysylltiad â hwy fel rhan o'n gwaith, ac rydym yn llawn gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

90 Mae'n ofynnol i ni ddilyn y fframwaith diogelu rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i gydymffurfio â'r confensiynau a nodwyd yn Neddf Hawliau Dynol 1998.

91 Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb a'n hamcanion cysylltiedig. Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar gynnydd o ran cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb yn 2018-19 ar gael ar ein gwefan. Caiff ein hadroddiad ar gyfer 2019-20 ei gyhoeddi yn ystod haf 2020.

5 GENDER EQUALITY

10 REDUCED INEQUALITIES

12 Ffynhonnell: Iechyd a Llesiant yn y Gwaith (Crynodeb y sector cyhoeddus); CIPD, Mawrth 2020

## Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg

92 Rydym yn ymfalchïo mewn darparu gwasanaeth archwilio dwyieithog. Mae ein dogfennau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg a Saesneg, mae gennym wefan gwbl ddwyieithog a thrwy gydol 2019-20 fe wnaethom gyfathrebu â'r cyhoedd, cyrff a archwilir a'r cyfryngau yn y ddwy iaith. Rydym hefyd yn mynd ati'n frwd i annog staff i ddysgu Cymraeg a defnyddio'r iaith yn eu gwaith ac yn gymdeithasol.

93 Rydym yn ymrwymedig i weithredu a chynnal Safonau'r Gymraeg. Mae ein Nodiadau Cydymffurfiaeth ar ein gwefan, ynghyd â'n Hadroddiad Blynyddol ar y Gymraeg.

## Caffael adnodd archwilio ychwanegol

94 Yn 2019-20, fel rhan o ddull 'economi gymysg' o ddarparu adnoddau archwilio, cyflawnodd staff Swyddfa Archwilio Cymru tua 90% o raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol, wedi'i ategu gan 10% arall o adnoddau archwilio a gontractiwyd yn bennaf gan gwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat.

95 Rhedodd ein contract gyda'r cwmnïau hynny hyd at 31 Mawrth 2020, gan gwmpasu archwiliadau hyd at y rhai ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20.

96 Fel yr amlinellwyd yn fanylach yn Adroddiad Blynyddol y llynedd, ym mis Chwefror 2019, penderfynodd y Bwrdd beidio â gwahodd tendrau ar gyfer archwiliadau y tu hwnt i 2020; o ganlyniad, bydd holl archwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 yn cael eu cynnal gan staff Swyddfa Archwilio Cymru yn unig.

## Gwaith cymunedol ac elusennol

97 Rydym yn cydnabod y manteision y gall gwaith cymunedol ac elusennol gan staff eu dwyn i'r gymuned ehangach ac yn cymeradwyo ein staff am eu hymdrechion unigol. Gall staff ddefnyddio'r sgiliau a ddatblygwyd ganddynt yn y gweithle a gallant ddatblygu sgiliau newydd, gan wella eu morâl, eu hiechyd corfforol a'u cydbwysedd bywyd a gwaith ar yr un pryd.

98 Yn amodol ar ofynion gweithredol, rydym yn cefnogi cyflogeion sydd am gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol neu elusennol megis gwaith gofal yn y gymuned, prosiectau cadwraeth, a gweinyddu digwyddiadau cyhoeddus.

99 Dewisodd staff Swyddfa Archwilio Cymru Elusen Ambiwlans Awyr Cymru fel y ffocws newydd ar gyfer eu gweithgareddau codi arian o fis Tachwedd 2019, ar ôl cefnogi elusennau sy'n ymwneud â helpu pobl sy'n ddigartref neu sydd wedi cael eu dadfeddiannu yn y gorffennol.




100 Yn ystod y flwyddyn ac yn eu hamser eu hunain, cynhaliodd ein staff amryw o ddigwyddiadau codi arian a rhoi arian, gan gynnwys gwerthu cacennau a rafflau rheolaidd, a chystadleuaeth darogan sgoriau a chanlyniadau Pencampwriaeth y Chwe Gwlad.

## Stiwardiaeth amgylcheddol[13]

| | | | |
|---|---|---|---|
| Achredu ar **Lefel 5** o **Safon Amgylcheddol** y Ddraig Werdd | **Lleihau** ein **defnydd o bapur 28%** | **Ailgylchu** dros **70%** o'n **gwastraff** | Defnyddio credydau carbon i **wrthbwyso 100%** o'n **hallyriadau** nwyon tŷ gwydr |

101 Yn 2019-20, roeddem yn falch o gynnal ein hachrediad ar Lefel 5 (y lefel uchaf) o Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, gan ddangos ein hymrwymiad parhaus i reolaeth amgylcheddol effeithiol.

13 Paratowyd yn unol â chanllawiau Trysorlys EM, HM Treasury Public Sector Annual Reports Sustainability Reporting Guidance 2019-20.

102 Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, er mwyn cefnogi'r gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn fyd-eang, fe wnaethom wrthbwyso[14] ein holl allyriadau cyfwerth â charbon deuocsid (t$CO_2$e), gan gynnwys y rhai a ddeilliodd o'n teithiau busnes, drwy gefnogi'r prosiectau canlynol:

a Prosiect lleihau datgoedwigo Portel-Pará ym Mrasil (86 t$CO_2$e)

b Prosiect cynhyrchu ynni gwynt gan Panama Wind yn India (86 t$CO_2$e)

c Cynhyrchu peiriannau puro dŵr ceramig yn Cambodia (86 t$CO_2$e)

ch Plannu coed yn y DU (86 t$CO_2$e)

103 Rydym wedi ymrwymo hefyd i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled ag y bo hynny'n gyson â'n swyddogaethau. Ym mis Rhagfyr 2019, cyhoeddwyd ein hadroddiad cyntaf ar gydymffurfiaeth â Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a oedd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2019. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi chwe amcan penodol i'n helpu ni i gyflawni'r Ddyletswydd yn well yn y dyfodol.

104 Yn 2019-20, fe wnaethom barhau i fuddsoddi mewn Skype for Business - system sy'n galluogi ein staff i gydweithio a chyfathrebu â'i gilydd, a chyda chysylltiadau allanol, trwy alwadau ffôn, fideogynadledda, rhannu sgrîn a negeseua gwib, trwy eu gliniaduron a ble bynnag y maent yn gweithio. Mae hyn yn lleihau yn sylweddol yr angen i gydweithwyr a staff cleientiaid deithio i gyfarfod a chydweithio; yn 2019-20, cyflawnwyd gostyngiad o ychydig yn llai na 50,000 o filltiroedd yn y teithiau busnes mewn ceir.

105 Mae ein buddsoddiad mewn technoleg gweithio o bell wedi bod yn allweddol wrth sicrhau parhad busnes drwy alluogi ein staff i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol o'u cartrefi, ers i Lywodraeth y DU gyhoeddi mesurau cyfyngiadau symud ar 23 Mawrth 2020 mewn ymateb i'r pandemig COVID-19.

106 Mae'r rhan fwyaf o'n staff yn defnyddio gliniaduron sy'n cyfuno fformat maint llechi ag ymarferoldeb dyfais symudol, gan leihau'r angen i argraffu papurau cyfarfodydd a'u galluogi i wneud nodiadau ar y sgrin.

107 Rydym yn ymrwymedig i ddefnyddio deunydd papur wedi'i ailgylchu, a defnyddio'r Safonau Prynu fel canllaw ar gyfer glanhau, adeiladu a phrynu cyfarpar. Fe wnaethom hefyd fuddsoddi mewn peiriannau aml-swyddogaeth sydd â chynhyrchiant uchel, sy'n cynnig gwerth uchel am arian ac sy'n cael effaith isel ar yr amgylchedd ar gyfer ein swyddfeydd.

14 Ystyr gwrthbwyso carbon yw defnyddio credydau carbon i alluogi sefydliadau i wneud iawn am rai o'u hallyriadau. Gall sefydliadau wneud iawn am rai o'r allyriadau carbon trwy brynu credydau mewn prosiectau trwy ariannu arbediad cyfwerth mewn carbon deuocsid yn rhywle arall.


108 Yn ystod y flwyddyn, lansiwyd cynllun beicio i'r gwaith ar gyfer staff, gan ddarparu beiciau ar gyfer ein swyddfeydd a chysgodfa fawr i feiciau ar gyfer ein swyddfa yng Nghaerdydd, i helpu i leihau ein heffeithiau amgylcheddol ymhellach a gwella iechyd a llesiant ein staff.

109 Fe wnaethom hefyd wneud atgyweiriadau ataliol i'n swyddfa yng Nghaerdydd i wella ei pherfformiad cyffredinol, ac rydym yn parhau i gefnogi grŵp staff hyrwyddwyr amgylcheddol yn eu gwaith i hyrwyddo'r egwyddor cynaliadwyedd a chodi ymwybyddiaeth o fentrau amrywiol.


13 CLIMATE ACTION

15 LIFE ON LAND


**Defnyddio adnoddau y mae pen draw iddynt**




## Lleihau a rheoli gwastraff




## Allyriadau nwyon tŷ gwydr



**Defnyddio ynni**



**Tabl sy'n darparu gwybodaeth fanylach am ein rheolaeth amgylcheddol, defnydd o adnoddau y mae pen draw iddynt a'n gwaith i leihau a rheoli gwastraff dros y pum mlynedd ddiwethaf**

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli amgylcheddol** | | | | | |
| Lefel achrediad y Ddraig Werdd | 4 | 4 | 4 | 5 | 5 |
| **Defnyddio adnoddau y mae pen draw iddynt**[15] | | | | | |
| Y defnydd o ddŵr ($m^3$)[16] | 3,116 | 3,650 | 2,586 | 2,398 | 2,225 |
| Y defnydd o ddŵr ($m^3$) gan bob gweithiwr cyflogedig FTE | 10.5 | 13.9 | 10.0 | 9.1 | 8.3 |
| Costau cyflenwi dŵr £ | 6,280 | 6,219 | 3,564 | 4,389 | 4,890 |
| Defnydd o bapur mewn rimiau | 2,150 | 1,725 | 1,496 | 1,263 | 910 |
| Costau cyflenwi papur £ | 5,609 | 4,269 | 3,737 | 3,894 | 2,697 |
| **Lleihau a rheoli gwastraff**[17] | | | | | |
| Cyfanswm y tunelli o wastraff | 54.9 | 38.7 | 33.2 | 47.9 | 29.5 |
| Wedi'i ailddefnyddio, ailgylchu | 38.6 | 26.0 | 18.1 | 36.9 | 20.8 |
| Gwastraff TGCh a ailgylchwyd ac a ailddefnyddiwyd) | 2.6 | 0.7 | 0.2 | 0.5 | 0.3 |
| Dodrefn ac offer (allanol) | 12.3 | 2.6 | 0.0 | 3.8 | 5.4 |
| Ailgylchu cymysg, papur, gwastraff bwyd, gardd | 23.7 | 22.6 | 17.9 | 32.6 | 15.3 |
| Tirlenwi | 13.7 | 12.4 | 12.4 | 10.5 | 8.6 |
| Peryglus | 2.5 | 0.4 | 2.7 | 0.5 | 0.1 |
| Ailddefnyddio, ailgylchu, compostio fel % o gyfanswm y gwastraff[18] | 70.4 | 67.0 | 54.5 | 76.9 | 70.9 |
| Cyfanswm costau gwaredu £ | 16,400 | 13,466 | 9,964 | 13,340 | 10,896 |

15 Ystyrir mai arfer da ar gyfer defnyddio dŵr mewn swyddfa yw rhwng $4m^3$ a 6 $m^3$ am bob gweithiwr cyflogedig Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) y flwyddyn (Targedau Ymrwymiad Gwyrddu'r Llywodraeth). Fodd bynnag, nid ydym yn cynnwys ymwelwyr â swyddfeydd yn ein cyfrifiad, sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar ein ffigurau oherwydd nifer y digwyddiadau dysgu ar y cyd a gynhelir yn ein pencadlys yng Nghaerdydd.

16 Nid yw cyfnodau bilio yn cyd-fynd â'r cyfnod adrodd ariannol, felly amcangyfrif yw'r ffigyrau defnydd ar gyfer 2019-20. Roedd ein defnydd uwch o ddŵr yn 2016-17 i'w briodoli'n bennaf i bibell yn gollwng, sydd wedi cael ei thrwsio ers hynny.

17 Cyfrifwyd drwy ddefnyddio ffactorau trosi priodol WRAP; mae gwastraff peryglus yn cynnwys gwarediadau TGCh a glanhau seiffonau. Mae'r cynnydd mewn gwastraff yn 2018-19 i'w briodoli i newid dodrefn ac offer TG a oedd wedi cyrraedd diwedd eu hoes ddefnyddiol, a gwastraff gardd ar gyfer llawr caled newydd.

18 Wyth deg wyth y cant ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2018-19 (Adroddiad Cyflwr yr Ystâd 2018-19).

**Tabl sy'n darparu gwybodaeth fanylach am ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr ac effeithlonrwydd rheoli ystâd dros y pum mlynedd ddiwethaf**

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr**[19] | | | | | |
| Cyfanswm allyriadau $CO_2$e mewn tunelli | 533.0 | 483.7 | 419.0 | 397.5 | 344.6 |
| I'w priodoli i deithiau busnes | 272.3 | 233.2 | 242.1 | 229.0 | 221.7 |
| Mewn car | 232.7 | 199.5 | 215.7 | 188.7 | 178.3 |
| Ar drên ac awyren | 39.6 | 33.7 | 26.4 | 40.3 | 43.4 |
| I'w priodoli i ddefnyddio ynni | 233.8 | 227.8 | 160.7 | 116.1 | 112.0 |
| Trydan | 228.3 | 220.5 | 150.5 | 109.8 | 104.7 |
| Nwy | 5.5 | 7.3 | 10.2 | 6.3 | 7.3 |
| I'w priodol i ffynhonnell arall[20] | 23.6 | 22.6 | 16.1 | 52.4 | 10.8 |
| Cyfanswm gwariant ar deithiau busnes £000[21] | 1,258 | 1,232 | 1,204 | 1,205 | 1,148 |
| Cost teithiau busnes am bob cyflogai FTE £ | 4,972 | 4,720 | 4,658 | 4,566 | 4,291 |
| Cyfanswm gwariant ar ynni £ | 64,394 | 57,051 | 54,676 | 60,046 | 73,071 |
| **Effeithlonrwydd yr ystâd** | | | | | |
| Cost am bob gweithiwr cyflogedig FTE[22] £ | 3,228 | 3,072 | 3,317 | 3,378 | 3,368 |
| Cost-effeithlonrwydd[23] £ am bob $m^2$ | 300 | 287 | 306 | 318 | 321 |
| Effeithlonrwydd gofod $m^2$ [24] am bob gweithiwr cyflogedig FTE | 10.7 | 10.7 | 10.8 | 10.6 | 10.5 |

19 Cyfrifwyd yn unol â Chanllawiau Adrodd Amgylcheddol DEFRA

20 I'w priodoli i allyrru a dosbarthu ynni, gwaredu gwastraff a defnyddio a thrin dŵr.

21 Mae'n cynnwys costau ceir ar brydles, lwfansau trafnidiaeth a chostau teithio a chynhaliaeth.

22 O gymharu â £3,428 ar gyfer Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2019

23 Gan gynnwys rhent, ardrethi a chostau eraill.

24 O'i gymharu â 14.7 m2 fesul cyfwerth ag amser llawn ar gyfer Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2019. Rydym yn cynnwys contractwyr yn ein cyfanswm cyfwerth ag amser llawn, er mwyn sicrhau cymhariaeth feincnodi debyg am debyg.

# Adroddiad ar Atebolrwydd

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy'n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfiaeth â llywodraethu corfforaethol da.

**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu

17 Mehefin 2020

02

# Adroddiad ar lywodraethu corfforaethol

## Adroddiad y cyfarwyddwyr

### Ein Bwrdd



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol, a'r Prif Weithredwr



**Alison Gerrard**
Aelod anweithredol



**Amanda Hughes**
Aelod etholedig sy'n gyflogai



**Anne Beegan**
Aelod etholedig sy'n gyflogai



**Bill Richardson**
Aelod anweithredol



**David Francis**
Aelod anweithredol



**Isobel Everett**
Cadeirydd y Bwrdd



**Kevin Thomas**
Aelod wedi'i benodi sy'n gyflogai



**Lindsay Foyster**
Aelod anweithredol
Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol

# Ein Tîm Arwain Gweithredol



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol, Swyddog cyfrifo a Phrif Weithredwr



**Ann-Marie Harkin**
Cyfarwyddwr Archwilio



**Anthony Barrett**
Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol



**Clare James**
Aelod sy'n Weithiwr Cyflogedig



**Emma Woodcock**
Aelod sy'n Weithiwr Cyflogedig



**Harrie Clemens**
Aelod sy'n Weithiwr Cyflogedig



**Kevin Thomas**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol



**Matthew Edwards**
Aelod sy'n Weithiwr Cyflogedig



**Mike Usher**
Arweinydd y Sector, Iechyd a Llywodraeth Ganolog



**Steve O'Donoghue**
Cyfarwyddwr Cyllid ac AD

### Archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru

110 Penodwyd RSM UK Audit LLP yn archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru gan Bwyllgor Cyllid y Senedd ers 1 Mawrth 2015, yn fwyaf diweddar am gyfnod o 48 mis a ddechreuodd ar 1 Tachwedd 2018.

111 Yn ogystal â'i waith i lunio barn ar y datganiadau ariannol a rheoleidd-dra, gall yr archwilydd edrych ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wrth ddefnyddio adnoddau i gyflawni eu swyddogaethau, a gosod adroddiad ar ganlyniadau unrhyw waith o'r fath gerbron y Senedd.

112 Mae manylion am gost gwasanaethau archwilio allanol wedi'u cynnwys yn y Nodiadau i'r datganiadau ariannol.

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

113 O dan baragraff 33 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n rhaid iddo wneud y canlynol ar gyfer pob blwyddyn ariannol:

a cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â hwy; a

b pharatoi datganiad cyfrifon ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Senedd.

114 Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Swyddfa Archwilio Cymru, wedi'u nodi yn Safon Swyddogaethol y Llywodraeth: Cyllid a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

115 Caiff cyfrifoldebau ychwanegol eu disgrifio yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, a gyhoeddwyd gan y Senedd.

116 Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac, yn benodol:

a ddilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;

b llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;

c nodi a yw'r safonau cyfrifyddu priodol a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw achosion perthnasol o wyro oddi wrthynt yn y cyfrifon; a

ch pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

117 Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru a'i hincwm a'i gwariant, Datganiad o Sefyllfa Ariannol a llifoedd ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol.

118 Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn cadarnhau:

a bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn a'r barnau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;

b fy mod wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i'm gwneud fy hunan yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno; ac

c hyd y gwn i, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol ohoni.

## Datganiad llywodraethu

119 Mae'r datganiad hwn yn nodi strwythur rheoli Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn rhoi cyfrif o drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd yr ydym yn eu hwynebu.

120 Mae fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu wedi'u nodi yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu. Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn ac ymhlith gofynion eraill, mae'n rhaid i mi geisio sicrhau'r canlynol:

a bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith bob amser yn Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys proses archwilio mewnol drylwyr, er mwyn helpu i arfer swyddogaethau statudol yn briodol; a

b bod Swyddfa Archwilio Cymru yn taro'r cydbwysedd cywir trwy reoli cyfleoedd a risgiau mewn ffordd sy'n gymesur â busnes yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru

121 Wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu hwn, roeddem yng nghanol y mesurau cyfyngiadau symud a gyflwynwyd tua diwedd mis Mawrth 2019 mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Fel cyflogwr, rydym yn parhau i fonitro'n agos y sefyllfa sy'n symud yn gyflym ac yn gweithredu yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Mae ein blaenoriaethau uniongyrchol o ran rheoli risg a llywodraethu corfforaethol wedi eu newid yn sylfaenol wrth i ni ganolbwyntio ar lesiant ein gweithwyr cyflogedig, gan gynnal parhad busnes a chefnogi'r sector cyhoeddus a'r gymuned ehangach.

# Llywodraethu corfforaethol

## Y fframwaith llywodraethu

122 Mae fframwaith llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am gwmpas gwaith y Bwrdd a'i bwyllgorau, wedi'i grynhoi yn yr arddangosyn ar y dudalen nesaf.

123 Mae ein Bwrdd o naw aelod yn cynnwys mwyafrif o bum aelod anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd), yr Archwilydd Cyffredinol, aelod sy'n weithiwr cyflogedig a benodir yn ôl argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol a dau aelod etholedig sy'n weithwyr cyflogedig. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn ffurfiol o leiaf chwe gwaith y flwyddyn.

124 Ceir Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol sy'n gyfrifol am y canlynol, ymhlith pethau eraill: dirprwyo ar ran y Cadeirydd pan na all ef/hi weithredu; arfarnu perfformiad y Cadeirydd; cael datgeliadau gan y rhai sy'n chwythu'r chwiban y tu allan i'r gadwyn rheoli llinell arferol; a goruchwylio'r broses o ethol aelodau sy'n gyflogeion i'r Bwrdd.

125 Caiff y gydberthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol ei llywodraethu gan God Ymarfer a gymeradwyir gan y Senedd ac a adolygir o bryd i'w gilydd.

126 Mae'r Bwrdd wedi sefydlu dau bwyllgor sy'n cyflawni swyddogaeth gynghori:

- a mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynnwys dau aelod anweithredol o'r Bwrdd, aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n gyflogai ac aelod allanol annibynnol; ac
- b mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol yn cynnwys tri aelod anweithredol o'r Bwrdd ac aelod etholedig o'r Bwrdd sy'n weithiwr cyflogedig.

127 Nid yw'r aelodau etholedig o'r Bwrdd sy'n weithwyr cyflogedig yn aelodau o'r Tîm Arwain Gweithredol nac yn cyfrannu at unrhyw benderfyniadau a wneir ar lefel uwch, ac eithrio fel rhan o'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi'i argyhoeddi nad oes unrhyw wrthdaro buddion o ran aelodaeth Pwyllgorau a, lle ceir gwrthdaro, y caiff ei reoli a'i liniaru'n effeithiol.

128 Rwy'n cadeirio Tîm Arwain Gweithredol i gyfarwyddo, goruchwylio a monitro'r gwaith o weithredu'r uchelgeisiau a'r blaenoriaethau a nodir yn ein Cynllun Blynyddol. Mae'n cyfarfod o leiaf unwaith y mis ac yn cynnwys pum cyfarwyddwr a phedwar aelod sy'n weithwyr cyflogedig. Mae'r aelodau sy'n weithwyr cyflogedig yn mynychu cyfarfodydd mewn cylchdro[25].

129 Caiff y Bwrdd a'i Bwyllgorau a'r Tîm Arwain Gweithredol eu cynorthwyo gan Ysgrifennydd Bwrdd. Ceir blaenraglen fusnes sy'n llywio eu hagenda amodol, a luniwyd i sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

130 Ceir mwy o wybodaeth am aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Arwain Gweithredol yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

131 Ers cyflwyno mesurau cadw pellter cymdeithasol ym mis Mawrth 2020 a chau'r tair swyddfa dros dro, mae'r Bwrdd, ei Bwyllgorau a'r Tîm Arwain Gweithredol wedi parhau i weithredu'n effeithiol gan ddefnyddio technoleg fideogynadledda. Dim ond un cyfarfod o'r Tîm Arwain Gweithredol, a drefnwyd ar gyfer dechrau mis Ebrill, a ohiriwyd, a gohiriwyd y busnes i gyfarfod diweddarach.

25 Mae gan yr aelodau sy'n weithwyr cyflogedig drefniadau ar waith i rannu unrhyw wybodaeth a dealluswrydd perthnasol, gan eu galluogi i gyfrannu'n effeithiol at drafodaethau'r Tîm Arwain Gweithredol.

## Pwyllgor Cyllid y Senedd

Yn craffu ar ddefnydd adnoddau Swyddfa Archwilio Cymru, yn argymell penodiad yr Archwilydd Cyffredinol ac aelodau anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn gyfrifol am benodi archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru.

## Bwrdd swyddfa Archwilio Cymru

Yn monitro'r broses o arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.

Yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Yn cyflogi staff ac yn darparu adnoddau fel bod modd arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.

Yn codi tâl am waith sydd wedi'i wneud gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Yn cydweithio â'r Archwilydd Cyffredinol i amcangyfrif incwm a threuliau, y cynllun ffioedd, y cynllun blynyddol, adroddiad/adroddiadau interim ac adroddiad blynyddol.

## Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol

Yn cynghori'r Bwrdd trwy herio a chraffu ar dri maes cyffredinol o'r gwaith rheoli a datblygu adnoddau dynol:

a llywodraethu;

b perfformiad; a

c pholisi a thaliadau cydnabyddiaeth.

## Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Yn cynghori'r Bwrdd trwy:

a adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw ffynonellau sicrwydd corfforaethol;

b adolygu uniondeb yr adroddiad blynyddol a chyfrifon; a

c chyflwyno barn ar y cymorth sydd ar gael fel bod y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gallu cyflawni eu dyletswyddau perthnasol.

## Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol

Yn cyfarwyddo ac yn goruchwylio gweithrediad yr amcanion strategol a'r rhaglenni gwaith a ddisgrifir yng Nghynllun Blynyddol Archwilio Cymru

Yn gweithredu fel bwrdd rhaglen rheoli newid, gan osod cyfeiriad y rhaglen a darparu adnoddau ar gyfer ei gweithredu

### Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau 2019-20

Tabl yn dangos nifer y cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgor a gynhaliwyd yn 2019-20, a nifer y cyfarfodydd a fynychwyd gan aelodau'r Bwrdd a'i bwyllgorau, a chan aelodau'r Tîm Arwain Gweithredol (ELT)[26] nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd

| | Bwrdd | ARAC | RHRC | ELT | MC |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd** | **6** | **4** | **3** | **12** | **5** |
| Aelodau'r Bwrdd a'i bwyllgorau | | | | | |
| Adrian Crompton[27] | 6 | 4 | 3 | 11 | 5 |
| Alison Gerrard, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) | 6 | 4 | | | |
| Amanda Hughes | 6 | | 3 | | |
| Anne Beegan | 6 | 3 | | | |
| Bill Richardson, Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol (RHRC)[28] | 6 | 1 | 2 | | |
| David Francis | 6 | | 3 | | |
| Dianne Thomas, Aelod Annibynnol o ARAC[29] | 1 | 4 | | | |
| Isobel Everett | 6 | 3 | | | |
| Kevin Thomas[30] | 6 | 4 | | 10 | 5 |
| Lindsay Foyster | 6 | | 3 | | |

26 Ar ddechrau'r flwyddyn, fe gyhoeddais fy nghynigion i newid yr aelodaeth ac ailbennu'r ffocws o ran diben yr hen Bwyllgor Rheoli (MC). Cymerodd y Tîm Arwain Gweithredol (ELT) a oedd newydd ei sefydlu le'r Pwyllgor Rheoli, a chynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ar 10 Gorffennaf 2019.

27 Mynychodd Adrian Crompton gyfarfodydd ARAC a RHRC yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu.

28 Aeth Bill Richardson i un cyfarfod ARAC fel arsylwr yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd RHRC.

29 Aeth Dianne Thomas i un cyfarfod Bwrdd yn ei rôl fel Aelod Annibynnol o ARAC.

30 Aeth Kevin Thomas i gyfarfodydd ARAC yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

| | Bwrdd | ARAC | RHRC | ELT | MC |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd** | **6** | **4** | **3** | **12** | **5** |
| **Aelodau'r Tîm Arwain Gweithredol nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd[31]** | | | | | |
| Ann-Marie Harkin | 1 | | | 11 | |
| Anthony Barrett | 6 | | | 11 | 5 |
| Clare James | 1 | | | 3 | |
| Emma Woodcock | 1 | | | 6 | |
| Harrie Clemens | 1 | | | 3 | |
| Jane Holownia[32] | | | | | 4 |
| Matthew Edwards | | | | 4 | |
| Mike Usher | 2 | | | 11 | 5 |
| Steven O'Donoghue | 5 | 4 | 2 | 10 | 5 |

### Cyfrif o lywodraethu corfforaethol

132 Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod ei amcanion yn cael eu cyflawni drwy:

a adroddiadau rheoli mewnol, adroddiadau ar berfformiad a briffiau amserol;

b adroddiadau mewnol annibynnol, gan gynnwys adroddiadau archwilio mewnol ac adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol; ac

c adroddiadau archwilio allanol.

133 Mae lefel y sicrwydd a geisir ac a ddarperir yn gymesur â'r lefelau risg cysylltiedig a aseswyd.

134 Mae'r Bwrdd yn fodlon ag ansawdd yr wybodaeth y mae'n ei chael er bod rhywfaint o le i wella ei hehangder a'i hamseroldeb ac i sicrhau bod ffocws gwaith y Tîm Arwain Gweithredol a'r Bwrdd yn cyfateb yn well; mae gwaith ar y gweill i ymdrin â'r pwyntiau hyn.

31 Mae'n ofynnol i Steve O'Donoghue, fel y Cyfarwyddwr Cyllid ac AD, fynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd, ARAC a RHRC. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol, Anthony Barrett, wahoddiad sefydlog i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd. Gall y Bwrdd wahodd neu ei gwneud hi'n ofynnol i aelodau eraill ELT fynychu cyfarfodydd neu ran ohonynt fel y bo'n briodol.

32 Ymadawodd Jane Holownia â Swyddfa Archwilio Cymru o dan gytundeb ymadael yn wirfoddol ar 30 Mehefin 2019, ac ni phenodwyd unrhyw un yn ei lle.

135 Wrth gyflawni ein gwaith, mae Swyddfa Archwilio Cymru a minnau (fel yr Archwilydd Cyffredinol a'r Swyddog Cyfrifyddu) yn cymhwyso Cynlluniau Dirprwyo ffurfiol. Mae'r cynlluniau dirprwyo yn llywio cylch gorchwyl y Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Tîm Arwain Gweithredol, a adolygir yn flynyddol.

136 Mae'r Bwrdd yn gweithredu Cod Ymddygiad a ddefnyddir gan Ysgrifennydd y Bwrdd i gadw cofrestri o fuddion aelodau a adolygir bob blwyddyn ac sy'n cael eu diweddaru yn ystod y flwyddyn er mwyn nodi unrhyw newidiadau a hysbysir gan aelodau. Mae hyn yn sicrhau bod unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddion, gan gynnwys risgiau i annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol, yn cael eu nodi'n barhaus a bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd i'w lliniaru. Rydym yn cyhoeddi'r Cofrestri ar ein gwefan[33].

137 Mae gan Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a chadeiryddion ei phwyllgorau hawl mynediad, a gallant roi gwybod i Gadeirydd Pwyllgor Cyllid y Senedd am unrhyw faterion sy'n peri pryder.

138 Mae Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r Archwilydd Allanol yn dal if od â mynediad agored a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Hefyd, mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiwn breifat gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol cyn pob un o gyfarfodydd y pwyllgor.

139 Ar sail wirfoddol, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn asesu ei threfniadau yn erbyn gofynion y Cod Arfer Da ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol yn adrannau'r llywodraeth ganolog. Mae'r Bwrdd wedi'i argyhoeddi ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion hynny i'r graddau y maent yn berthnasol ac yn ymarferol o ystyried yr angen i warchod annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r trefniadau yn cydymffurfio â gofynion y Cod o ran yr agweddau canlynol:

a nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn adran weinidogol, ac nid yw'n adrodd wrth weinidogion na'u swyddogion nac yn cael cyfarwyddiadau ganddynt;

b mae rôl a chyfrifoldebau'r Bwrdd a'i aelodau wedi'u nodi mewn statud; ac

c nid yw'r Bwrdd wedi sefydlu pwyllgor penodiadau, ond caiff y swyddogaethau a ddisgrifir yn y Cod eu cyflawni gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol.

33 Gellir dod o hyd i gofrestri buddiannau ar gyfer aelodau unigol o'n Bwrdd a'n Tîm Arwain Gweithredol drwy'r dolenni 'Darllen Mwy' ar y dudalen Pwy yw Pwy ar ein gwefan.

## Adolygiad o berfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

140 Fe gwblhaodd y Bwrdd hunanasesiad o'i effeithiolrwydd ac fe ystyriodd y canlyniadau ym mis Mawrth 2019. Roedd ei fesuriad yn dynodi bod ei effeithiolrwydd yn yr ystod rhwng gweddol effeithiol a hynod effeithiol ar draws pob agwedd ar asesu ac roedd wedi'i argyhoeddi ar y cyfan na wnaeth y canlyniadau ddatgelu unrhyw beth annisgwyl. Cymerwyd sawl cam yn ystod 2019-20 i fynd i'r afael â rhai o'r meysydd y nodwyd bod angen eu gwella, gan gynnwys datblygu fformatau mwy rhyngweithiol ar gyfer adrodd ar risg, perfformiad a gwybodaeth reoli arall.

141 Yn 2019, cytunodd y Bwrdd i gomisiynu adolygiad annibynnol o'i effeithiolrwydd, gyda'r adolygiad blaenorol o'r fath wedi'i gwblhau yn 2016. Ni ddenodd yr ymarfer caffael ddigon o ddiddordeb i'r Bwrdd ddyfarnu contract. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y Bwrdd yn ystyried ei opsiynau yng ngoleuni'r bwriad i benodi Cadeirydd newydd yn ddiweddarach yn 2020, a'r cyfyngiadau a osodwyd i reoli'r argyfwng iechyd COVID-19. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gomisiynu adolygiad annibynnol bob tair i bum mlynedd.

142 Fel rhan o'u gofynion adrodd blynyddol, mae pob un o bwyllgorau'r Bwrdd yn cwblhau hunanasesiad o'u heffeithiolrwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn asesu ei hun yn erbyn yr egwyddorion arfer da a ddisgrifir yn Llawlyfr Pwyllgor Archwilio Trysorlys EM. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol wedi addasu'r asesiad hwnnw i sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn gymesur â'i anghenion. Mae'r Bwrdd wedi'i argyhoeddi ynghylch cadernid yr asesiadau ac yn fodlon nad oes unrhyw faterion sy'n achosi pryder.

143 Mae gan y Bwrdd broses ar waith i gynnal arfarniadau o berfformiad aelodau bob 12 i 18 mis. Cawsant eu cwblhau ddiwethaf ym mis Mai 2020. Mae'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn cwblhau arfarniad o berfformiad y Cadeirydd ar sail yr un cylch.

144 Mae gan y Bwrdd gynllun dysgu a datblygu a gaiff ei ddiweddaru'n flynyddol. Mae'r cynllun yn nodi'r trefniadau ar gyfer hyfforddiant cynefino a diwallu anghenion dysgu a datblygu parhaus a nodir yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y rhai a nodir drwy'r broses arfarnu perfformiad.

## Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

145 Cyflwynodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ei adroddiad blynyddol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ym mis Mehefin 2020, gan grynhoi ei gasgliadau o'r gwaith yr oedd wedi'i wneud yn ystod 2019-20.

146 Darparodd y Pwyllgor y sicrwydd canlynol:

a ymddengys fod y trefniadau asesu risg a rheoli risg yn gadarn ac yn gweithredu'n effeithiol, er bod rheolwyr am adolygu'r fframwaith polisi;

b mae adroddiadau ariannol yn gyson â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a chaiff adroddiadau eu paratoi yn unol â pholisïau cyfrifyddu priodol;

c mae ei adolygiadau strategol o'r map sicrwydd yn awgrymu, er bod rhai bylchau, fod y fframwaith rheoli mewnol yn gweithredu'n effeithiol;

ch Mae'r trefniadau llywodraethu ehangach ar gyfer nodi ac adrodd am gamweddau megis twyll a gwyngalchu arian yn gadarn ac yn unol ag arfer da; ac

d mae'r archwilwyr mewnol ac allanol yn darparu her adeiladol a chyfraniadau cadarnhaol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

147 Arsylwodd y Pwyllgor hefyd yn ystod y flwyddyn fod y rheolwyr yn ymgysylltu'n llawn â'r gwaith o fodloni anghenion sicrwydd y Bwrdd ac yn barod i dderbyn her barhaus yr aelodau a'r archwilwyr.

148 Er mwyn llywio cylch gorchwyl a rhaglen waith y Pwyllgor, anogodd yr aelodau y Bwrdd i ystyried a yw'n bwriadu dirprwyo'r cyfrifoldeb dros roi sicrwydd bod Swyddfa Archwilio Cymru yn rheoli ei risg seiber yn briodol.

149 Mae hunanasesiad y Pwyllgor yn dangos ei fod yn dilyn arfer da a dderbynnir.

## Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol

150 Yn 2019-20, canolbwyntiodd llawer o sylw'r Pwyllgor ar dâl a gwobrwyo, gan ail-agor trafodaethau ar setliad cyflog 2018-20 yn dilyn newid ym mholisi'r Llywodraeth ac ystyriaeth o'r strategaeth gyflogau ar gyfer 2020-21. Wrth lywio drwy'r materion hyn, roedd y Pwyllgor yn ymwybodol o effeithiau tymor hwy penderfyniadau'r Bwrdd, gan gynnwys y cynllun ariannol tymor canolig a strategaeth y gweithlu.

151 Y mater pwysig arall i'r Pwyllgor oedd gallu'r tîm AD i gefnogi uchelgeisiau strategol y Bwrdd sydd wedi'u cynnwys yn ei Strategaeth Pobl, sy'n fater a nodwyd hefyd yn adroddiad 2018-19 y Pwyllgor. Roedd y tîm wedi profi lefel sylweddol o drosiant staff, ac roedd yn agored i alwadau cyfnewidiol a chystadleuol am ei wasanaethau.

152 Tua diwedd y flwyddyn, nododd y Pwyllgor fod y tîm AD yn dechrau sefydlu ei hun yn fwy effeithiol yn ei rôl partneru busnesau. Fodd bynnag, roedd yr aelodau yn ymwybodol o'r angen am fuddsoddiad parhaus os yw'r tîm am gefnogi'r busnes yn effeithiol wrth gyflawni ei uchelgeisiau. Yn hynny o beth, nododd y Pwyllgor fod cadernid y fframwaith polisi a'i weithrediad effeithiol yn hanfodol i ryddhau capasiti yn y tîm AD ar gyfer y cymorth gwerth ychwanegol, mwy strategol ar gyfer cyflawni'r uchelgeisiau cyffredinol.

153 Parhaodd y Pwyllgor i fonitro'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Pobl ac roedd yn fodlon ar y cynnydd yn gyffredinol, yn amodol ar sicrhau bod goblygiadau unrhyw lithriant o 2019-20 yn cael eu cofnodi'n llawn. Mae'r Pwyllgor hefyd yn awyddus i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer y newid i strategaeth y gweithlu y mae disgwyl i'r Bwrdd ei chymeradwyo yn ystod 2020.

154 Ar y cyfan, mae'r Pwyllgor yn fodlon bod trefniadau cydnabyddiaeth ariannol ac Adnoddau Dynol Swyddfa Archwilio Cymru:

a yn cefnogi nodau strategol y Bwrdd;

b yn galluogi cynnal busnes yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gan gynnwys recriwtio, cymell a chadw staff; ac

c yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio, gan gynnwys sicrhau bod y datgeliadau yn yr adroddiad blynyddol ar gydnabyddiaeth ariannol yn unol â gofynion cyfreithiol.

155 Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy i sicrhau bod manteision y trefniadau hyn yn cael eu gwireddu'n llawn. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud amryw o argymhellion y bydd yn eu monitro fel rhan o'i raglen waith yn 2020-21.

156 Mae’r Pwyllgor yn fodlon nad yw’r adolygiad hunanasesu o’i effeithiolrwydd wedi datgelu unrhyw feysydd sy’n peri pryder.

**Adroddiad yr archwilydd mewnol**

157 Yn dilyn ymarfer tendro a gynhaliwyd o dan Fframwaith Ymgynghoriaeth Reoli Gwasanaethau Masnachol y Goron, mae PricewaterhouseCoopers LLP wedi’u penodi’n archwilwyr mewnol Swyddfa Archwilio Cymru am y cyfnod o dair blynedd rhwng 2018-19 a 2020-21.

158 Paratodd y Pennaeth Archwilio Mewnol strategaeth a chynllun archwilio mewnol ar gyfer 2019-20 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2019. Yn ystod 2019-20, cyhoeddwyd pum adroddiad archwilio mewnol gan PricewaterhouseCoopers LLP.

159 Cynhaliodd y Pennaeth Archwilio Mewnol system olrhain i olrhain argymhellion archwilio a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn. Cafodd y rhan fwyaf o’r adolygiadau yn y cynllun archwilio eu cynnal a’u cwblhau cyn dechrau’r argyfwng COVID-19, ac felly ni tharfwyd arnynt.

### Lefelau sicrwydd a ddarparwyd trwy farnau mewn adroddiadau archwilio mewnol

Tabl sy'n rhestru'r adolygiadau archwilio mewnol a gwblhawyd yn 2019-20 ac sy'n darparu dosbarthiad yr adroddiad o ran lefelau sicrwydd pob adolygiad, ochr yn ochr â chrynodeb o sylwadau allweddol.

| Adolygiad archwilio mewnol | Dosbarthiad yr adroddiad | Sylwadau archwilio mewnol |
|---|---|---|
| Rheoli perfformiad TG | Risg ganolig | Nodwyd bod profiad defnyddwyr TG, ar sail holiaduron adborth, yn gadarnhaol ar y cyfan, a dim ond 6% o ddefnyddwyr sy'n teimlo'n negyddol ynglŷn â'u defnydd a'u profiad o TG. Fodd bynnag, nid oes grŵp llywodraethu o fewn Archwilio Cymru gyda gorchwyl cyfrifoldeb ffurfiol am oruchwylio Perfformiad TG, ac mae'r mesurau amcan ar gyfer asesu perfformiad y swyddogaeth TG yn gyfyngedig ar hyn o bryd. |
| Trefniadau i sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol | Risg ganolig | Mae'r fframwaith cyffredinol i gefnogi cydymffurfiaeth â dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol yn gymharol ddatblygedig, gyda threfniadau i archwilio Cynghorau Cymunedol gyda 'chyffyrddiad ysgafn' cymharol ar hyn o bryd. Er mwyn sicrhau bod yr Archwilydd Cyffredinol a gofynion Deddfau Archwilio Cyhoeddus Cymru yn cael eu bodloni, mae cyfle i adeiladu ar y trefniadau sy'n bodoli ac mae Archwilio Cymru yn y broses o fynd i'r afael â hyn ar hyn o bryd. |
| Gwybodaeth reoli | Risg ganolig | Mae gwybodaeth reoli yn cael ei chyflwyno'n gyson ledled y sefydliad drwy ffynhonnell unigol. Fodd bynnag, rydym wedi nodi nifer o feysydd y gellid eu gwella o ran natur a maint yr wybodaeth a gaiff ei pharatoi, y broses o gynhyrchu'r wybodaeth a'r modd y caiff ei chyflwyno. |
| Rheoli newid | Risg isel | Mae Archwilio Cymru wedi cymryd camau i greu fframwaith rheoli newid eang i wella'r ffordd y mae pob math o newid yn cael ei gyflawni yn y sefydliad. Gwelsom nad yw'r fframwaith rheoli newid wedi'i ddatblygu'n ddigonol eto i gefnogi methodoleg prosiect Agile. |
| Rheolaeth ariannol | Risg ganolig | Gwelsom fod rheolaethau ynghylch pryniant a thaliadau, treuliau gweithwyr a chydnabod refeniw wedi'u cynllunio i raddau helaeth ac yn gweithredu'n effeithiol. Fodd bynnag, nodwyd dau ganfyddiad mewn perthynas â mynediad defnyddwyr at systemau ariannol, lle nad oedd gwahanu rheolaethau dyletswyddau yn gwbl weithredol. |

160 Yn ei ddatganiad sicrwydd blynyddol ar gyfer 2019-20, adroddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol y canlynol:

‘Governance, risk management and control in relation to business-critical areas is generally satisfactory. However, there are some areas of weakness and/or non-compliance in the framework of governance, risk management and control which potentially put the achievement of objectives at risk. Some improvements are required in those areas to enhance the adequacy and/or effectiveness of the framework of governance, risk management and control’

## Archwaeth risg a rheoli risg

161 Rydym wedi ymrwymo i gymhwyso’r egwyddorion arfer gorau a nodir yn Llyfr Oren Llywodraeth y DU ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau’n gosteffeithiol.

162 O gofio natur ein busnes, mae ein lefel goddef risg ym meysydd barnau archwilio proffesiynol, rheoleidd-dra, priodoldeb a rheoli ariannol yn isel. Mewn meysydd eraill, er enghraifft, mewn perthynas â chyfnewid arfer da ac ymgysylltu’n fwy effeithiol â’r cyhoedd, rydym yn barod i dderbyn mwy o risg er mwyn manteisio ar gyfleoedd i fynd ar drywydd ein huchelgeisiau.

163 Mae’r Bwrdd wedi mabwysiadu 11 maes sicrwydd fel fframwaith i’w ddefnyddio i strwythuro map sicrwydd sy’n rhestru rheolaethau a ffynonellau sicrwydd presennol ac sy’n amlygu unrhyw fylchau mewn perthynas â diwallu anghenion y Bwrdd. Ar gyfer pob maes sicrwydd, mae’r Bwrdd wedi rhoi diffiniad bras o’i archwaeth risg gan ddefnyddio’r dosbarthiad a argymhellir yng nghanllawiau Trysorlys EM, ac mae’n mynd ati o bryd i’w gilydd i ystyried i ba raddau y mae rheolaethau presennol yn cyd-fynd â’r archwaeth hwnnw.

| Ardal sicrwydd | Archwaeth risg |
|---|---|
| Cyfeiriad strategol | Agored |
| Llywodraethu, arweinyddiaeth a diwylliant | Gofalus |
| Model/dull gweithredu ar gyfer defnyddio adnoddau | Agored |
| Cysylltiadau ac enw da rhanddeiliaid allanol | Gofalus |
| Strategaeth y gweithlu a phobl | Agored |
| Strategaeth gwybodaeth | Gofalus |
| Stiwardiaeth asedau ffisegol a TGCh | Gofalus |
| Effeithiolrwydd systemau busnes | Agored |
| Trefniadau diogelu | Gwrth-risg |
| Sicrhau gwerth am arian yn ein defnydd o adnoddau | Gofalus |
| Trefniadau ar gyfer monitro'r ffordd y caiff swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol eu harfer | Gofalus |

### Fframwaith rheoli risg

164 Y Bwrdd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros reoli risg ac mae'n cael ac yn ystyried cofrestr risg strategol ac adroddiad sy'n crynhoi unrhyw newidiadau arwyddocaol i broffil risg y sefydliad yn ei holl gyfarfodydd.

165 Caiff y Bwrdd ei gynorthwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, y mae ei gyfrifoldebau yn cynnwys adolygu a chynghori'r Bwrdd mewn perthynas â'r canlynol:

- a ei strategaeth risg, gan gynnwys priodoldeb dull Swyddfa Archwilio Cymru o bennu ei harchwaeth risg;
- b prosesau asesu risg cyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru sy'n llywio penderfyniadau gweithredol;
- c gallu Swyddfa Archwilio Cymru i nodi a rheoli risg;
- ch cylch gwaith y swyddogaeth rheoli risg; ac
- d ymatebolrwydd rheolwyr i asesiadau risg.

166 Mae'r Tîm Arwain Gweithredol yn gyfrifol am: gymeradwyo a goruchwylio'r modd y caiff ein polisi rheoli risg ei roi ar waith a chytuno ar unrhyw adnoddau y mae eu hangen i gefnogi hyn yn gorfforaethol; asesu a rheoli risgiau strategol; ac adolygu'r gofrestr risgiau gweithredol bob chwe mis.

167 Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cynghori'r Bwrdd a'i bwyllgorau ar y system rheolaeth fewnol, a chaiff ei gynorthwyo i wneud hynny gan y Tîm Arwain Gweithredol.

## Asesu risg

168 Ym mhob un o'i gyfarfodydd yn 2019-20, ystyriodd y Bwrdd grynodeb o'r risgiau strategol allweddol yr oedd y sefydliad yn eu hwynebu, ochr yn ochr â chofrestr risg strategol ryngweithiol fanylach a oedd:

- a yn asesu lefelau risg cynhenid a thargedau risg penodedig;
- b yn disgrifio'r rheolaethau allweddol a roddwyd ar waith i liniaru tebygolrwydd ac effaith risgiau a chyrraedd targedau;
- c yn asesu lefelau risg gweddilliol;
- ch yn nodi newidiadau o ran risg ac yn tynnu sylw at newidiadau a wnaed i reolaethau lliniaru ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd; ac
- d yn crynhoi cynnwys y gofrestr trwy broffiliau a mapiau gwres o risgiau cynhenid a gweddilliol.

169 Amrywiodd amryw o risgiau strategol allweddol yn ystod y flwyddyn, a threuliodd y Bwrdd a'r Tîm Arwain Gweithredol dipyn o amser arnynt. Roedd y rhain yn cynnwys risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r canlynol:

- a sefyllfa ariannol tymor hwy Swyddfa Archwilio Cymru o ystyried y diffygion a nodwyd yn y cynllun ariannol tymor canolig;
- b bod y trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn ddigon cadarn i ddiogelu data a sicrhau cydymffurfiaeth â'r GDPR;
- c ymateb yn briodol, trwy ein gwaith archwilio, i oblygiadau uniongyrchol a thymor hwy Brexit ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru;
- ch bod gan y tîm adnoddau dynol ddigon o gapasiti a gallu i gefnogi ein hagenda uchelgeisiol ar gyfer newid;
- d bod gan ein gweithlu ehangach y sgiliau, y profiad, y gallu a'r amrywiaeth angenrheidiol i gyflawni ein huchelgeisiau cyffredinol; ac yn fwy diweddar; a'r
- dd pandemig COVID-19.

170 Rwyf wedi fy argyhoeddi bod y risgiau hyn wedi cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

171 Yn 2019-20, parhaodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i fod â rôl o ran craffu ar y map sicrwydd a'r cofrestri risg strategol a gweithredol, gan gynnwys trwy brofi risgiau a rheolaethau unigol er mwyn penderfynu a oedd y trefniadau rheoli risg yn gadarn ar y cyfan. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod ei adolygiadau manwl yn dangos bod trefniadau rheoli risg Swyddfa Archwilio Cymru i'w gweld fel pe baent yn gweithio'n effeithiol.

172 Cafodd amryw o risgiau eu rheoli'n llwyddiannus a'u dileu o'r gofrestr risgiau strategol yn ystod 2019-20. Cafodd y risgiau naill ai eu cau yn gyfan gwbl neu eu hisraddio i'r gofrestr risg gweithredol er mwyn i'r arweinydd risg perthnasol eu rheoli'n barhaus.

173 Rydym hefyd yn wynebu sawl risg newydd a nodwyd wrth edrych ymlaen tuag at 2020-21, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn ein cofrestr risg strategol. Mae'r rhan fwyaf o'r risgiau hyn yn gysylltiedig ag amgylchiadau eithriadol y pandemig COVID-19, ac maent yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

a effaith absenoldeb salwch a mesurau cyfyngiadau symud ar ein gallu i gyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn ein Cynllun Blynyddol mewn modd amserol ac yn unol â safonau ansawdd archwilio gofynnol;

b effeithiau ehangach gweithio gartref ar forâl, iechyd a llesiant staff a'r angen i gynnal cyfryngau cyfathrebu clir a chyson;

c rhoi mwy o ddibyniaeth ar ein TG a'n cadernid technegol, a sut mae hyn yn effeithio ar ein gallu i gael gafael ar wybodaeth drwy ddefnyddio hawliau mynediad statudol yr Archwilydd Cyffredinol;

ch effaith y mesurau brys ar ein gallu i ymgymryd ag ymarferion recriwtio wedi'u cynllunio, gan gynnwys mewn perthynas â'r broses o ailstrwythuro uwch arweinwyr a'r cynllun hyfforddeion graddedig; a

d ein gallu i weithredu o fewn yr Amcangyfrif cymeradwy drwy sicrhau digon o incwm ffioedd.

174 Rydym wedi comisiynu gwaith i liniaru'r risgiau newydd hyn ac wedi paratoi asesiad manwl o effaith debygol y pandemig COVID-19 ar wahanol elfennau'r rhaglen waith a nodir yn ein Cynllun Blynyddol, a sut rydym yn bwriadu ymateb.

175 Ar 4 Mai 2020, cynhaliodd y Bwrdd gyfarfod arbennig yn canolbwyntio ar y canlynol:

a cael sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd ymateb y rheolwyr i argyfwng COVID-19;

b ennill gwell dealltwriaeth o'r goblygiadau ar gyfer cyflawni Cynllun Blynyddol 2020-21 a'r sefyllfa ariannol; a


c chynnal adolygiad o'r ychwanegiadau perthnasol i'r gofrestr risg strategol.

176 Ar y cyfan, canmolodd y Bwrdd ymateb y rheolwyr, gan werthfawrogi'r amser a'r ymdrech a fuddsoddwyd i fynd i'r afael â'r argyfwng. Roedd yr Aelodau'n gyfforddus bod gennym sylfaen gadarn ar gyfer datblygu ein syniadau ar gyfer ein sefyllfa tymor hir. Yn ein Hadroddiad Interim nesaf, a gaiff ei gyhoeddi ym mis Hydref, byddwn yn rhoi diweddariad manwl ar y newidiadau a wnaed i'r Cynllun mewn ymateb i'r sefyllfa sy'n prysur ddatblygu.

177 Byddaf yn parhau i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n dda yn gyffredinol, bod camau priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau, a bod rheolaethau mewnol Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol.

### Proffil risgiau strategol Swyddfa Archwilio Cymru

178 Ceir crynodeb o broffil risg strategol Swyddfa Archwilio Cymru ar 4 Mai 2020 yn y 'map gwres' canlynol, sy'n amlygu nifer y risgiau strategol a lefelau'r risgiau gweddilliol a aseswyd ar ôl cymhwyso rheolaethau i liniaru eu heffaith a'u tebygolrwydd.



## Llywodraethu gwybodaeth

179 Fel Archwilydd Cyffredinol, mae gen i fynediad eang at wybodaeth er mwyn cyflawni fy swyddogaethau archwilio. Ynghlwm wrth yr hawliau mynediad statudol grymus hyn mae cyfrifoldeb i sicrhau bod yr wybodaeth a geir gennyf fi a Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei diogelu'n briodol.

180 Felly, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru Bolisi Llywodraethu Gwybodaeth a Pholisi Diogelwch Gwybodaeth sy'n amlinellu rhwymedigaethau a chyfrifoldebau staff, gofynion prosesu data, trefniadau monitro ac adrodd, ac yn egluro sut y gall staff gael mwy o gymorth ac arweiniad.

### Diogelu data

181 Mae diogelu data personol yn hynod bwysig, ac yn ystod y flwyddyn mae'r sefydliad wedi parhau i weithio i sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth diogelu data gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

a darparu hyfforddiant a chanllawiau diogelu data i staff ar draws y sefydliad;

b sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu dal ynghylch yr wybodaeth bersonol a brosesir gan Swyddfa Archwilio Cymru, dibenion y prosesu, y sail gyfreithiol ar gyfer y prosesu, cadw data a manylion mesurau diogelwch technegol a sefydliadol;

c monitro cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau posibl a nodwyd yn rhaglen fonitro'r Swyddog Diogelu Data; a

ch chynnal asesiadau o'r effaith ar breifatrwydd ar brosesau newydd ar gyfer chasglu a dadansoddi data a phrosiectau corfforaethol.

182 Yn fy rôl fel Prif Weithredwr, rwy'n atebol i'r Bwrdd am lywodraethu gwybodaeth ac rwyf wedi dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi mabwysiadu ISO 27001, sef y safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth, gan addasu'r trefniadau yn unol ag anghenion y sefydliad.

183 Rydym yn cadw cofnodion o ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth, megis mynediad anawdurdodedig at wybodaeth neu golli gwybodaeth yn ddamweiniol. Mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn wedi bod yn rhai mân, ac nid ydym wedi cyflwyno unrhyw adroddiadau i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Fodd bynnag, rydym yn parhau i wella ein prosesau mewnol ac yn cryfhau ein diogelwch technegol er mwyn mynd i'r afael â gwendidau posibl.

### Bod yn agored ac yn dryloyw

184 Rydym yn ymrwymedig i weithio mewn ffordd agored a thryloyw fel busnes ac rydym wedi mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Cynllun yn ein rhwymo i sicrhau bod gwybodaeth benodol ar gael fel mater o drefn i'r cyhoedd.

185 Yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20, cawsom 42 o geisiadau am wybodaeth, gan gynnwys pum cais gan unigolion a oedd yn arfer eu hawliau o ran mynediad pwnc o dan ddeddfau diogelu data. Gwnaethom fodloni'r terfyn amser statudol o 20 diwrnod gwaith ar gyfer 35 o'r ceisiadau a wnaed o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac ar gyfer pedwar o'r ceisiadau mynediad pwnc. Ar gyfer y tri chais sy'n weddill, mae ymatebion wedi cael eu hoedi oherwydd y pandemig COVID-19, gan nad yw'r cofnodion sy'n ofynnol i brosesu'r ceisiadau ar gael ar hyn o bryd gan y Swyddog Gwybodaeth sy'n gweithio o bell.

186 Ni chynhaliodd y Comisiynydd Gwybodaeth unrhyw adolygiadau mewn perthynas â ni yn 2019-20.

## Chwythu'r chwiban (mewnol)

187 Anogir pob aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru i godi pryderon ynghylch drwgweithred a ddaw i'w sylw pan fyddant yn y gwaith. Mae'r Bwrdd yn ystyried bod nodi drwgweithredoedd yn fewnol yn gyfraniad pwysig at reoli risg gorfforaethol a sicrhau llywodraethu da.

188 Mae gennym bolisi chwythu'r chwiban mewnol sefydledig sy'n adlewyrchu darpariaethau Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, sy'n nodi'r mecanwaith ar gyfer codi materion o'r fath, ac sy'n gymwys i staff Swyddfa Archwilio Cymru a'r holl gontractwyr ac unigolion eraill sy'n gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru mewn unrhyw ffordd.

189 Yn 2019-20, ni dderbyniom unrhyw ddatgeliadau o faterion oedd yn peri pryder.

190 Er mwyn asesu effeithiolrwydd ein trefniadau chwythu’r chwiban, rydym yn ystyried dau fater: hyder staff yn y trefniadau; a’r hyn rydym ni wedi’i ddysgu o ddatgeliadau.

191 O ran hyder staff mewn trefniadau, am y drydedd flwyddyn yn olynol fe wnaethom ni ofyn i staff yn ein harolwg staff ym mis Hydref 2019 (yr ymatebodd 80% o’r staff iddo) roi eu hymateb i’r datganiad canlynol ar raddfa a oedd yn amrywio o ‘cytuno’n gryf’ i ‘anghytuno’n gryf’: ‘Rwy’n hyderus, pe bawn yn codi pryder dan drefniadau chwythu’r chwiban Swyddfa Archwilio Cymru, y byddai’r sefydliad yn ymchwilio’n briodol i’r pryder’. Dywedodd saith deg wyth y cant o’r rhai a gwblhaodd yr arolwg eu bod yn ‘cytuno’n gryf’ neu’n ‘cytuno’ â’r cwestiwn hwn, gydag 17% arall yn dewis yr ateb ‘ddim yn cytuno nac yn anghytuno’ (yn arolwg mis Hydref 2018, 76% ac 16% oedd y ffigurau cyfatebol). Er bod y canlyniad yn dynodi hyder eang yn y trefniadau o hyd, mae’n awgrymu angen parhaus am waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o’r trefniadau hynny a bod ganddynt hyder ynddynt.

192 Er na dderbyniwyd unrhyw ddatgeliadau yn ystod 2019-20, roeddem yn gallu dysgu gwersi o ddatgeliad a ddaeth i law yn gynnar yn 2019 ac roeddem yn dal i ymchwilio iddo pan wnaethom ni ein hadroddiad y llynedd. Roedd y datgeliad hwnnw wedi helpu i roi adborth i uwch arweinwyr perthnasol i ystyried a allai unrhyw newidiadau i brosesau recriwtio Swyddfa Archwilio Cymru fod yn fuddiol.

# Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a staff

## Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol

### Archwilydd Cyffredinol Cymru

193 Pennir cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol gan y Senedd ac, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, daw'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na chael ei thalu gan Swyddfa Archwilio Cymru. Er mwyn bod yn dryloyw, caiff cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol ei datgelu yn yr adroddiad hwn ar gydnabyddiaeth ariannol. Yr Archwilydd Cyffredinol yw Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru hefyd.

194 Penodwyd yr Archwilydd Cyffredinol presennol, Adrian Crompton, gan y Frenhines, a dechreuodd yn ei swydd ar 21 Gorffennaf 2018 am gyfnod o wyth mlynedd na ellir ei adnewyddu. Fe ymddeolodd yr Archwilydd Cyffredinol blaenorol, Huw Vaughan Thomas, o'i rôl ar 20 Gorffennaf 2018.

**Costau pensiwn a chyflog yr Archwilydd Cyffredinol**

| | 2019-20 | | 2018-19 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyflog gros | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | Cyflog gros | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr |
| | £ | £ | £ | £ |
| Adrian Crompton | 147,570 | 44,714 | 98,865[34] | 24,222[35] |
| Huw Vaughan Thomas | – | – | 58,227[36] | 8,991[37] |
| **Cyfanswm** | **147,570** | **44,714** | **157,092** | **33,213** |

34 Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn £142,000.
35 Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn £34,790.
36 Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn £161,744.
37 Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn £24,975.

## Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

195 Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys pum aelod anweithredol a benodir gan y Senedd, dau aelod etholedig sy’n weithwyr cyflogedig, Archwilydd Cyffredinol Cymru a’r aelod sy’n weithiwr cyflogedig a enwebwyd ganddo, sef y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar hyn o bryd.

196 Nid yw cydnabyddiaeth ariannol aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn bensiynadwy, ac fe’i pennir gan y Senedd. Yn achos y Cadeirydd, telir y gost yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Er mwyn bod yn fwy tryloyw, caiff cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd ei datgelu yn yr adroddiad hwn.

197 Penodwyd y ddau aelod etholedig sy’n weithwyr cyflogedig gan aelodau anweithredol y Bwrdd, yn dilyn pleidlais gan y staff, ym mis Mehefin 2018. Pennir y lwfans y maent yn ei gael am eu dyletswyddau sy’n gysylltiedig â’r Bwrdd gan aelodau anweithredol y Bwrdd ac fe’i datgelir yn yr adroddiad hwn.

198 Nid yw’r Archwilydd Cyffredinol a’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn cael unrhyw lwfansau ychwanegol am eu dyletswyddau sy’n gysylltiedig â’r Bwrdd.

## Caiff yr wybodaeth ar dudalennau 77 i 88 yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff ei harchwilio

### Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth ariannol aelodau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

| | Cydnabyddiaeth Ariannol/Lwfans | | Treuliau sy'n cynnwys treth[38] | | Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth ariannol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Aelodau'r Bwrdd ar 31 Mawrth 2020** | | | | | | |
| Isobel Everett (Cadeirydd)[39] | 25,000 | 25,000 | 5,067 | 6,373 | 30,067 | 31,373 |
| Lindsay Foyster | 12,500 | 12,500 | 708 | 513 | 13,208 | 13,013 |
| David Francis[40] | 12,534 | 504 | 350 | | 12,884 | 504 |
| Alison Gerrard | 12,500 | 12,500 | 1,432 | 1,174 | 13,932 | 13,674 |
| Bill Richardson | 12,500 | 12,500 | 3,652 | 3,407 | 16,152 | 15,907 |
| Anne Beegan[41] | 4,167 | 3,357 | – | 1,733 | 4,167 | 5,090 |
| Amanda Hughes | 4,167 | 4,167 | – | 2,301 | 4,167 | 6,468 |

38 Gall aelodau'r Bwrdd ac aelodau anweithredol pwyllgorau hawlio am eu costau teithio a threuliau ar gyfer busnes sy'n gysylltiedig â Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff y rhwymedigaeth treth bersonol mewn perthynas â'r treuliau hyn ei setlo gan Swyddfa Archwilio Cymru.

39 Telir cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd (gan gynnwys costau teithio a threuliau a'r rhwymedigaeth dreth gysylltiedig o 2019-20) yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Ers 2013, mae costau teithio a threuliau sy'n gysylltiedig â'r Cadeirydd wedi'u talu gan Swyddfa Archwilio Cymru a'u hariannu o Gronfa Gyfunol Cymru drwy'r Amcangyfrif a gymeradwywyd. Yn ystod 2019-20, o ganlyniad i newid yn y ffordd mae Cyllid a Thollau EM yn rhoi cyfrif am rwymedigaeth dreth sy'n gysylltiedig â threuliau o'r fath, nododd Comisiwn y Senedd y dylai'r costau hyn, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, gael eu trin fel tâl uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na chael eu talu o'r cyflenwad. O ganlyniad, yn 2019-20 mae'r holl gostau o'r fath wedi'u talu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u datgelir yma er tryloywder yn unig.

40 Cymerodd David Francis le Steven Burnett ar Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ar 16 Mawrth 2019. Roedd ei gydnabyddiaeth ariannol yn 2019-20 yn cynnwys addasiad mewn perthynas â 2018-19.

41 Mae Anne Beegan ac Amanda Hughes yn aelodau o'r Bwrdd sy'n weithwyr cyflogedig. Ailbenodwyd Anne ar 11 Mehefin 2018; Ailbenodwyd Amanda o 11 Mehefin 2018. Mae lwfansau a ddatgelir uchod yn ymwneud â dyletswyddau aelodau'r Bwrdd yn unig. O 2019-20, ni chaiff treuliau a dynnir am ddyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd eu trin fel rhai trethadwy.

| | Cydnabyddiaeth Ariannol/Lwfans | | Treuliau sy'n cynnwys treth[38] | | Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth ariannol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Cyn-aelodau'r Bwrdd** | | | | | | |
| Steven Burnett[42] | – | 11,962 | – | 1,819 | – | 13,781 |
| Louise Fleet[43] | – | 787 | – | 52 | - | 839 |
| **Cyfanswm** | **83,368** | **83,277** | **11,209** | **17,372** | **94,577** | **100,649** |

## Aelodau anweithredol o'r pwyllgor

199 Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wedi penodi aelod annibynnol o'i Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC).

**Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth ariannol aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

| | Cydnabyddiaeth Ariannol/Lwfans | | Treuliau sy'n cynnwys treth | | Ffigur unigol cydnabyddiaeth ariannol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Dianne Thomas | 5,000 | 5,000 | 700 | 496 | 5,700 | 5,496 |
| **Cyfanswm** | **5,000** | **5,000** | **700** | **496** | **5,700** | **5,496** |

42 Daeth cyfnod Steven Burnett yn y swydd i ben ar 15 Mawrth 2019.

43 Roedd Louise Fleet yn aelod o'r Bwrdd sy'n weithiwr cyflogedig hyd at 8 Mehefin 2018. Mae lwfansau a ddatgelir uchod yn ymwneud â dyletswyddau aelodau'r Bwrdd yn unig.

## Staff Swyddfa Archwilio Cymru

200 Mae polisi tâl Swyddfa Archwilio Cymru a manylion yr ystodau cyflog ar gyfer yr holl staff ar gael ar ein gwefan.

201 Cyflogir pob aelod o staff gan Swyddfa Archwilio Cymru ar y cyfryw delerau ac amodau a bennir gan y Bwrdd. Cynhelir adolygiad cyfnodol o gydnabyddiaeth ariannol pob aelod o staff yn unol â strategaethau a bennir gan y Bwrdd a chan ymgynghori ag undebau llafur o dan gydgytundeb. Mae cydnabyddiaeth ariannol yn bensiynadwy o dan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS).

202 Mae aelodau o staff Swyddfa Archwilio Cymru fel arfer yn dal swyddi penagored, oni bai eu bod ar gontractau cyfnod penodol. Byddai terfynu penodiad yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

203 Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn talu bonysau sy'n gysylltiedig â pherfformiad i unrhyw aelodau o staff, ond mae trefniadau arfarnu perfformiad ar waith sy'n atal codiadau cyflog os na fydd perfformiad yn foddhaol.

204 Yn ystod 2019-20, ni wnaed unrhyw daliadau i gyn-aelodau o staff y byddai eu cydnabyddiaeth ariannol wedi bod yn ddatgeladwy (2018-19: Dim).

### Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr

205 Ym mis Gorffennaf 2019, ailgyfansoddwyd y cyn-Bwyllgor Rheoli fel y Tîm Arwain Gweithredol gyda Chyfarwyddwr penodedig – Ann-Marie Harkin a phedwar aelod sy'n weithwyr cyflogedig. Gan fod aelodau sy'n weithwyr cyflogedig yn mynychu ar sail cylchdro, ac am nad ydynt yn cael unrhyw dâl ychwanegol am y dyletswyddau hyn ac nad yw aelodaeth o'r Tîm Arwain Gweithredol yn rhan sylweddol o'u rôl, nid yw eu cyflogau'n cael eu datgelu yma.

206 Rhoddir manylion am dâl a buddion pensiwn aelodau'r Tîm Arwain Gweithredol sy'n Gyfarwyddwyr yn y tabl canlynol.

| | Y Flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyflog**[44] | **Treuliau Trethadwy**[45] | **Budd Pensiwn**[46] | **Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth ariannol** |
| | **Bandiau o £5,000** | **I'r £100 agosaf** | **I'r £1,000 agosaf** | **Bandiau o £5,000** |
| Anthony Barrett | 120-125 | 600 | 53 | 175-180 |
| Kevin Thomas | 120-125 | 14,800 | 54 | 190-195 |
| Mike Usher | 105-110 | – | 32 | 135-140 |
| Steve O'Donoghue | 95-100 | – | 66 | 160-165 |
| Ann-Marie Harkin[47] | 70-75 | – | 15 | 85-90 |
| Jane Holownia (0.8FTE)[48] | 20-25 | – | 53 | 75-80 |

44 Mae'n cynnwys cyflog gros a lwfans teithio. Talwyd lwfans teithio i Anthony Barrett (£3,350), Kevin Thomas (£3,350) a Jane Holownia (£754). Mae gan Mike Usher hawl i lwfans teithio ond ni wnaeth arfer yr hawl hon yn 2019-20 na 2018-19.

45 Sef gwerth taliadau yn cynnwys treth a wnaed i Anthony Barrett a Kevin Thomas am deithio i brif weithle. O ganlyniad i drefniadau gwaith diwygiedig yn 2019-20, mae costau sy'n cynnwys treth a dynnwyd gan Anthony Barrett wedi lleihau yn sylweddol.

46 Caiff gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn ei gyfrifo fel y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20 adio'r cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad namyn y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn. Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiadau o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

47 Penodwyd Ann-Marie Harkin i ELT ym mis Gorffennaf 2019 (cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yn yr amrediad 90-95). Nid oedd unrhyw dâl ychwanegol yn daladwy am ei rôl ar y Tîm Arwain Gweithredol.

48 Ymadawodd Jane Holownia â Swyddfa Archwilio Cymru o dan gytundeb ymadael yn wirfoddol ar ddiwedd mis Mehefin 2019 (cyflog rhan-amser cyfwerth â blwyddyn lawn yn yr amrediad 95-100). Yn ogystal â'r cyflog a ddatgelwyd uchod, derbyniodd daliad digolledu ymadael yn wirfoddol o £161,333.

**Y Flwyddyn Hyd at 31 Mawrth 2019**

| | Cyflog | Treuliau Trethadwy | Budd Pensiwn | Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth ariannol |
|---|---|---|---|---|
| | Bandiau o £5,000 | I'r £100 agosaf | I'r £1,000 agosaf | Bandiau o £5,000 |
| Anthony Barrett | 120-125 | 16,400 | 51 | 190-195 |
| Kevin Thomas | 120-125 | 19,700 | 47 | 185-190 |
| Mike Usher | 105-110 | – | 25 | 130-135 |
| Steve O'Donoghue | 90-95 | – | 47 | 135-140 |
| Jane Holownia (0.8FTE) | 85-90 | – | 37 | 125-130 |

207 Cyhoeddir gwybodaeth am dreuliau aelodau'r Tîm Arwain Gweithredol ar ein gwefan.

**Iawndal am golli swydd**

208 Ar 24 Chwefror 2020, cychwynnodd yr Archwilydd Cyffredinol gyfnod ymgynghori ffurfiol i ailstrwythuro'r Tîm Uwch Gyfarwyddwr. Rolau presennol yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol ac Arweinydd y Sector oedd dau o'r rolau a oedd mewn perygl ac, yn unol â pholisïau Ad-drefnu ac Adleoli, Ymadael yn Gynnar a Diswyddo Swyddfa Archwilio Cymru, gwahoddwyd aelodau o staff yr effeithiwyd arnynt i fynegi diddordeb mewn ymadael yn wirfoddol.

209 Ystyriwyd ceisiadau i ymadael yn wirfoddol gan Anthony Barrett (yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol) a Mike Usher (Arweinydd y Sector) gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol ar 19 Mawrth 2020, ac fe'u cymeradwywyd gan y Bwrdd. Rhoddodd y Bwrdd yr awdurdod i'r Prif Weithredwr bennu telerau'r ymadawiadau. Daw'r ymadawiadau i rym ar 30 Medi 2020.

210 Bydd Anthony Barrett yn cael taliad digolledu o £178,449 a bydd Mike Usher yn cael taliad digolledu o £140,000.

211 Bydd arbedion sy'n gysylltiedig â'r ymadawiadau hyn yn golygu bod cost yr iawndal yn cael ei hadennill o fewn 22 mis[49].

**Hawliau pensiwn ar gyfer aelodau'r Tîm Arwain Gweithredol**

212 Fel pob aelod o staff, mae gan aelodau'r Tîm Arwain Gweithredol fynediad at Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae manylion y cynllun hwn yn www.civilservicepensionscheme.org.uk.

213 Mae manylion yr hawliau pensiwn ar gyfer aelodau'r Tîm Arwain Gweithredol ar gael isod.

| | **Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2020** £'000 | **Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar oedran pensiwn** £'000 | **CETV ar 31 Mawrth 2020** £'000 | **CETV ar 31 Mawrth 2019** £'000 | **Cynnydd gwirioneddol mewn CETV** £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Anthony Barrett | 55-60 | 2.5-5 | 990 | 911 | 33 |
| Ann-Marie Harkin | 30-35 a chyfandaliad o 90-95 | 0-2.5 a chyfandaliad o | 726 | 686 | 11 |
| Steve O'Donoghue | 45-50 | 2.5-5 | 754 | 678 | 42 |
| Kevin Thomas | 65-70 | 2.5-5 | 1,079 | 996 | 32 |
| Mike Usher | 45-50 a chyfandaliad o 110-115 | 0-2.5 a chyfandaliad o 0 | 927 | 869 | 15 |
| Jane Holownia | 50-55 | 2.5-5 | 1,032 | 952 | 51 |

49 Heb fod yn destun archwiliad

## Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV)

214 Ystyr Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafog y buddion a gronnwyd gan aelod yn y cynllun pensiwn ar adeg benodol, wedi'i asesu'n actiwaraidd. Y buddion a gaiff eu prisio yw'r buddion a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolyn trwy gydol ei gyfnod fel aelod o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei gyfnod yn yr uwch swydd y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

215 Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnir gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan fydd buddion pensiwn yn cael eu cymryd.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

216 Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd o ganlyniad i chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddon a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Lluosrifau cyflog

217 Caiff y berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf a chydnabyddiaeth ariannol ganolrifol y gweithlu ei datgelu yn y tabl canlynol.

| | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol[50] y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf heb gynnwys cyfraniadau pensiwn (£'000) | 135-140 | 140-145 |
| Cyfanswm canolrifol y gydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar staff cyfwerth ag amser llawn (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn) | £45,569 | £45,858 |
| Amrediad cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol heb gynnwys cyfraniadau pensiwn | £16,381[51] - £137,473 | £16,381- £143,430 |
| Cymhareb cydnabyddiaeth ariannol | 3.02 | 3.13 |

218 Yn 2019-20, ni chafodd unrhyw weithwyr cyflogedig gydnabyddiaeth ariannol uwch na'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf (2018-19: dim).

219 Er tryloywder, roedd cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol, sef £147,570 (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn), yn gyfystyr â 3.24 gwaith cyfanswm canolrifol cydnabyddiaeth ariannol Swyddfa Archwilio Cymru (2018-19: £157,092[52], cymhareb: 3.43).

## Ymgysylltiadau oddi ar y gyflogres

220 Nid oedd gan Swyddfa Archwilio Cymru unrhyw gontractau yn ystod 2019-20 a oedd yn cyfateb i ddiffiniad Trysorlys EM o drefniadau oddi ar y gyflogres (2018-19: dim).

## Dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau

221 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu trefniadau diswyddo gwirfoddol yn unol â Chynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil a gofynion o ran cynllunio'r gweithlu.

50 Mae cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog a lwfans teithio. Yn achos y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf mae hefyd yn cynnwys treuliau trethadwy.

51 Lleoliad gwaith i raddedigion.

52 Yn seiliedig ar gyflogau a dalwyd i Huw Vaughan Thomas hyd at 20 Gorffennaf 2018 ac Adrian Crompton o 21 Gorffennaf 2018 tan 31 Mawrth 2019.

222 Ystyrir ceisiadau i ymadael yn wirfoddol gan ddefnyddio templed achos busnes sy'n sgorio'r ad-daliad disgwyliedig, gofynion y gweithlu yn y dyfodol ac unrhyw risgiau parhad busnes posibl. Caiff achosion busnes eu hystyried a'u llywio gan y Tîm Cyfarwyddwyr cyn i'r Tîm Arwain Gweithredol benderfynu arnynt. Mae ceisiadau gan uwch gyfarwyddwyr, ac unrhyw geisiadau sy'n cael eu cynnig i'w cymeradwyo gyda chost o £95,000 neu uwch, yn destun gwaith craffu pellach gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol a chymeradwyaeth derfynol gan Fwrdd llawn Swyddfa Archwilio Cymru.

223 Cost y cynllun yn 2019-20 oedd £638,687 (2018-19: £383,654). Ar gyfer 2019-20, mae'r gost yn cynnwys cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr fel sy'n ofynnol yn y Gyllideb a gyhoeddwyd gan y Canghellor ym mis Mawrth 2020.

224 Bydd yr ymadawiadau y cytunwyd arnynt yn cyflawni arbedion o oddeutu £322,000[53] y flwyddyn (2018-19: £242,000). Bydd y gost yn cael ei hadennill o fewn 19 mis.

225 Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol yn adolygu effeithiolrwydd cynlluniau ymadael yn wirfoddol o bryd i'w gilydd, gan edrych dros gyfnod hwy nag un flwyddyn yn unig. Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf ym mis Mawrth 2019, gan gwmpasu'r blynyddoedd 2014 i 2018. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad, dros y cyfnod dan sylw, fod cyfanswm o £1.7 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn taliadau ymadael yn wirfoddol a oedd wedi sicrhau arbedion blynyddol parhaus o £870,000[54].

226 Yn ystod 2019-20, cytunodd naw o weithwyr cyflogedig (2018-19: wyth) i dderbyn pecynnau ymadael wedi'u cymeradwyo fel y nodir isod.

227 Ni wnaeth unrhyw aelodau o staff ymddeol yn gynnar ar sail iechyd yn ystod y flwyddyn (2018-19: dim).

228 Ni chafwyd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol yn 2019-20 (2018-19: dim).

| | **Nifer y pecynnau ymadael yn ôl band costau** | |
|---|---|---|
| | **2019-20** | **2018-19** |
| Llai na £25,000 | 3 | 3 |
| £25,001-£50,000 | 2 | 2 |
| £50,001-£100,000 | 2 | 2 |
| £100,001-£150,000 | 1 | – |
| £150,001-£200,000 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **9** | **8** |

53 Heb fod yn destun archwiliad

54 Heb fod yn destun archwiliad

# Adroddiad staff

## Uwch arweinwyr

229 Mae’r tabl canlynol yn nodi nifer yr uwch aelodau o staff yn ôl band cyflog ar 31 Mawrth 2020.

| | **31 Mawrth 2020** | **31 Mawrth 2019** |
|---|---|---|
| Band A (£96,258-£119,293) | 2 | 2 |
| Band B (£82,594-£106,625) | 2 | 3 |
| Band C (£73,579-£91,600) | 7 | 7 |
| **Cyfanswm** | **11** | **12** |

## Niferoedd Staff

230 Bu gostyngiad o wyth yn nifer y staff parhaol a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn: wedi’i osod yn erbyn cynnydd cyfatebol yn nifer y staff ar gytundebau cyfnod penodol. Mae hyn yn unol â’n hamcan cynllunio’r gweithlu (gyda chefnogaeth Cronfa Gyfunol Cymru) i gynyddu cyfleoedd ar gyfer hyfforddeion graddedig a phrentisiaid.

| | **2019-20** | **2018-19** |
|---|---|---|
| Nifer y staff parhaol cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn y DU yn ystod y flwyddyn, ar gyfartaledd | 195 | 203 |
| Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd ar gontractau cyfnod penodol yn y DU yn ystod y flwyddyn, ar gyfartaledd | 62 | 54 |
| Contractwyr archwilio ac arolygu (nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn) | 6 | 7 |
| **Cyfanswm** | **263** | **264** |

## Staff a chostau cysylltiedig

| | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Cyflogau staff | 11,477 | 11,440 |
| Staff a secondiwyd i mewn | 74 | 39 |
| Staff ar gontractau byrdymor | 242 | 223 |
| Cydnabyddiaeth ariannol aelodau anweithredol | 63 | 63 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,356 | 1,340 |
| Costau pensiwn (PCSPS) | 3,097 | 2,425 |
| Costau pensiwn (pensiynau rhanddeiliaid) | 49 | 33 |
| | **16,358** | **15,563** |
| Lwfans teithio a cheir ar brydles | 638 | 659 |
| Tanysgrifiadau[55] | 83 | 72 |
| | **17,079** | **16,294** |
| Contractwyr archwilio ac arolygu | 135 | 110 |
| | **17,214** | **16,404** |
| Costau dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau | 888 | 458 |
| Namyn arian a gafwyd mewn perthynas â secondiadau i'r tu allan | (372) | (388) |
| | **17,730** | **16,474** |

55 Ffioedd ar gyfer aelodaeth o gyrff proffesiynol, profion llygaid ac archwiliadau iechyd.

**Gwasanaethau a brynwyd i mewn**[56]

| | 2019-20 £'000 | 2018-19 £'000 |
|---|---|---|
| Taliadau i gwmnïau cyfrifyddu preifat | 679 | 860 |
| Costau ymchwil a chostau ymgynghori eraill | 222 | 239 |
| | **901** | **1,099** |

231 Mae'r costau hyn yn ymwneud â gwasanaethau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â swyddogaethau archwilio, arolygu, cynghori neu ymchwil. Yn 2018-19, roeddent hefyd yn cynnwys costau eilflwydd sy'n gysylltiedig â'r Fenter Twyll Genedlaethol.

232 Roedd costau ymgynghori yn cynnwys:

- £43,000 a dalwyd i Swyddfa'r Cabinet am waith sy'n gysylltiedig â'r Fenter Twyll Genedlaethol
- £41,000 ar gyfer gwaith sicrhau ansawdd archwilio
- £32,000 ar gyfer cymorth ymgynghorol ar y system rheoli archwilio perfformiad
- £25,000 am gymorth i brosiect Enw Da ac Effaith Archwilio Cymru
- £22,000 ar gyngor adnoddau dynol allanol

**Nid yw'r wybodaeth ganlynol ar dudalennau 88 i 93 yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn cael ei harchwilio**

**Polisïau staff, cydraddoldeb ac amrywiaeth**

233 Mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gydymffurfio â'r fframwaith diogelu rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

234 Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i gydymffurfio â'r confensiynau a nodwyd yn Neddf Hawliau Dynol 1998. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb, gan gynnwys ein staff ein hunain a'r rhai rydym yn dod i gysylltiad â hwy fel rhan o'n gwaith, ac rydym yn llawn gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

56 Heb gynnwys TAW.

235 Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb a'n hamcanion cysylltiedig. Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2018-19 yn darparu gwybodaeth am faterion cyflogaeth megis materion amrywiaeth a thriniaeth gyfartal mewn cyflogaeth. Bydd ein hadroddiad ar gyfer 2019-20 yn cael ei gyhoeddi yn haf 2020, a bydd hwn yn cynnwys manylion y bwlch cyflog rhwng y rhywiau am y flwyddyn.

236 Mae ein Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau y caiff pob aelod o staff â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys nam) ei drin yn deg ac yn gyfartal ym mhob agwedd ar gyflogaeth. Mae'r polisi yn darparu ar gyfer cydraddoldeb wrth ddethol ym maes cyflogi, recriwtio, dyrchafu, dysgu a datblygu a/neu unrhyw fudd arall, yn seiliedig yn llwyr ar gymhwysedd a gallu yn unol â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth gysylltiedig.

### Cyfansoddiad staff (nifer y bobl a gyflogir ar 31 Mawrth 2020)

| | Gwryw | Benyw | Dim data |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr | 10 | 1 | – |
| Gweithwyr cyflogedig eraill | 110 | 147 | 3 |
| **Cyfanswm** | **120** | **148** | **3** |


### Absenoldeb salwch

| | 2019-20 Diwrnodau | 2018-19 Diwrnodau |
|---|---|---|
| Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul aelod o staff | 5.8 | 6.7 |
| • Oherwydd absenoldeb tymor byr | 3.9 | 3.1 |
| • Oherwydd absenoldeb tymor hir (cyfnodau > 21 diwrnod) | 1.9 | 3.6 |

237 Fe wnaeth lefelau salwch ein staff wella gan ychydig o dan un diwrnod rhwng 2018-19 a 2019-20 ac, am y tro cyntaf yn y blynyddoedd diwethaf, maent wedi disgyn yn is na'n targed o chwe diwrnod. Mae'r lefel salwch cyffredinol hon 2.6 diwrnod yn llai na meincnod y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) [57].

238 Er mwyn helpu ein gweithwyr cyflogedig i reoli eu hiechyd, mae gennym broses Sgrinio Iechyd, Rhaglen Cymorth i Weithwyr Cyflogedig, Hyrwyddwyr Iechyd Meddwl a rhaglen o ddigwyddiadau ymwybyddiaeth llesiant.


**Absenoldeb salwch staff rhwng 2016-17 a 2019-20**




57 Cymedr o 8.4 diwrnod fesul gweithiwr cyflogedig y flwyddyn ar gyfer y sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus hynny a ymatebodd i 2019 CIPD Health and Well-Being at Work Survey.

## Ein gweithlu

| | 2019-20<br>% | 2018-19<br>% |
|---|---|---|
| **Patrymau gweithio** | | |
| Gweithwyr cyflogedig rhan-amser fel canran o'r cyfanswm | 18.5 | 18.6 |
| • I ddynion | 7.5 | 5.2 |
| • I fenywod | 27.7 | 26.5 |
| • Dim ymateb | 0 | 26.7 |
| **Math o gontract cyflogaeth** | | |
| Canran y staff ar gontractau parhaol | 75.4 | 76.9 |
| **Trosiant** | | |
| Canran flynyddol trosiant staff | 14.3 | 10.1 |



239 Mae cyfran y gweithwyr cyflogedig rhan-amser wedi aros fwy neu lai yr un fath â 2018-19.

240 Esbonnir y cynnydd ymddangosiadol ar gyfer gweithwyr cyflogedig gwrywaidd a benywaidd gan gynnydd yn nifer y gweithwyr cyflogedig a ddarparodd wybodaeth am eu rhyw yn 2019-20.

241 Gostyngodd canran y staff ar gontractau cyflogaeth parhaol, gan adlewyrchu cynnydd yn nifer yr hyfforddeion graddedig a phrentisiaid ar gontractau hyfforddi cyfnod penodol.

242 Cynyddodd ein cyfradd trosiant staff flynyddol yn 2019-20 i 14.3%, gan adlewyrchu hefyd y niferoedd cynyddol o hyfforddeion graddedig a phrentisiaid a gyflogwyd ar gontractau cyfnod penodol sy'n dod i ben ac yn cael eu disodli gan ddechreuwyr newydd.

**Amser Cyfleusterau Undebau Llafur**

243 Mae polisi Swyddfa Archwilio Cymru ar amser Undebau Llafur yn ymrwymo i amser taledig ar gyfer dyletswyddau undebau llafur sy'n cyfateb i 0.6 diwrnod ar gyfer pob gweithiwr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn[58].

244 Ar gyfer 2019-20, roedd hyn yn cyfateb i ddyraniad o 152 diwrnod ar gyfer gweithgareddau undebau llafur. Yn 2019-20, roedd yr amser a dreuliwyd yn cyfateb i 96 diwrnod.

245 Darperir data ar amser a chostau yn 2019-20 fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 isod.

58 Yn seiliedig ar 253 o weithwyr cyflogedig FTE ym mis Ebrill 2019.

### Swyddogion undeb perthnasol

| Nifer y gweithwyr cyflogedig a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod 2019-20 | Nifer y gweithwyr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn |
|---|---|
| 2 | 0.3 |

### Canran yr amser a dreulir ar amser cyfleuster

| Canran yr amser | Nifer y gweithwyr cyflogedig |
|---|---|
| 1-50% | 2 |

### Canran y bil cyflog sy’n cael ei wario ar amser cyfleuster

| | |
|---|---|
| Cost amser cyfleuster | £37,164 |
| Cyfanswm y bil cyflog | £16.439m |
| Canran cyfanswm y bil cyflog sy'n cael ei wario ar amser cyfleuster | 0.2% |

# Alldro adnoddau ac adroddiad yr archwilydd

## Crynodeb o alldro adnoddau 2019-20

**Caiff yr wybodaeth ar dudalennau 94 i 98 ei harchwilio.**

246 Mae'r datganiad hwn yn cymharu'r Amcangyfrif[59] ar gyfer 2019-20, fel y pleidleisiodd y Senedd arno, gydag incwm a gwariant gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn.

### Crynodeb o alldro adnoddau 2019-20

| | | Amcangyfrif 2019-20 | | | Alldro 2019-20 | | | | Alldro 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nodyn | | Gwariant Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Alldro net o gymharu â'r amcangyfrif | Cyfanswm Net |
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | £'000 |
| SORO1 | Refeniw | 22,443 | (14,775) | 7,668 | 22,336 | (14,775) | 7,561 | (107) | 6,741 |
| SORO1 | Cyfalaf | 210 | — | 210 | 188 | — | 188 | (22) | 210 |
| SORO1 | Cyfanswm Adnoddau | 22,653 | (14,775) | 7,878 | 22,524 | (14,775) | 7,749 | (129) | 6,951 |
| SORO 2 | Cyfanswm gofyniad arian parod | – | – | 9,586 | – | – | 7,982 | (1,604) | 5,285 |

59 Ail Amcangyfrif Atodol 2019-20.

247 Yn codi o weithrediadau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20:

- roedd cyfanswm yr alldro net ar adnoddau refeniw £107,000 yn llai na'r adnoddau net cymeradwy o £7,668,000;
- roedd yr adnoddau cronedig £31,000 yn fwy nag y darparwyd ar ei gyfer yn yr amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn (gweler y nodiadau isod), mae hwn yn cael ei ildio i Gronfa Gyfunol Cymru;
- roedd yr alldro ar wariant cyfalaf £22,000 yn llai na'r gyllideb gyfalaf gymeradwy o £210,000; a
- dangosir gweddill yr arian parod sydd gan Swyddfa Archwilio Cymru (£1,604,000) fel swm sy'n ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru.

248 Darperir eglurhad o effeithlonrwydd costau yn Swyddfa Archwilio Cymru yn y crynodeb rheolaeth ariannol ar dudalen 25.

249 Llywodraethir incwm ffioedd archwilio gan y Cynllun Ffioedd a gymeradwywyd gan y Senedd. Dadansoddir yr incwm hwn yn **Nodyn 1** i'r Datganiadau Ariannol.

## Nodiadau i'r crynodeb o alldro adnoddau

### Nodyn SORO1: cysoni'r alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net

| | 2019-20 | | | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|
| | **Amcangyfrif** | **Alldro** | **Amrywiant** | **Alldro** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Adnoddau refeniw | 7,668 | 7,561 | (107) | 6,741 |
| Adnoddau cyfalaf | 210 | 188 | (22) | 210 |
| **Addasiadau** | | | | |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod (dibrisiant a cholled wrth waredu ased) | (200) | (261) | (61) | (284) |
| Gweddill arian parod ar 1 Ebrill 2019 | (1,776) | (1,776) | - | (3,017) |
| Yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru 2019-20 | 1,776 | 1,776 | - | 723 |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian parod: | | | | |
| • Cynnydd/(gostyngiad) mewn masnach derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo | (2,598) | 543 | 3,141 | 1,051 |
| • Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy ac incwm gohiriedig | 3,909 | 219 | (3,690) | (152) |
| • Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau | 597 | (237) | (834) | 181 |
| Incwm y tu hwnt i'r amcangyfrif | – | (31) | (31) | (168) |
| **Cyfanswm gofyniad arian parod net** | **9,586** | **7,982** | **(1,604)** | **5,285** |

### Nodyn SORO2: cysoni alldro adnoddau â gwariant net

| | 2019-20 Alldro £'000 | 2018-19 Alldro £'000 |
|---|---|---|
| Cyfanswm adnoddau refeniw | 7,561 | 6,741 |
| Incwm y tu hwnt i'r amcangyfrif | (31) | (168) |
| **Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr** | **7,530** | **6,573** |

### Nodyn SORO3: crynodeb o alldro adnoddau net 2019-20

| Alldro 2018-19 £'000 | | Amcangyfrif 2019-20 £'000 | Alldro 2019-20 £'000 | Amrywiant £'000 | Rheswm dros amrywiannau sylweddol yn erbyn yr Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Treuliau** | | | | |
| 15,186 | Costau staff | 16,217 | 16,420 | 203 | Yn cynnwys costau'r cynllun Ymadael yn Wirfoddol sy'n cael eu gwrthbwyso gan arbedion ar gyllidebau staffio. |
| 333 | Staff contractwyr | 737 | 377 | (360) | Amcangyfrif yn cynnwys cyllid ar gyfer Dadansoddi Data a ddefnyddir i ariannu costau staff |
| 1,205 | Teithio a chynhaliaeth | 1,216 | 1,083 | (133) | Yn gysylltiedig â ffyrdd diwygiedig o weithio |
| 992 | Cwmnïau yn y sector preifat (gan gynnwys TAW) | 905 | 810 | (95) | Rhyddhau darpariaeth a wnaed yn 2018-19 |
| 907 | Swyddfeydd | 993 | 938 | (55) | Gohirio'r gwaith y bwriedir ei gynnal ym mis Mawrth 2020 |
| 490 | Gweddill TAW na ellir ei hadennill | 500 | 530 | 30 | |
| 392 | TGCh | 480 | 408 | (72) | Cyllideb yn cynnwys ymgynghoriaeth allanol a godir ar ffioedd proffesiynol |
| 296 | Trefniadau Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru | 300 | 295 | (5) | Mae costau'r Cadeirydd bellach yn dâl uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru |

| Alldro 2018-19 £'000 | | Amcangyfrif 2019-20 £'000 | Alldro 2019-20 £'000 | Amrywiant £'000 | Rheswm dros amrywiannau sylweddol yn erbyn yr Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|---|
| 259 | Hyfforddiant allanol | 289 | 259 | (30) | Tanwariant ar hyfforddiant i raddedigion oherwydd eithriadau arholiadau |
| 234 | Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 162 | 219 | 57 | Yn cynnwys cymorth ychwanegol ar gyfer seiberddiogelwch a'r rhaglen gwerth am arian. |
| 142 | Cyfieithu dogfennau | 165 | 105 | (60) | Arbedion o leihau cyfrif geiriau mewn adroddiadau o ganlyniad i brosiect Enw Da ac Effaith |
| 136 | Casglu data'r Fenter Twyll Genedlaethol | – | 49 | 49 | Costau ychwanegol Swyddfa'r Cabinet yn ystod y flwyddyn |
| – | Targed arbedion 2019-20 | (574) | - | 574 | Arbedion a wnaed ar draws meysydd eraill y gyllideb |
| 813 | Costau eraill | 1,053 | 843 | (210) | Arbedion a wnaed yn ystod y flwyddyn ar draws gwahanol gyllidebau |
| 21,385 | Cyfanswm Treuliau | 22,443 | 22,336 | (107) | |
| | Incwm | | | | |
| (13,562) | Ffioedd archwilio | (13,577) | (13,556) | 21 | |
| (1,233) | Ffioedd ardystio grantiau | (1,198) | (1,240) | (42) | |
| (17) | Incwm arall | – | (10) | (10) | |
| 168 | Incwm y tu hwnt i'r amcangyfrif | – | 31 | 31 | |
| (14,644) | Cyfanswm incwm | (14,775) | (14,775) | (107) | |
| 6,741 | Adnoddau refeniw net | 7,668 | 7,561 | (107) | |
| 210 | Adnoddau cyfalaf | 210 | 188 | (22) | |

250 Mae'r Senedd yn pleidleisio bob blwyddyn ar wariant ac incwm cyllidebol Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol.

251 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol o unrhyw rwymedigaethau pell wrth gefn a fydd yn effeithio ar gynlluniau gwariant hirdymor.

252 Datgelir unrhyw daliadau arbennig a cholledion datgeladwy yn 2019-20 yn **Nodyn 14** i'r Datganiadau Ariannol.

## Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i'r Senedd

### Barn ar y datganiadau ariannol

253 Ardystiwn ein bod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 o dan Atodlen 1 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifoedd Arian Parod, y Datganiad o Newidiadau o ran Ecwiti Trethdalwyr, a nodiadau cysylltiedig. Rydym hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad.

254 Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan Drysorlys EM o dan Ddeddf 2013.

255 Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa busnes Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2020 a'i gost weithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- pharatoi'n briodol yn unol â'r cyfarwyddiadau gan Drysorlys EM o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

### Barn ar reoleidd-dra'r datganiadau ariannol

256 Rydym wedi cyflawni gwaith, fel sy'n ofynnol o dan Atodlen 1 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, er mwyn cael sicrwydd rhesymol bod y gwariant y mae'r datganiad yn cyfeirio ato wedi'i ysgwyddo mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac na wariwyd yr arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

257 Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae’r gwariant y mae’r datganiad yn ymwneud ag ef wedi’i ysgwyddo mewn modd cyfreithlon ac yn unol â’r awdurdod sy’n ei lywodraethu; ac
- ni wariwyd yr arian y mae’r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu’r dibenion hynny.

### Sail y farn am y datganiadau ariannol

258 Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU a chyfraith gymwys. Caiff ein cyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn yr adran o’n hadroddiad sy’n ymdrin â chyfrifoldebau’r Archwilydd am archwilio’r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol ar Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â’r gofynion moesegol sy’n berthnasol i’n harchwiliad o’r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â’r gofynion hyn.

259 Rydym hefyd yn archwilio’r Crynodeb o Alldro Adnoddau a nodiadau cysylltiedig â’r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Atebolrwydd y nodir ei bod wedi’i harchwilio yn yr adroddiad.

260 Credwn fod y dystiolaeth archwilio rydym wedi’i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i’n barn.

### Sail y farn am reoleidd-dra’r datganiadau ariannols

261 Mae’n ofynnol i ni gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant y mae’r datganiad yn ymwneud ag ef wedi’i ysgwyddo mewn modd cyfreithlon ac yn unol â’r awdurdod sy’n ei lywodraethu ac na wariwyd yr arian hwnnw y mae’r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu’r dibenion hynny. Rydym wedi cyflawni ein gwaith yn unol â Datganiad o Arfer a Argymhellir, Nodyn Ymarfer 10 Archwilio datganiadau ariannol cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig yn hyn o beth.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

262 Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw defnydd Swyddfa Archwilio Cymru nac Archwilydd Cyffredinol Cymru o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw Swyddfa Archwilio Cymru nac Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r cwmni i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

## Gwybodaeth arall

263 Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwilydd arnynt. Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

264 Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth ni a gafwyd yn yr archwiliad neu'n ymddangos fel arall fel pe bai'n cynnwys camddatganiad perthnasol. Os down i'r casgliad, ar sail ein gwaith, fod camddatganiad perthnasol yn yr wybodaeth arall hon, rhaid i ni nodi hynny.

265 Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi yn hyn o beth.

## Barn am faterion eraill

266 Yn ein barn ni:

- mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau a'r rhan o'r Adroddiad ar Atebolrwydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM o roddwyd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Cyfrifoldebau Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

267 Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a nodir ar dudalen 53, mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y cyfarwyddwyr i allu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

268 Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am asesu gallu Swyddfa Archwilio Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol onid yw'r Senedd yn bwriadu diddymu Swyddfa Archwilio Cymru heb i'w gweithrediadau barhau.

269 Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y gwariant y mae'r datganiad yn cyfeirio ato wedi'i ysgwyddo mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac na wariwyd yr arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

270 Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

271 Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilydd.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am roi barn am reoleidd-dra'r datganiadau ariannol

272 Rydym hefyd yn gyfrifol am roi barn sicrwydd rhesymol bod y gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef wedi'i ysgwyddo mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac na wariwyd yr arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

## Defnydd o'n hadroddiad

273 Cyflwynir yr adroddiad hwn i Senedd Cymru y mae wedi'i gyfeirio ato ac i'r corff hwnnw yn unig yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ac nid at unrhyw ddiben arall. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan wrth y Senedd y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrtho mewn adroddiad archwilydd, ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un arall heblaw am y Senedd am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Mae RSM UK Audit LLP wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn eu ffurf wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol yw'r fersiwn hon. Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hwn, ac nid RSM UK Audit LLP.

RSM UK Audit LLP
12 Mehefin 2020
Archwilwyr Statudol
Third Floor
One London Square
Cross Lanes
Guildford
GU1 1UN

# Datganiadau Ariannol

03

# Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

| | Nodyn | 2019-20<br>£'000 | 2018-19<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff a chostau cysylltiedig | Adroddiad staff[60] | 17,730 | 16,474 |
| Gwasanaethau a brynwyd i mewn | Adroddiad staff | 901 | 1,099 |
| Costau gweithredu eraill | 3 | 3,705 | 3,812 |
| | | **22,336** | **21,385** |
| **Incwm** | | | |
| Incwm o ffioedd archwilio | 1 | (14,796) | (14,795) |
| Incwm gweithredu arall | 2 | (10) | (17) |
| | | (14,806) | (14,812) |
| **Cyfanswm y gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **7,530** | **6,573** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 111 i 130 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn**

274 Ni chafwyd unrhyw weithrediadau a derfynwyd, caffaeliadau na gwarediadau yn ystod y cyfnod nac unrhyw enillion na cholledion anghydnabyddedig.

60 Nodyn costau staff ar dudalen 66 o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff.

# Datganiad o’r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2020

| | Note | 31 Mawrth 2020 £’000 | 31 Mawrth 2019 £’000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 517 | 572 |
| Asedau anniriaethol | 5 | 162 | 180 |
| | | **679** | **752** |
| Asedau cyfredol | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sy’n mynd rhagddo | 6 | 3,002 | 2,436 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 7 | 580 | 603 |
| Arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod | 8 | 1,604 | 1,776 |
| | | **5,186** | **4,815** |
| **Cyfanswm asedau** | | **5,865** | **5,567** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 9 | (2,043) | (2,117) |
| Incwm gohiriedig | 10 | (2,191) | (2,336) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 11 | (824) | (617) |
| WCF | SORO | (1,604) | (1,776) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(6,662)** | **(6,846)** |
| **Cyfanswm yr asedau namyn rhwymedigaethau cyfredol** | | **(797)** | **(1,279)** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill | 11 | (652) | (622) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(652)** | **(622)** |

| | Note | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm yr asedau namyn rhwymedigaethau** | | **(1,449)** | **(1,901)** |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | **(1,449)** | **(1,901)** |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | **(1,449)** | **(1,901)** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 111 i 130 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn**

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 84 i 106 gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac fe’u hawdurdodwyd i’w cyhoeddi ar 17 Mehefin 2020 ac fe’u llofnodir ar ei ran gan:



**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu

17 Mehefin 2020

# Datganiad o lifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

| | Note | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net cynhwysfawr | | (7,530) | (6,573) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol: dibrisiant, amorteiddiad a cholled wrth waredu asedau | 3 | 261 | 284 |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn darpariaethau | 11 | 237 | (181) |
| **Newidiadau mewn cyfalaf gweithio** | | | |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 6,7 | (543) | (1,051) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 9,10 | (219) | 152 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(7,794)** | **(7,369)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 4 | (158) | (160) |
| Prynu asedau anniriaethol | 5 | (30) | (50) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(188)** | **(210)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau ariannu** | | | |
| WCF | | 9,586 | 7,061 |
| Ad-daliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | | (1,776) | (723) |
| **Ariannu net** | | **7,810** | **6,338** |
| **Symudiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | | **(172)** | **(1,241)** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 111 i 130 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn**

# Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

| | **£'000** |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **(613)** |
| Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2018-19 | |
| Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr | (6,573) |
| Cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru | 7,061 |
| | **(125)** |
| Yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru | (1,776) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **(1,901)** |
| Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2019-20 | |
| Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr | (7,530) |
| Cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru | 9,586 |
| | **155** |
| Yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru | (1,604) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **(1,449)** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 111 i 130 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn**

# Nodiadau i’r datganiadau ariannol

275 Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2019-20 (FReM), a gyhoeddwyd gan yr awdurdodau perthnasol.

## Sail y paratoi

276 Mae’r polisïau cyfrifyddu yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan yr UE fel y’u haddaswyd neu’u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

277 Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y confensiwn cost hanesyddol. Cyflwynir ffigurau mewn punnoedd sterling, sef arian cyfred gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru, ac maent wedi’u talgrynnu i’r £1,000 agosaf.

278 Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol fel y nodir isod:

279 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio yn unol â threfniadau ariannu blynyddol drwy statud. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn nodi bod **rhaid** i Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu adnoddau ar gyfer arfer swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol fel sy’n ofynnol gan yr Archwilydd Cyffredinol. Bydd yr adnoddau hyn ar gael drwy’r Senedd (arian a bleidleisir).

280 Mae’r ddeddfwriaeth yn nodi ymhellach fod rhaid i’r Senedd ystyried Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru yn flynyddol a phwyso a mesur unrhyw sylwadau mae Swyddfa Archwilio Cymru yn eu gwneud os yw am newid yr Amcangyfrif hwn.

281 Roedd yr Amcangyfrif ar gyfer 2020-21 yn cynnwys disgwyliad y byddai incwm ffioedd o £14 miliwn yn cael ei ddarparu yn ystod y flwyddyn. O ystyried effaith y pandemig COVID-19, mae’n ymddangos yn annhebygol bellach y caiff yr incwm hwn ei gyflenwi’n llawn. Mae llythyr wedi’i anfon at Bwyllgor Cyllid y Senedd i’w hysbysu ei bod hi’n debygol y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gofyn am Amcangyfrif Atodol yn ystod 2020-21 i wrthbwyso’r diffyg hwn mewn incwm ffioedd. Bydd gwaith yn cael ei wneud yn ystod haf 2020 i asesu’r effaith debygol ar incwm ffioedd i’w adlewyrchu mewn Amcangyfrif Atodol yn hydref 2020.

282 Er mai dim ond am naw mis ar ôl dyddiad llofnodi’r datganiadau hyn y mae cyllid y pleidleisiwyd arno wedi cael ei gymeradwyo, caiff Amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol ei gyflwyno i Bwyllgor Cyllid y Senedd yn ystod yr hydref yn y flwyddyn bresennol.

283 Nid oedd Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i dalu treth gorfforaeth yn 2019-20.

## Amcangyfrifon cyfrifyddu critigol a meysydd barn

Mae'r broses o **gydnabod refeniw** yn seiliedig ar yr amser a godir ar brosiectau wedi'i addasu lle y bo'n berthnasol i adlewyrchu cam cwblhau'r gwaith a wnaed. Cynhelir asesiad ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn ystyried rhesymoldeb incwm a gydnabyddir gan ystyried cost cwblhau prosiectau archwilio.

Fel sy'n ofynnol yn ôl IFRS 15 (Refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid) mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi penderfynu bod rhwymedigaethau perfformiad ar gyfer pob ymgymeriad archwilio'n cael eu bodloni dros amser yn hytrach nac ar adeg benodol mewn amser. Mae hyn yn gyson â'r driniaeth mewn blynyddoedd blaenorol ac nid yw wedi cael unrhyw effaith berthnasol ar y modd y caiff incwm ei gydnabod yn y datganiadau ariannol hyn neu ddatganiadau ariannol ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

Mae'r polisi cyfrifyddu hwn yn cael effaith uniongyrchol ar brisio incwm ffioedd archwilio (**Nodyn 1**), gwaith sy'n mynd rhagddo (**Nodyn 6)** ac incwm gohiriedig (**Nodyn 10**) yn y datganiadau ariannol hyn, ond nid oedd gofyniad i ailddatgan balansau mewn blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i weithredu'r safon gyfrifyddu newydd hon.

Gwneir **darpariaethau** lle mae'n fwy tebygol na pheidio, ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, fod rhwymedigaeth ariannol yn bodoli na ellir ei hamcangyfrif yn gywir ar hyn o bryd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau'n rhoi amcangyfrif o'r costau y gallai Swyddfa Archwilio Cymru eu hysgwyddo wrth wella'r eiddo a brydlesir ganddi ar ddiwedd y prydlesi.

Cronnodd y ddarpariaeth hon drwy dâl dadfeiliadau blynyddol, a gyfrifwyd drwy gymhwyso cyfradd ddadfeilio flynyddol i arwynebedd llawr yr asedau ar brydles.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ailstrwythuro'r tîm uwch yn seiliedig ar amcangyfrif o'r costau posibl sy'n gysylltiedig â'r broses hon na fyddant yn cael eu cadarnhau tan haf 2020.

Gweler **Nodyn 11** am fwy o wybodaeth.

## Safonau cyfrifyddu newydd

284 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn datgelu safonau cyfrifyddu nad ydynt wedi'u cyflwyno eto, gan asesu effaith bosibl cyflwyno'r safonau ar y datganiadau ariannol.

285 Bydd un safon nad yw'n weithredol eto yn cael effaith ar gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru, sef Prydlesi IFRS 16. Mae'r safon hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob prydles arwyddocaol gael ei nodi yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Mae'r broses o fabwysiadu'r safon hon gan yr FReM wedi'i gohirio tan 2020-21. Mae'r effaith a ragwelir ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i datgelu yn **Nodyn 15** – Prydlesi.

### Nodyn 1 (a): Segmentau gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru

286 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cofnodi incwm a gwariant ar ei dwy brif swyddogaeth archwilio y codir ffioedd amdanynt a hefyd ar gyfer gweithgareddau a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

**2019-20**

| | Archwilio Ariannol £'000 | Archwilio Perfformiad £'000 | Gweithgareddau a ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ffioedd archwilio[61] | (10,818) | (3,978) | - | (14,796) |
| Incwm arall | - | - | (10) | (10) |
| Cyfanswm incwm | (10,818) | (3,978) | (10) | (14,806) |
| Gwariant | 11,424 | 3,372 | 7,540 | 22,336 |
| | **606** | **(606)** | **7,530**[62] | **7,530** |

61 Gweler nodyn 1(b)
62 Gweler y Cysoniad â'r Datganiad o Alldro Adnoddau

**2018-19**

| | Archwilio Ariannol | Archwilio Perfformiad | Gweithgareddau a ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ffioedd archwilio | (11,265) | (3,530) | - | (14,795) |
| Incwm arall | - | - | (17) | (17) |
| Cyfanswm incwm | (11,265) | (3,530) | (17) | (14,812) |
| Gwariant | 11,681 | 3,114 | 6,590 | 21,385 |
| | **416** | **(416)** | **6,573** | **6,573** |

### Cysoniad â'r Datganiad o Alldro Adnoddau

| | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Gweithgareddau a ariannwyd trwy Gronfa Gyfunol Cymru yn unol â **Nodyn 1** | | 6,573 |
| Incwm y tu hwnt i'r amcangyfrif | 31 | 168 |
| Adnoddau refeniw net | 7,561 | 6,741 |

### Nodyn 1 (b): Dadansoddiad o incwm o ffioedd archwilio

| | 2019-20 | | | 2018-19 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Archwilio Ariannol | Archwilio Perfformiad | Cyfanswm | Archwilio Ariannol | Archwilio Perfformiad | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Archwilio Llywodraeth Leol | (5,505) | (2,636) | (8,141) | (6,085) | (2,191) | (8,276) |
| Ardystio Grantiau Llywodraeth Leol | (1,240) | - | (1,240) | (1,233) | | (1,233) |
| Archwilio'r GIG | (1,974) | (1,342) | (3,316) | (1,871) | (1,337) | (3,208) |
| Archwilio Llywodraeth Ganolog | (2,099) | - | (2,099) | (2,076) | (2) | (2,078) |
| | (10,818) | (3,978) | (14,796) | (11,265) | (3,530) | (14,795) |

287 Pennir y ffioedd a godir am waith archwilio yn unol â Chynllun Ffioedd y cytunwyd arno gan Bwyllgor Cyllid y Senedd.

288 Cydnabyddir incwm ffioedd gros ac incwm gweithredu arall yn seiliedig ar werth gwaith y codir tâl amdano heb gynnwys TAW. Caiff y gwerth hwn ei asesu drwy gyfeirio at daliadau amser a cham cwblhau prosiectau.

289 Caiff incwm gweithredu, p'un a ddaw drwy grantiau uniongyrchol gan y llywodraeth neu ffioedd a godir ar gyrff a archwilir, ei gredydu i'r flwyddyn gyfrif y gwneir y gwaith ynddi. Caiff anfonebau a godir cyn i'r gwaith gael ei wneud ei ddosbarthu'n incwm gohiriedig (gweler **Nodyn 10**). Caiff gwaith a wneir cyn i'r incwm gael ei dderbyn ei ddosbarthu'n waith sy'n mynd rhagddo (gweler **Nodyn 6**).

290 Ni chaiff arian a dynnir o Gronfa Gyfunol Cymru ei ystyried yn grant uniongyrchol gan y llywodraeth a chaiff ei gredydu'n uniongyrchol i ecwiti trethdalwyr.

## Nodyn 2: Incwm gweithredu arall

| | 2019-20<br>£'000 | 2018-19<br>£'000 |
|---|---|---|
| Incwm gweithredu arall[63] | (10) | (17) |
| | (10) | (17) |

## Nodyn 3: Costau gweithredu eraill

| | 2019-20<br>£'000 | 2018-19<br>£'000 |
|---|---|---|
| Swyddfeydd | | |
| • Costau prydlesi rhent | 492 | 448 |
| • Costau llety eraill | 446 | 459 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau[64] | 1,641 | 1,650 |
| Recriwtio | 33 | 39 |
| Dibrisiant ac amorteiddio | 258 | 284 |
| Ffioedd proffesiynol | | |
| • Gwasanaethau archwilio mewnol | 42 | 44 |
| • Gwasanaethau archwilio allanol | 47 | 45 |
| • Ffioedd proffesiynol eraill | 46 | 38 |
| Teithio a chynhaliaeth staff | 445 | 546 |
| Hyfforddi a datblygu staff | 255 | 259 |
| | **3,705** | **3,812** |

63 Mae'n cynnwys taliadau am hyfforddiant a ddarperir, defnydd personol o ffonau symudol a thaliadau a ailgodir am luniaeth.

64 Yn cynnwys TAW anadenilladwy. Mae'r holl gyfansymiau eraill yn y nodyn hwn heb gynnwys TAW.

291 Yn 2019-20, cynhaliodd ein harchwilwyr allanol adolygiad gwerth am arian o'n cynllun teithio. Roedd gwariant a ysgwyddwyd ar hyn yn 2019-20 yn £24,000 ac mae wedi'i gynnwys o fewn ffioedd proffesiynol eraill. (2018-19: ni ddarparwyd unrhyw wasanaethau nad oeddent yn rhai archwilio.)

**Nodyn 4: Eiddo, offer a chyfarpar**

| | **Dodrefn a ffitiadau** | **Technoleg gwybodaeth** | **Offer swyddfa** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **2019-20** | | | | |
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 1,336 | 611 | 169 | 2,116 |
| Ychwanegiadau | 26 | 63 | 69 | 158 |
| Gwarediadau | (23) | - | (78) | (101) |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 1,339 | 674 | 160 | 2,173 |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2019 | | 359 | 136 | 1,544 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 67 | 118 | 25 | 210 |
| Gwarediadau | (20) | - | (78) | (98) |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 1,096 | 477 | 83 | 1,656 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 243 | 197 | 77 | 517 |
| Ar 31 Mawrth 2019 | | 252 | 33 | 572 |
| **Ariannu asedau** | | | | |
| A berchenogir | 243 | 197 | 77 | 517 |

| | Dodrefn a ffitiadau | Technoleg gwybodaeth | Offer swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **2018-19** | | | | |
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 1,302 | 519 | 157 | 1,978 |
| Ychwanegiadau | 37 | 111 | 12 | 160 |
| Gwarediadau | (3) | (19) | | (22) |
| Ar 31 Mawrth 2019 | | 611 | 169 | 2,116 |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 990 | 271 | 124 | 1,385 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 62 | 107 | 12 | 181 |
| Gwarediadau | (3) | (19) | | (22) |
| Ar 31 Mawrth 2019 | | 359 | 136 | 1,544 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2019 | | 252 | 33 | 572 |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 312 | 248 | 33 | 593 |
| **Ariannu asedau** | | | | |
| A berchenogir | 287 | 252 | 33 | 572 |

292 Caiff gwariant sydd dros £5,000 ar offer a meddalwedd cyfrifiadurol, gwaith adnewyddu swyddfeydd ac offer arall ei gyfalafu. Mae gwariant dilynol ar asedau sy'n bodloni'r meini prawf hyn yn cael ei gyfalafu ymhellach. Mae gwariant ar eitemau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn yn cael ei drin fel gwariant refeniw yn y flwyddyn.

293 Darperir dibrisiant ar bob ased cyfalaf o’r dyddiad y mae’r ased yn dechrau ei oes ddefnyddiol. Cyfrifir hwn i ddibrisio’r gost, namyn gwerth gweddillol amcangyfrifedig, mewn rhandaliadau blynyddol cyfwerth ar gyfer pob ased fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dodrefn, ffitiadau a seilwaith TG | Deng mlynedd (neu'n fyrrach o fywyd ased neu hyd prydles ar gyfer ffitiadau mewn adeiladau ar brydles) |
| Offer cyfrifiadurol | Tair blynedd |
| Offer swyddfa | Pum mlynedd |

294 Ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd presennol ac ar eu cost hanesyddol. Cynhelir asesiad blynyddol o leihad mewn gwerth er mwyn cadarnhau mai dyma’r achos o hyd.

**Nodyn 5: Asedau anniriaethol[65]**

| | **£’000** |
|---|---|
| **2019-20** | |
| **Cost** | |
| Ar 31 Mawrth 2019 | |
| Ychwanegiadau | 30 |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 572 |
| **Amorteiddio** | |
| Ar 31 Mawrth 2019 | |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 48 |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 410 |
| Gwerth llyfr net | |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 162 |
| Ar 31 Mawrth 2019 | |
| **Ariannu asedau** | |
| A berchenogir | 162 |

65 Offer cyfrifiadurol yn bennaf.

| | **£’000** |
|---|---|
| **2018-19** | |
| **Cost** | |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 663 |
| Ychwanegiadau | |
| Gwarediadau | (171) |
| Ar 31 Mawrth 2019 | |
| **Amorteiddio** | |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 430 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | |
| Gwarediadau | (171) |
| Ar 31 Mawrth 2019 | |
| Gwerth llyfr net | |
| Ar 31 Mawrth 2019 | |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 233 |
| **Ariannu asedau** | |
| A berchenogir | 180 |

295 Caiff asedau anniriaethol eu datgan ar gost hanesyddol wedi’i hamorteiddio. Caiff yr asedau eu hamorteiddio ar sail llinell syth naill ai dros gyfnod y drwydded neu bum mlynedd, pa un bynnag sydd fyrraf. Cyfrifir amorteiddiad o ddyddiad dechrau oes ddefnyddiol yr ased anniriaethol.

296 Ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd presennol ac ar eu cost hanesyddol. Cynhelir asesiad blynyddol o leihad mewn gwerth er mwyn cadarnhau mai dyma’r achos o hyd.

## Nodyn 6: Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo

| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Prydlesu | | |
| • Llywodraeth Ganolog | 240 | 342 |
| • Llywodraeth Leol | 666 | 481 |
| • Y GIG | 874 | 314 |
| • Y tu allan i'r llywodraeth | 87 | 59 |
| Gwaith sy'n mynd rhagddo | | |
| • Llywodraeth Ganolog | 746 | 862 |
| • Llywodraeth Leol | 389 | 356 |
| • Y GIG | - | 22 |
| | 3,002 | 2,436 |

### Prydlesu

297 Caiff symiau derbyniadwy eu prisio ar sail gwerth teg ar adeg y gydnabyddiaeth gychwynnol.

298 Mae'r rhan fwyaf o gleientiaid Swyddfa Archwilio Cymru yn adrannau llywodraeth neu'n gyrff cyhoeddus eraill a ariennir yn bennaf gan Senedd y DU – ffynhonnell ariannu ddibynadwy heb unrhyw hanes o beidio â thalu ffioedd archwilio. Felly, nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn agored i risgiau credyd arwyddocaol.

299 Nid oedd unrhyw golledion amhariad ar unrhyw symiau derbyniadwy yn 2019-20. (2018-19 – Dim.)

300 Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod.

### Gwaith sy'n mynd rhagddo

301 Mae gwaith sy'n mynd rhagddo yn cyfeirio at waith a gwblhawyd cyn cyflwyno'r anfoneb. Fe'i nodir ar sail y gost lawn llai darpariaeth am golledion rhagweladwy a symiau a gafodd eu bilio ar y cyfrif.

## Nodyn 7: Symiau derbyniadwy eraill

| | 31 Mawrth 2020 £’000 | 31 Mawrth 2019 £’000 |
|---|---|---|
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig[66] | 579 | 603 |
| Benthyciadau i weithwyr cyflogedig[67] | 1 | - |
| | 580 | 603 |

302 Nid oes symiau sy’n ddyledus ar ôl blwyddyn wedi’u cynnwys yn y ffigurau uchod.

## Nodyn 8: Arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod

| | 31 Mawrth 2020 £’000 | 31 Mawrth 2019 £’000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 1,776 | 3,017 |
| Newid net mewn arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod | (172) | (1,241) |
| Balans ar 31 Mawrth | 1,604 | 1,776 |

| | 31 Mawrth 2020 £’000 | 31 Mawrth 2019 £’000 |
|---|---|---|
| Cyfrif cyfredol (Gwasanaeth Bancio’r Llywodraeth) | 1,604 | 1,776 |
| | 1,604 | 1,776 |

303 Mae arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod yn cynnwys yr holl gronfeydd a ddelir mewn cyfrifon y gall Swyddfa Archwilio Cymru gael gafael arnynt ar unwaith.

304 Caiff balansau arian parod ar ddiwedd y flwyddyn eu dangos fel symiau sy’n ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru.

66 Blaendaliadau rhent a chostau eraill sy’n gysylltiedig ag eiddo yn bennaf.

67 Cynllun beicio i’r gwaith.

### Nodyn 9: Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach taladwy (sy'n ddyledus o fewn blwyddyn) | 192 | 26 |
| TAW | 41 | 108 |
| Trethiant a chostau nawdd cymdeithasol | 358 | 362 |
| Croniadau ar gyfer hawl gwyliau nas cymerwyd eto[68] | 521 | 484 |
| Croniadau eraill[69] | 931 | 1,137 |
| | 2,043 | 2,117 |

305 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at dalu 90% o'r holl anfonebau gan gyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn deng niwrnod i'w derbyn. Yn 2019-20, cafodd 82.4% eu talu o fewn deng niwrnod, a 96.5% o fewn 30 diwrnod. Rydym yn gweithredu newidiadau i'n proses archeb brynu o fis Ebrill 2020 i helpu i wella ein perfformiad talu 10 diwrnod.

### Nodyn 10: Incwm gohiriedig

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm gohiriedig | 2,191 | 2,336 |
| | 2,191 | 2,336 |

306 Caiff incwm o ffioedd archwilio a gydnabyddir yn ein cyfrifon ei asesu drwy gyfeirio at daliadau amser ac adolygu gwaith sy'n mynd rhagddo. Rydym yn anfonebu am y rhan fwyaf o'n gwaith ar sail rhandaliadau drwy gydol y flwyddyn. Mae incwm gohiriedig yn cyfeirio at incwm sydd wedi'i filio ond sydd heb ei gydnabod eto.

68 Yn seiliedig ar ben-blwydd gwyliau unigolion.

69 Yn cynnwys £205,000 mewn perthynas ag anfonebau a gafwyd ar ôl diwedd y flwyddyn, £314,000 mewn perthynas â chyfraniadau pensiwn ar gyfer mis Mawrth 2020 a dalwyd ym mis Ebrill 2020 a £166,000 ar gyfer rhent.

## Nodyn 11: Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Dadfeiliadau[70] | Ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau[71] | Ailstrwythuro'r Uwch Dîm | Cwmnïau Contractwyr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 622 | 508 | - | 109 | 1,239 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 30 | 165 | 659 | - | 854 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | - | (436) | - | - | (436) |
| Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn | - | (72) | - | (109) | (181) |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 652 | 165 | 659 | - | 1,476 |

### Dadansoddiad o'r amseru disgwyliedig

| | Dadfeiliadau | Ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau | Ailstrwythuro'r Uwch Dîm | Cwmnïau Contractwyr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| O fewn blwyddyn | - | 165 | 659 | - | 824 |
| Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd | 633 | - | - | - | 633 |
| Dros bum mlynedd | 19 | | | | 19 |
| | 652 | 165 | 659 | - | 1,476 |

70 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio cyfradd ddisgowntio Trysorlys EM fel y nodir yn PES(2019)11, sef 0.51% ar gyfer balansau o sero i bum mlynedd a 0.55% ar gyfer balansau o bum i ddeng mlynedd i gyfrifo'r balans hwn.

71 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio cyfradd ddisgowntio Trysorlys EM fel y nodir yn PES(2019)11, sef 0.5%, i gyfrifo'r balans hwn.

307 Caiff darpariaethau eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau o’r symiau y mae eu hangen i setlo’r rhwymedigaeth debygol ar y dyddiad adrodd.

308 Lle mae effaith gwerth amser arian yn berthnasol, mae’r ddarpariaeth yn seiliedig ar werth presennol y symiau hynny, wedi’u disgowntio yn ôl y gyfradd ddisgowntio cyn-treth sy’n adlewyrchu’r risgiau sy’n benodol i’r rhwymedigaeth. Cydnabyddir y ffaith bod y disgownt wedi dirwyn i ben o fewn y treuliau perthnasol.

### Dadfeiliadau

309 Mae’r ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau’n rhoi amcangyfrif o’r costau y gallai Swyddfa Archwilio Cymru eu hysgwyddo wrth wella’r eiddo a brydlesir ganddi ar ddiwedd y prydlesi.

310 Cronnodd y ddarpariaeth hon drwy dâl dadfeiliadau blynyddol, a gyfrifwyd drwy gymhwyso cyfradd ddadfeilio flynyddol i arwynebedd llawr yr asedau ar brydles.

311 Rhoddir cyfrif am rwymedigaethau dadfeilio sy’n ymwneud â chost newidiadau adfer a wnaed i adeiladau ar brydles drwy ddarpariaeth a neilltuwyd yn ystod y flwyddyn y nodwyd y gost.

### Ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau

312 Mae’r darpariaethau ar gyfer ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau’n cyfeirio at rwymedigaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol mewn perthynas ag aelodau o staff sydd ag ymrwymiad cytundebol i ymadael o dan gynlluniau dileu swyddi, ymddeoliad cynnar a chynlluniau diswyddo. Bydd staff yn gadael Swyddfa Archwilio Cymru yn 2020 o dan delerau y cytunwyd arnynt yn 2019-20.

### Ailstrwythuro’r Uwch Dîm

313 Ym mis Chwefror 2020, cychwynnodd yr Archwilydd Cyffredinol gyfnod ymgynghori ffurfiol i ailstrwythuro’r Tîm Uwch Gyfarwyddwyr. Rolau presennol yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol ac Arweinydd y Sector oedd dau o’r rolau a oedd mewn perygl ac, yn unol â pholisïau Ad-drefnu ac Adleoli, Ymadael yn Gynnar a Diswyddo Swyddfa Archwilio Cymru, gwahoddwyd aelodau o staff yr effeithiwyd arnynt i fynegi diddordeb mewn ymadael yn wirfoddol.

314 Cymeradwywyd ymadawiadau y cytunwyd arnynt ar gyfer Anthony Barrett (yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol) a Mike Usher (Arweinydd y Sector) gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol ar 19 Mawrth 2020. Bydd yr ymadawiadau yn dod i rym ar 30 Medi 2020 ac mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r ymadawiadau hyn wedi'u cynnwys yn y ddarpariaeth hon.

315 Mae'r ailstrwythuro yn effeithio ar ddwy rôl arall hefyd – y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol. Mae darpariaeth bellach wedi'i gwneud ar gyfer y costau bras posibl sy'n gysylltiedig â chael gwared ar y swyddi hyn. Amcangyfrifwyd y costau hyn ar sail iawndal disgwyliedig ar gyfer diswyddo gwirfoddol neu orfodol.

## Cwmnïau Contractwyr

316 Roedd y ddarpariaeth mewn perthynas â chwmnïau contractwyr ar 1 Ebrill 2019 yn ymwneud ag anghydfod cytundebol â'r cwmni dan sylw. Nid oedd angen y ddarpariaeth hon ac fe'i rhyddhawyd yn 2019-20.

## Nodyn 12: Prydlesi gweithredu

### Isafswm taliadau prydlesi cyfanredol– swyddfeydd gweithredol

| | **31 Mawrth 2020** | | **31 Mawrth 2019** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **Nifer yr unedau eiddo** | **£'000** | **Nifer yr unedau eiddo** |
| O fewn blwyddyn | 464 | 3 | 465 | 3 |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | 942 | 3 | 1,381 | 3 |
| Dros bum mlynedd | 26 | 1 | 52 | 1 |
| | **1,432** | | **1,898** | |

317 Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru dair swyddfa weithredol yng Nghaerdydd, Abertawe ac Abergele. Cynhelir adolygiadau rhent cyfnodol o'r prydlesi hyn.

318 Mae dyddiadau diwedd prydles y tri eiddo fel a ganlyn:

- Caerdydd 25 Mawrth 2023
- Penllegaer 18 Ebrill 2022
- Abergele 21 Mawrth 2026 (cymal terfynu ar 22 Mawrth 2021)

319 Yn ddiweddar, cadarnhaodd HMT na fydd IFRS16 a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016 yn dod i rym tan 1 Ionawr 2021. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob prydles â chyfnod prydlesu o fwy na 12 mis gael eu cydnabod fel asedau a rhwymedigaethau yn y datganiadau ariannol.

320 Ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, byddai hyn wedi ei gwneud hi'n ofynnol i gael addasiad ar gyfer asedau Hawl i Ddefnyddio a rhwymedigaethau prydles o £1.4 miliwn yn 2019-20.

**Nodyn 13: Ymrwymiadau cyfalaf**

321 Roedd ymrwymiadau cyfalaf o £4,474 mewn perthynas ag offer swyddfa a oedd i fod i gael eu gosod ym mis Mawrth 2020 ond nad oedd modd eu darparu oherwydd y cyfyngiadau symud COVID-19. (31 Mawrth 2019: £8,370).

**Nodyn 14: Colledion a thaliadau arbennig**

322 Ni wnaed unrhyw golledion adroddadwy na thaliadau arbennig yn 2019-20.

323 Yn ystod 2018-19, roedd dwy golled i'w datgelu:

- ad-daliad am TAW a godwyd mewn camgymeriad ar gorff archwiliedig: £8,804; a
- thaliad i gwmni contractwr am rai costau a ysgwyddwyd na fyddant yn cael eu hadfer gan gyrff archwiliedig am resymau gweithredol: £14,500.

## Nodyn 15: Deilliadau ac offerynnau ariannol

324 3Mae IFRS 7 (Datgeliadau Offerynnau Ariannol) yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatgelu gwybodaeth am bwysigrwydd offerynnau ariannol i endid, a natur a graddau'r risgiau sy'n deillio o'r offerynnau ariannol hynny, mewn termau ansoddol a meintiol. Oherwydd natur gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru a'r ffordd y caiff y gweithrediadau eu hariannu, nid yw'r swyddfa'n agored i lefel uchel o risg ariannol.

325 Er y gall Swyddfa Archwilio Cymru fenthyca arian at ddibenion ariannu tymor byr, ni fu'n rhaid i'r swyddfa wneud hynny yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

326 Gall Swyddfa Archwilio Cymru hefyd fuddsoddi arian dros ben. Gan fod balansau arian parod yn cael eu dal yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth, ni wnaed hyn yn ystod y flwyddyn.

### Risg hylifedd

327 O gofio natur ein busnes, mae lefel y risg a oddefir gennym mewn meysydd rheolaeth ariannol yn isel.

328 Yn sgîl y chwaeth hon am risg, a chefnogaeth Cronfa Gyfunol Cymru, nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn agored i risgiau sylweddol o ran hylifedd.

### Risg cyfraddau llog

329 Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru yn agored i risg cyfraddau llog.

### Risg arian cyfred tramor

330 Mae'r risg arian cyfred tramor y mae Swyddfa Archwilio Cymru'n agored iddi'n fach iawn gan mai dim ond pryniannau bach iawn o arian cyfred tramor a wna ymlaen llaw mewn perthynas â theithio dramor a chostau cysylltiedig eraill megis gwestai. Hefyd, caiff unrhyw ffioedd o waith neu secondiadau tramor eu trosi pan ddônt i law. Cofnodir unrhyw wahaniaethau cyfnewid yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn.

**Risg o ran credyd**

331 Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, GIG Cymru a chyrff llywodraeth leol yng Nghymru yw prif gleientiaid Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn codi ffioedd o dan ddeddfwriaeth yn unol â Chynllun Ffioedd cymeradwy ac felly nid yw'n agored i unrhyw risgiau credyd perthnasol.

**Gwerthoedd teg**

332 Nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2020 (31 Mawrth 2019: dim).

**Nodyn 16: Trafodion â phartïon cysylltiedig**

333 Corff corfforaethol a sefydlwyd o dan statud yw Swyddfa Archwilio Cymru ac mae wedi cynnal trafodion perthnasol â Chronfa Gyfunol Cymru a chyrff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol fel y'u datgelwyd yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

334 Mae Isobel Everett (Cadeirydd Anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru) yn briod â Phrif Weithredwr cyngor lleol a gaiff ei archwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol. Datgelir hyn er tryloywder, er nad yw'n bodloni'r diffiniad o drafodyn â pharti cysylltiedig.

335 Yn ystod y flwyddyn, nid oedd unrhyw aelod arall o'r Bwrdd nac aelodau allweddol o staff na'u partïon cysylltiedig wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol gyda'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gwybodaeth am bersonél rheoli allweddol wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol (tudalen 56).

**Nodyn 17: TAW**

336 Dim ond cyfran fach o TAW y gall Swyddfa Archwilio Cymru ei hadennill ar ei gwariant gros, sef y gyfran o incwm ffioedd anstatudol o'i chymharu â chyfanswm yr incwm am y flwyddyn.

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **Ar sail croniadau** | Cydnabyddir effeithiau trafodion a digwyddiadau eraill wrth iddynt ddigwydd (ac nid wrth dderbyn neu dalu arian parod neu eitemau sy'n cyfateb i arian parod) ac fe'u cofnodir yn y cofnodion cyfrifyddu ac adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol ar gyfer y cyfnodau y maent yn berthnasol iddynt. |
| **Amorteiddio** | Dosrannu cost ased sefydlog anniriaethol dros ei oes ddefnyddiol. |
| **Asedau** | Rhywbeth y mae'r sefydliad yn berchen arno neu'n ei ddefnyddio e.e., |
| **Gwariant cyfalaf** | Gwariant ar asedau (sefydlog) anghyfredol. |
| **Asedau cyfredol** | Ased y disgwylir iddo gael ei drosi'n arian parod o fewn y 12 mis nesaf. |
| **Atebolrwydd cyfredol.** | Atebolrwydd y disgwylir iddo gael ei droi'n arian parod o fewn y 12 mis nesaf. |
| **Incwm gohiriedig** | Yn cynrychioli incwm a filiwyd ond nas cydnabuwyd eto yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. |
| **Dibrisiant** | Dosrannu cost ased sefydlog diriaethol dros ei oes ddefnyddiol. |
| **Amcangyfrif** | Ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, yr Amcangyfrif blynyddol o Incwm a Threuliau a gymeradwyir yn y cyfarfod llawn gan y Cynnig Cyllidebol. Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd yn darparu adroddiad i ategu hyn. Cyfeirir ato hefyd fel y gyllideb gymeradwy. |
| **Asedau sefydlog** | Ased a ddelir gan sefydliad i'w ddefnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ar sail barhaus fel rhan o weithgareddau'r endid sy'n cyflwyno'r adroddiad. Ymhlith enghreifftiau ceir offer, cerbydau, tir ac adeiladau. |
| **Sail busnes gweithredol** | Mae datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar y sail hon gan dybio y bydd y sefydliad yn parhau i weithredu yn y dyfodol. |
| **Ased sefydlog anniriaethol** | Ased, megis hawl, nad oes iddo sylwedd ffisegol |
| **Prydlesu** | Caffael y defnydd o ased drwy gytundeb rhentu. |
| **Rhagdaliadau** | Swm a delir ymlaen llaw megis premiymau yswiriant neu flaendaliadau rhent. Caiff ei gydnabod i ddechrau fel ased, wedyn ei drosglwyddo fel traul yn ystod y cyfnod lle daw'r budd yn weithredol. |
| **Darpariaeth** | Atebolrwydd o ran amseru neu swm ansicr. |
| **Cydnabyddiaeth ariannol** | Y cyflog, neu iawndal arall, a ddarperir yn gyfnewid am wasanaethau cyflogai. |
| **Ecwiti trethdalwyr** | Asedau net y sefydliad. |

| | |
|---|---|
| **Symiau masnach taladwy** | Symiau sy’n ddyledus i’w talu i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau. |
| **Symiau masnach derbyniadwy** | Symiau sy'n ddyledus gan gleientiaid. |
| **Ased sefydlog diriaethol** | Ased sefydlog (gelwir hefyd yn ased anghyfredol) y mae iddo fodolaeth ffisegol. Fe'i defnyddir i wahaniaethu rhyngddo ag ased sefydlog anniriaethol. |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | Y gronfa a ddefnyddir gan y Senedd i gadw symiau y pleidleisir arnynt gan y Senedd a gaiff wedyn eu dyrannu drwy Gynnig Cyllidebol i Lywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiwn y Senedd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. |
| **Gwaith sy’n mynd rhagddo** | Gwaith a wnaed ac a gydnabuwyd fel incwm yn y cyfrifon na chyflwynwyd anfoneb amdano eto i’r cleientiaid. |

Mae’r diffiniadau llawn ar gael yn y Llyfryn Adrodd Ariannol (FReM).

# Appendices

1 Rhaglenni gwaith a gyflawnwyd yn 2019-20

2 Cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein hymrwymiadau o ran newid

# 1 Rhaglenni gwaith a gyflawnwyd yn 2019-20

## Gwaith archwilio lleol

Fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol waith lleol yn y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn 2019-20. Roedd y rhaglen yn cynnwys archwiliadau o gyfrifon, gwaith archwilio perfformiad lleol a gwaith ar lesiant cenedlaethau’r dyfodol.

Tabl sy’n rhestru’r cyrff cyhoeddus a archwiliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ac yn dangos y mathau o waith lleol a gyflawnwyd yn y cyrff hynny

| Corff cyhoeddus | Archwilio cyfrifon | Gwaith archwilio perfformiad lleol[70] | Gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol |
|---|---|---|---|
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | ✓ | | |
| Llywodraeth Cymru | ✓ | | ✓ |
| 8 corff a noddir gan Lywodraeth Cymru | ✓ | | ✓[71] |
| Awdurdod Cyllid Cymru gan gynnwys y datganiad treth | ✓ | | |
| 4 cwmni Llywodraeth Cymru | ✓ | | |
| 8 Comisiynydd, Arolygiaeth a Rheoleiddiwr | ✓ | | |
| 7 Bwrdd Iechyd Lleol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Ymddiriedolaeth y GIG ac Awdurdod Iechyd Arbennig | ✓ | ✓ | ✓[72] |
| 22 o gynghorau (Awdurdodau Unedol) | ✓ | ✓ | ✓ |
| 4 Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Tân ac Achub | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 9 Cronfa bensiwn | ✓ | | |
| Nifer o gyrff llywodraeth leol llai gan gynnwys cyd-bwyllgorau, ardaloedd draenio ac awdurdodau harbwr | ✓ | | |
| Dros 730 o Gynghorau Tref a Chymuned | ✓[73] | | |

70 Nid yw’n ofynnol i’r Archwilydd Cyffredinol gwblhau rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol ym mhob corff llywodraeth ganolog. Ar hyn o bryd, mae gwaith archwilio perfformiad yn y sector hwn yn perthyn i’r rhaglen archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol.

71 Dim ond ar gyfer cyrff a restrir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

72 Dim ond ar gyfer cyrff a restrir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

73 Ar sylfaen sicrwydd cyfyngedig.

# Archwiliadau ac astudiaethau gwerth-am-arian cenedlaethol

Mae'r rhaglen waith hon yn cynnwys archwiliadau gwerth am arian, paratoi adroddiadau cryno o'r canfyddiadau o waith archwilio ar draws cyrff lluosog yn y GIG, y Llywodraeth ganolog a/neu lywodraeth leol, ac archwiliadau a gwblhawyd mewn ymateb i faterion sy'n achosi pryder i'r cyhoedd a nodwyd trwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r allbynnau o nifer o elfennau o'r rhaglen hon yn cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd ac, o bosibl, pwyllgorau eraill y Senedd. Mae'r rhaglen waith yn cadw elfen o hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau, blaenoriaethau a risgiau newidiol.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn adolygu ein rhaglen gwaith archwilio gan ystyried y sefyllfa COVID-19 ehangach. Rydym yn parhau â'r gwaith sydd ar y gweill hyd y gellir, gan weithio o bell ac ystyried effaith ein gwaith ar gyrff cyhoeddus ar yr adeg anodd hon

## Gwaith a gwblhawyd

- Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru
- Offeryn data cyllid GIG Cymru
- Trefniadau atal twyll yn y sector cyhoeddus yng Nghymru
- Y Gronfa Gofal Integredig
- Llesiant pobl ifanc
- Drws ffrynt i ofal cymdeithasol oedolion
- Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (cam 1)
- Tlodi tanwydd
- Tueddiadau gwariant cyhoeddus yng Nghymru
- Paratoadau yng Nghymru ar gyfer Brexit 'heb gytundeb' (gwaith dilynol)
- Gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru
- Cynnydd wrth weithredu'r ddeddf trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Gwella ffordd yr A465 (Adran 2) - canfyddiadau interim
- Trefniadau ar gyfer penodi uwch staff dros dro – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Rheolaeth ariannol a llywodraethu – Cynghorau cymuned a Thref 2018-19
- Contractau Gwerthu Pren a ddyfarnwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru
- Adolygiad ar y cyd o drefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Paratoadau yng Nghymru ar gyfer Brexit 'heb gytundeb' - llythyr dilynol

## Gwaith sy'n mynd rhagddo

- Diweddariad ar gynnydd codio clinigol
- Gwasanaethau Orthopedig
- Amseroedd aros dethol y GIG
- System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)
- Llesiant cenedlaethau'r dyfodol
- Trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd lleol
- Rhaglen i dynnu asbestos yn Ysbyty Glan Clwyd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (cam 2)
- Trefniadau llywodraethu ansawdd yng nghyrff y GIG
- Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
- Masnacheiddio mewn awdurdodau lleol
- Effaith cyni ar wasanaethau dewisol awdurdodau lleol
- Llywodraeth Cymru yn rheoli Cronfeydd Amaethyddol Ewrop ar gyfer cyllid Datblygu Rhanbarthol (EAFRD)
- Darn meddwl ar weithredu deddfwriaeth newydd (gan ddefnyddio gwaith archwilio blaenorol)
- Byrddau gwasanaethau cyhoeddus - mynd i'r afael â chysgu ar y stryd
- Llywodraeth leol - cynaliadwyedd ariannol
- Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon
- Gweithlu Llywodraeth Cymru
- Rheoli grantiau Llywodraeth Cymru
- TGCh Llywodraeth Cymru
- Gweinyddu cyllid myfyrwyr
- Rhaglen cartrefi clyd – Arbed a Nyth
- Cydnerthedd digidol cyrff cyhoeddus
- Rheoli grantiau

# Gwaith arfer da

Ffocws allweddol i'n gwaith arfer da yw hwyluso sgyrsiau rhwng darparwyr gwasanaeth lle mae'r gwersi o'n gwaith archwilio ac o'u llwyddiannau a methiannau cymharol hwy'n cael eu rhannu wyneb yn wyneb. Yn gynyddol, rydym yn cyflwyno barn a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau ac arbenigwyr byd-eang i'r sgyrsiau hyn.

## Pynciau a gyflawnwyd

### Seminarau

- Gweithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth i fynd i'r afael â thwyll yng Nghymru (mewn partneriaeth â CIPFA Cymru)
- Dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn cymunedau gwledig
- Creu 'Cymru Gyfartal'
- Sut mae technoleg yn galluogi cydweithredu ar draws gwasanaethau cyhoeddus
- Gweithio gyda'n gilydd i nodi a lleihau bregusrwydd

### Gweminarau

- Trefniant archwilio mewnol mewn Cynghorau Tref a Chymuned – rhannu dysgu o'n hadolygiad o drefniadau archwilio mewnol
- Materion allweddol ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Diogelu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol
- Dadorchuddio gwerth eich data

# Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ddatgelu gwybodaeth

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn 'berson rhagnodedig' ar gyfer gwneud datgeliadau chwythu'r chwiban ynghylch cynnal busnes cyhoeddus yn briodol a thwyll, gwerth am arian a llygredigaeth mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae Rheoliadau Personau Rhagnodedig (Adroddiadau ar Ddatgelu Gwybodaeth) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n nodi'r canlynol:

a. nifer y datgeliadau a wnaed i'r Archwilydd Cyffredinol yn y flwyddyn honno sy'n ddatgeliadau cymwys yn ei farn ef[74];

b. nifer y datgeliadau cymwys y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi penderfynu gweithredu arnynt;

c. crynodeb o'r mathau o gamau gweithredu y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi'u cymryd; a

ch. crynodeb o'r ffordd y mae'r wybodaeth a ddatgelwyd wedi effeithio ar allu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau.

Caiff prif swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol eu crynhoi yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ac fe'u disgrifir yn fanylach yn ein Canllaw ar ddeddfwriaeth archwilio cyhoeddus Cymru.

Yn 2019-20, fe wnaeth 21 o bobl ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru, neu eu ffonio, gan ddweud eu bod am wneud datgeliad chwythu'r chwiban. Fodd bynnag, dim ond mewn 15 o achosion yr oedd gan yr Archwilydd Cyffredinol sail resymol dros gredu bod y datgeliad yn gymwys ac o fewn y materion y mae wedi'i ragnodi mewn perthynas â hwy. Y rheswm dros hyn oedd am na wnaeth unigolion roi manylion eu sefyllfa gyflogaeth, neu ei bod yn glir nad oeddent yn gyflogeion nac yn weithwyr cymwys eraill.

74 Datgeliadau sy'n bodloni'r meini prawf yn adran 43B o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 ac sy'n ennyn yr amddiffyniad rhag anfantais a ddarperir gan y Ddeddf honno.

O’r 15 o ddatgeliadau a ymddangosai’n rhai cymwys, mewn 10 achos adolygodd y tîm archwilio perthnasol y materion a godwyd, ond ni chanfuwyd eu bod yn gyfystyr â materion sylweddol y byddai angen i’r Archwilydd Cyffredinol adrodd arnynt neu gymryd unrhyw gamau eraill yn eu cylch. Mewn un o’r pum achos arall, ar ôl ystyriaeth gychwynnol gan staff archwilio, fe wnaed cryn dipyn o waith adolygu pellach neu mae yn yr arfaeth. Gall hyn arwain at gyhoeddi adroddiad Yn y pedwar achos arall, mae staff archwilio yn aros am adborth yn dilyn eu hymholiadau cychwynnol cyn penderfynu a oes unrhyw faterion sylweddol y byddai angen i’r Archwilydd Cyffredinol adrodd arnynt neu gymryd camau gweithredu eraill yn eu cylch.

Yn gyffredinol, lle mae’r Archwilydd Cyffredinol wedi cael gwybodaeth sydd wedi bod yn berthnasol i’w swyddogaethau, mae hyn wedi helpu i lywio ei waith, ac mewn pum achos, mae’r wybodaeth wedi galluogi’r Archwilydd Cyffredinol i nodi materion y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach.

# 2 Cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein hymrwymiadau o ran newid

## Prosiectau archwilio

| Ymrwymiad | Sylwebaeth |
|---|---|
| **Gwella'r ffordd rydym yn canfod, yn caffael ac yn dadansoddi data, a'r ffordd rydym yn delweddu a chyfleu ein canfyddiadau** | 2019-20 oedd ail flwyddyn cyflwyno ein strategaeth dadansoddi data dros dair blynedd. Roedd y datblygiadau allweddol yn cynnwys:<br>• Cyhoeddi sawl offeryn data rhyngweithiol a oedd yn dwyn ynghyd ystadegau a gwybodaeth arall o adroddiadau archwilio i adnoddau unigol, hygyrch. Roeddent yn cynnwys: Tueddiadau gwariant cyhoeddus yng Nghymru 1999-00 i 2017-18, Llesiant pobl ifanc, Y 'drws blaen' i ofal cymdeithasol i oedolion ac offeryn data cyllid GIG Cymru<br>• Cyhoeddi blog o'r enw Data mawr a dadansoddi data yw dyfodol archwilio data i ymgysylltu â'r sector cyhoeddus ehangach ar y gwaith a wnaed gennym hyd yma a lle yr hoffem symud iddo yn y dyfodol.<br>• Lansio prosiect hirdymor sy'n ceisio gosod data wrth wraidd ein prosesau archwilio cyfrifon.<br>Rydym wedi rhoi camau ar waith i wella hygyrchedd a darllenadwyedd ein cynhyrchion archwilio, gan gynnwys trwy gyflwyno terfyn geiriau ar gyfer ein hadroddiadau ac ailddatblygu ein gwefan. |

| Ymrwymiad | Sylwebaeth |
| --- | --- |
| **Rhoi mwy o bwyslais ar farn a safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys grwpiau 'anoddach eu cyrraedd', wrth ystyried effeithiolrwydd cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.** | Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi cynnwys mwy o astudiaethau ac adolygiadau yn ein rhaglen gan ystyried yn fanylach barn a safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau. Roeddent yn cynnwys archwiliadau o'r canlynol:<br>• Canolfannau ailgylchu cartrefi<br>• Cynnydd wrth weithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)<br>• Llesiant pobl ifanc<br>• Byrddau gwasanaethau cyhoeddus.<br>Fel rhan o'n hymgysylltiad parhaus ar ein rhaglenni gwaith i'r dyfodol, gwnaethom sicrhau ein bod yn cael safbwyntiau gan y rhai sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwarchodedig. Ym mis Chwefror 2020, aethom i Glymblaid Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), a'n helpodd ni i nodi cwmpas darn penodol o waith y byddwn yn ei wneud ar y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol. |
| **Edrych yn fwy manwl ar effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau mewn modd integredig a chydweithredol.** | Eleni, roedd ein rhaglen o waith archwilio yn cynnwys cyfres o brosiectau a ddyluniwyd i edrych yn fwy manwl ar effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau mewn modd integredig a chydweithredol. Roedd hyn yn cynnwys adolygiadau o'r canlynol:<br>• Gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru<br>• Y Gronfa Gofal Integredig<br>• Llesiant pobl ifanc<br>• Byrddau gwasanaethau cyhoeddus<br>• Cynnydd wrth weithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)<br>• I ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. |

## Cynyddu ein heffaith a’n gwerth

| Ymrwymiad | Sylwebaeth |
| --- | --- |
| **Sicrhau bod y Senedd yn gwbl ymwybodol o ganlyniadau ein gwaith wrth ymgymryd â phob agwedd ar ei swyddogaeth o graffu ar wariant cyhoeddus** | Rydym wedi gweithio ar y canlynol gydol y flwyddyn i wella ein hymgysylltiad â chydweithwyr a phwyllgorau’r Senedd er mwyn ymgysylltu i’r eithaf â chanlyniadau ein gwaith. Roedd hyn yn cynnwys:<br>• casglu adborth ar ein hadnoddau data a rhoi tystiolaeth i amrywiaeth o bwyllgorau; ac<br>• adolygu yn fwy rhagweithiol Filiau drafft a osodwyd gerbron y Senedd a Senedd y DU, ymchwiliadau ac ymgynghoriadau Pwyllgorau’r Senedd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb ym mhob achos lle gallwn gael effaith<br>Mae enghreifftiau’n cynnwys:<br>• ein hadroddiad ar Dlodi tanwydd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, a gyhoeddodd ei adroddiad ar dlodi tanwydd ym mis Ebrill 2020;<br>• darparu tystiolaeth lafar i’r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru);<br>• ymateb mewn ffordd ragweithiol i adolygiad y Pwyllgor Cyllid o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013; a<br>• darparu llythyr dilynol i Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol i’n hadroddiad ym mis Chwefror 2019 ar y paratoadau yng Nghymru ar gyfer BREXIT ‘heb gytundeb’. |
| **Archwilio ffyrdd gwahanol a newydd o ddylanwadu ar feddylfryd ac ymddygiad eraill a llywio’r drafodaeth gyhoeddus ehangach.** | Fe wnaethom y canlynol yn 2019-20:<br>• ymgysylltu â thîm cydlynu’r Senedd Ieuenctid Cenedlaethol ar ein gwaith Llesiant pobl ifanc er mwyn sefydlu sylfaen gadarn ar gyfer ymgysylltu â’r Senedd Ieuenctid yn y dyfodol;<br>• gwrando ar adborth gan ein rhanddeiliaid wrth ddatblygu a sefydlu hunaniaeth sefydliadol newydd i helpu i ymestyn ein cyrhaeddiad a’n heffaith; ac<br>• ehangu ein rhaglen hyfforddi staff i gynnwys cyfleoedd ychwanegol ar gyfer datblygu sgiliau dylanwadu ac ymgysylltu. |

| Ymrwymiad | Sylwebaeth |
| --- | --- |
| **Bod yn fwy rhagweithiol yn ein dull o gefnogi cyrff cyhoeddus Cymru yn eu brwydr yn erbyn twyll a llygredd.** | Llwyddodd ymarferiad y fenter atal twyll genedlaethol yn ystod 2018-20 i nodi £8 miliwn, o'i gymharu â £5.4 miliwn fel rhan o'r ymarferiad blaenorol.<br>Hefyd, fe wnaethom y canlynol dros y 12 mis diwethaf:<br>• cyhoeddi trosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus o Drefniadau gwrth-dwyll yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, a oedd yn llywio Confensiwn ar atal twyll a drefnwyd gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd; yn dilyn hynny, gwnaeth y Pwyllgor argymhellion i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chapasiti ac arweinyddiaeth ar gyfer atal twyll;<br>• cynnal seminarau yn y Gogledd a'r De ar Gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â thwyll - roedd y seminarau yn rhannu technegau ymchwilio, gwybodaeth a defnyddio dadansoddeg data wrth atal a chanfod twyll;<br>• cyhoeddi blog o dan y teitl Mae pob £ a gollir i dwyll yn y sector cyhoeddus yn £ a wastraffir ac a gollir i wasanaethau cyhoeddus hanfodol; a<br>• cwblhau sawl ymarferiad paru data mewn cynlluniau peilot newydd gan gynnwys mewn perthynas â chyllid myfyrwyr, Rhentu Doeth Cymru a pharu cofrestru meddygon teulu i helpu i nodi twyll a gordaliadau. |

## Rhedeg y busnes

| Ymrwymiad | Sylwebaeth |
|---|---|
| **Cyflwyno ffyrdd newydd a mwy craff o weithio er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol a'u bod yn gallu addasu i newidiadau mewnol ac allanol.** | Rydym wedi:<br>• datblygu prosiect gweddnewid Gweithleoedd y Dyfodol er mwyn adolygu ein strategaeth ar ystadau a sicrhau bod ein gweithleoedd yn addas i'r diben, yn gost-effeithiol, yn gynaliadwy, yn hyrwyddo llesiant staff ac yn hwyluso gweithio'n gallach;<br>• ailstrwythuro ein timau archwilio ariannol i helpu i gyflawni ein rhaglen waith ar gyfer y dyfodol yn well a gweithio mewn tîm mewn ffordd fwy integredig;<br>• lansio cynllun peilot Undod yn y Gogledd er mwyn sicrhau bod ein harchwilwyr yn gweithio fel tîm unigol ar draws yr holl waith archwilio lleol, gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff iechyd – gan greu sianeli ymgysylltu mwy cyson â'r cyrff cyhoeddus dan sylw, a phrofiad cyfoethocach a mwy amrywiol i staff;<br>• cytuno ar system archwilio ddiwygiedig ar gyfer cynghorau cymuned a thref i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei drosglwyddo'n ddidrafferth pan fydd y contractau allanol yn dod i ben;<br>• sefydlu tîm Rhaglen Newid penodedig, Bwrdd Newid a phortffolio newid i sicrhau dull gweithredu a phecyn cymorth cyson ar gyfer rheoli newid; a<br>• dyfeisio strategaeth ar gyfer y gweithlu, gan roi sylw i feysydd fel recriwtio staff, cadw staff, datblygiad gyrfa a rheoli talent a diwylliant, sy'n fwy cyson â'n dyheadau cyffredinol. |

| Ymrwymiad | Sylwebaeth |
|---|---|
| **Gwella ein rheolaeth fewnol o wybodaeth a data.** | Fe wnaethom y canlynol dros y 12 mis diwethaf:<br>• gwella ein trefniadau ar gyfer adrodd yn fewnol ar reoli gwybodaeth trwy ddatblygu adroddiadau rhyngweithiol ar ddangosyddion perfformiad allweddol, risgiau, a gwireddu blaenoriaethau strategol sy’n cynorthwyo prosesau craffu a gwneud penderfyniadau;<br>• gweithredu system newydd ar gyfer rheoli data yn y cwmwl ar gyfer ein gwaith archwilio, sy’n cefnogi gweithio a rhannu gwybodaeth yn fwy effeithlon ac effeithiol; a<br>• chyflymu ein gwaith ar archifo a dinistrio cofnodion papur ac electronig. |
| **Adnewyddu ein strwythur a’n prosesau arwain a llywodraethu er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â’n huchelgeisiau.** | Fe wnaethom y canlynol dros y flwyddyn ddiwethaf:<br>• ailffurfio ein Tîm Arwain Gweithredol gydag aelodaeth newydd, gan gynnwys aelodau sy’n weithwyr cyflogedig, er mwyn sicrhau bod ystod ehangach o safbwyntiau yn llywio ein penderfyniadau corfforaethol;<br>• cydgrynhoi rhaglenni gwaith tri phwyllgor Cyfarwyddwyr blaenorol yn un Tîm Cyfarwyddwyr er mwyn sicrhau arweinyddiaeth strategol a gweithredol mwy cydgysylltiedig; a<br>• dechrau ailstrwythuro uwch reolwyr er mwyn ceisio sicrhau bod swyddi uwch yn cyfateb yn llawn i’n dyheadau cyffredinol. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Audit Wales

24 Cathedral Road

Cardiff

CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales